Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

# DARPARU LLETY AR GYFER CEISWYR LLOCHES A WRTHODWYD YNG NGHYMRU

## ASTUDIAETH DDICHONOLDEB A GOMISIYNWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

Heather Petch a Tamsin Stirling

EBRILL 2020

# Cynnwys

**Nodiadau gan yr awduron** .......... 2
1. CEFNDIR .......... 3
1.1. Ynglŷn â'r astudiaeth ddichonoldeb hon .......... 3
1.2. Ynglŷn â'r adroddiad hwn .......... 4
2. Y CYD-DESTUN POLISI .......... 6
2.1. Cyd-destun polisi Cymru: Cenedl Noddfa .......... 6
2.2. Polisi Llywodraeth y DU .......... 7
3. CWMPAS A GRADDFA .......... 8
3.1. Cwmpas a therminoleg .......... 8
3.2. Graddfa amddifadedd yng Nghymru .......... 8
3.3. Pryd mae pobl yn mynd yn amddifad? .......... 9
3.4. Llwybrau allan o amddifadedd .......... 10
4. MODELAU O LETY AR GYFER CEISWYR LLOCHES A WRTHODWYD .......... 12
4.1. Swyddogaeth llety mewn cefnogi llwybrau allan o amddifadedd .......... 12
4.2. Y sefyllfa gyfreithiol .......... 12
4.3. Y modelau: trosolwg a phroblemau .......... 13
4.4. Trefniadau anffurfiol: trosolwg .......... 13
4.5. Gwestya: trosolwg ..........
4.6. Tai a rennir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd: trosolwg ..........
4.7. Tai a rennir rhwng ceiswyr lloches a wrthodwyd a phreswylwyr sy'n talu rhent: trosolwg. 15
4.8. Llochesau nos a hosteli: trosolwg .......... 16
4.9. Talu rhent i fewnfudwyr allu byw mewn tŷ, hostel neu B&B: trosolwg .......... 16
4.10. Modelau eraill .......... 17
4.12. Diogelu .......... 18
4.13. Cyngor ar fewnfudo, eiriolaeth a chynrychiolaeth .......... 19
5. Y DDARPARIAETH YNG NGHYMRU .......... 22
5.1. Gwasanaethau allweddol ar gyfer ceisiwyr lloches a wrthodwyd .......... 22
5.2. Darpariaeth llety sy'n hygyrch i geiswyr lloches a wrthodwyd yng Nghymru .......... 22
5.3. Sicrhau cyngor ar fewnfudo i brojectau llety .......... 27
5.4. Canlyniadau .......... 28
6. YMGYNGHORI .......... 32
6.1. Ymgynghori â phobl sy'n ceisio noddfa .......... 33
6.2. Angen a bylchau yn y ddarpariaeth llety: persbectif sefydliadol .......... 35
6.3. Yr hyn a ddisgwylir gan y Cynllun Cenedl Noddfa .......... 38

6.4. Yr hyn a ddisgwylir gan yr astudiaeth ddichonoldeb ..... 37

7. GWNAED YNG NGHYMRU: CRYNODEB, CASGLIADAU AC ARGYMHELLION ..... 40

7.1. Trosolwg ar ein dull o fynd ati a'n hargymhellion ..... 40

7.2. Casgliadau allweddol a throsolwg ar yr argymhellion ..... 41

7.3. Polisi a deddfwriaeth ..... 45

7.4. Swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff statudol ..... 44

7.5. Ymgynghori â phobl â phrofiad uniongyrchol a chefnogi eu cyfranogiad ..... 44

7.6. Argymhellion ..... 45

7.7. Ynglŷn â'r sefydliadau a'r rhwydweithiau cyflawni ..... 55

ATODIADAU ..... 59

ATODIAD 1 – Lletya Ceiswyr Lloches a Wrthodwyd - SeinFwrdd ..... 59

ATODIAD 2 – Rhestr o gyfweliadau a digwyddiadau ymgynghori ..... 60

ATODIAD 3 – DARPARU LLETY AR GYFER CEISWYR LLOCHES A WRTHODWYD: MATERION DEDDFWRIAETHOL A PHOLIS (cywir pan ddaeth yr ymchwil i ben, Gorffennaf 2019) ..... 62

ATODIAD 4 - TERMINOLEG ..... 69

ATODIAD 5 – GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH ..... 71


## Nodyn gan yr awduron

Carem ddiolch i bawb sydd wedi cyfranogi yn yr astudiaeth ddichonoldeb hon a'i chefnogi, yn enwedig John Davies a'i dîm yn Llywodraeth Cymru, aelodau'r SeinFwrdd ac eraill a gynorthwyodd gyda'r ymchwil. Rydym yn ddiolchgar i'r sefydliadau rheng-flaen prysur a rannodd eu gwybodaeth arbenigol, ac yn enwedig i'r ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches a wrthodwyd sydd yn, neu sydd wedi, defnyddio eu gwasanaethau ac a oedd yn fodlon siarad â ni am eu profiad nhw o amddifadedd.

Gwnaed yr ymchwil a gynhwysir yn yr adroddiad hwn rhwng Chwefror a Gorffennaf 2019 yn bennaf. Cafodd rhai datblygiadau allweddol a fu o fewn nifer o'r sefydliadau cyfrannol ers hynny eu cynnwys. Fodd bynnag, nid aed ati i lwyr ddiweddaru pob agwedd ar y gwaith ymchwil. Mae'r atodiad polisi a deddfwriaeth (Atodiad 3) yn gywir fel yr oedd ym mis Gorffennaf 2019.

Cyfrifoldeb yr awduron yw unrhyw wallau a geir yn yr adroddiad hwn.

DRAFT

# 1. CEFNDIR

## 1.1. Ynglŷn â'r astudiaeth ddichonoldeb hon

Lawnsiodd Lywodraeth Cymru (LlC) ei Chynllun Cymru Cenedl Noddfa ym mis Ionawr 2019. Un o'i hamcanion yw lliniaru amddifadedd ymhlith ceiswyr lloches. Nid oes gan geiswyr lloches a wrthodir ddim hawl cyrchu cronfeydd cyhoeddus (DHCCC), oni bai eu bod yn bodloni amodau neilltuol, megis cyflwyno hawliad newydd. Heb fodd i fyw na sefydlogrwydd a diogelwch lle i aros, mae'n anodd osgoi amddifadedd neu ganfod ffordd allan ohono.

**Blwch 1: Diffinio ceisydd lloches**

**Ceisydd lloches** yw person sy'n ffoi rhag erledigaeth yn ei mamwlad/famwlad, sydd wedi cyrraedd gwlad arall, sydd wedi hysbysu'r awdurdodau ei bod/fod yno, wedi arfer ei hawl gyfreithiol i wneud cais am loches, ac sydd yn disgwyl canlyniad ei hawliad am loches. O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ym 1951 sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid, **ffoadur** yw person sydd '*oherwydd ofn dilys y caiff ei erlid am resymau hil, crefydd, cenedligrwydd, aelodaeth o grŵp cymdeithasol penodol, neu farn wleidyddol, sydd y tu allan i wlad ei genedligrwydd ac na all, neu, oherwydd y fath ofn, nad yw'n barod i fanteisio ar amddiffyniad y wlad honno*.'

Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod ceisydd lloches fel ffoadur pan fydd yn bodloni'r diffiniad uchod. O fewn Cynllun Cymru Cenedl Noddfa, mae'r term 'ffoadur' yn cyfeirio hefyd at y rhai nad ydynt wedi cael eu cydnabod fel ffoaduriaid, ond sydd wedi cael caniatâd amhenodol i aros, wedi cael cynnig amddiffyniad dyngarol neu wedi cael caniatâd yn ôl disgresiwn yn dilyn eu cais am loches.

**Blwch 2: Diffinio Dim Hawl Cyrchu Cronfeydd Cyhoeddus (DHCCC)**

Mae **Dim Hawl Cyrchu Cronfeydd Cyhoeddus (DHCCC)** yn derm a ddefnyddir ar gyfer pobl na allant, oherwydd eu statws mewnfudo (neu ddiffyg hynny) gael mynediad i dai neu fudd-daliadau prif-ffrwd. Daw 'Cronfeydd Cyhoeddus' o'r Rheolau Mewnfudo,[1] sy'n nodi'r budd-daliadau a'r gwasanaethau na all rhai ymfudwyr eu defnyddio os oes arnynt angen caniatâd mynediad, neu fel amod o roddi caniatâd iddynt aros. Mae'r cyllid a nodir yn cynnwys budd-daliadau anabledd, mynediad i restrau aros y cyngor, a chymorth digartrefedd a budd-dâl plant. Nid yw'r rhan fwyaf o arian arall sy'n deillio o bwrs y wlad a ddefnyddir i gynnal pobl sy'n ddarostyngedig i reolaethau mewnfudo yn dod o fewn y diffiniad o 'gronfeydd cyhoeddus' a ddefnyddir i ddibenion mewnfudo. Mae hyn yn cynnwys y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yng Nghymru, a ddefnyddir gan Awdurdodau Lleol i atal amddifadedd ymhlith plant a'u rhieni yn ogystal ag oedolion diymgeledd a phobl ifanc yr arferai awdurdod lleol ofalu amdanynt (yn amodol ar wneud Asesiadau Hawliau Dynol yn achos y mwyafrif sy'n ceisio lloches).[2]

Fel rheol, bydd gan fewnfudwyr sy'n dod i'r DU (i weithio, astudio, ymuno â thylwyth neu ymweld) statws mewnfudo sy'n mynnu eu bod yn cynnal eu hunain 'heb gyrchu cronfeydd cyhoeddus'. Fodd bynnag, defnyddir y term hefyd i gynnwys pobl sydd heb statws neu sy'n aros am benderfyniad. Mae ymfudwyr sy'n gwneud cais i aros ar sail preswyliad hir neu fywyd teuluol fel arfer yn cael eu gwahardd rhag troi at gronfeydd cyhoeddus ond gallant wneud cais am ddileu'r amod os ydynt yn amddifad (dyma a olygir wrth 'ddileu amod DHCCC'). Gall ymfudwyr o'r UE wynebu problemau tebyg os bernir eu bod heb 'hawl i breswylio'. Er bod gan geiswyr lloches hawl i gefnogaeth ddechreuol, o leiaf, gall amddifadedd ddigwydd oherwydd camgymeriadau, oedi neu benderfynu gwallus. Gall rhai ceiswyr lloches a wrthodir sy'n gobeithio ailagor eu ceisiadau am loches dderbyn cymorth brys (Adran 4) ar amodau neilltuol, ond efallai na fyddant ei eisiau neu'n methu ymdopi â'r broses ymgeisio.

DRAFT

[1] Mae paragraff 6 o'r Rheolau hyn yn diffinio'r budd-daliadau a gwasanaethau a gynhwysir, ond nodir y gwaharddiad ar fynediad i dai a budd-daliadau yn benodol yn y meini prawf cymhwysedd.
[2] Cynghrair Ffoaduriaid Cymru a Llywodraeth Cymru, ***Access to social services and other care and support for destitute asylum seekers with no recourse to public funds***, nodyn a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020.

Comisiynodd LlC yr astudiaeth ddichonoldeb hon er mwyn archwilio ffyrdd o gynyddu'r dewisadau llety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd a all fod am herio penderfyniad negyddol ar eu cais am loches neu sydd â sail i ymgeisio o'r newydd, ond sydd ag angen sefydlogrwydd er mwyn gallu elwa ar gyngor i fewnfudwyr er mwyn canfod llwybr allan o amddifadedd.

Un o amcanion allweddol y gwaith oedd ystyried sut y gellir datblygu ymhellach a/neu efelychu modelau llety sy'n gweithredu yng Nghymru ac mewn lleoedd eraill.

Ffrwyth cyntaf y gwaith, a gynhyrchwyd ym mis Ebrill 2019, oedd drafft o ddogfen fframwaith a nodai saith math o lety a ddefnyddir mewn gwahanol fannau ledled y DU. Trafodwyd hyn gyda SeinFwrdd y project (gweler Atodiad 1 am aelodau'r SeinFwrdd).

Defnyddiwyd crynodeb o'r ddogfen fframwaith a amlinellai'r saith model i ymgynghori'n ehangach ag eraill yn sectorau cyhoeddus a gwirfoddol a gyda phobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru. Ceir rhestr lawn o gyfweliadau a digwyddiadau ymgynghori yn Atodiad 2.

Archwiliwyd deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol er mwyn asesu rhwystrau a chyfleoedd penodol i ddatblygu opsiynau llety yng Nghymru. Gwnaed hyn yng nghyd-destun y gwahaniaeth cynyddol mewn polisi ac arfer rhwng Cymru a Lloegr mewn meysydd datganoledig fel tai a gofal cymdeithasol.

## 1.2. Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cyd-destun polisi ar gyfer yr astudiaeth ddichonoldeb, casgliadau ac argymhellion ar gyfer archwilio modelau o lety y credwn y gellid eu datblygu ymhellach a/neu eu sefydlu yng Nghymru. Eglurir terminoleg yr adroddiad hwn yn Atodiad 4.

Nodir gwahaniaethau pwysig mewn polisi ac arfer rhwng y cenhedloedd datganoledig parthed tai a gofal cymdeithasol hefyd; cyflwynir y rhain yn Atodiad 3.

Mae gwybodaeth am fodelau llety a ddefnyddir mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig yn deillio'n sylweddol o waith sydd ar gael ar wefannau Homeless Link[3] a NACCOM.[4] NACCOM yw corff ymbarél y DU ar gyfer sefydliadau sy'n darparu llety i geiswyr lloches a wrthodwyd ac ymfudwyr amddifad eraill; mae'n arwain ar ddatblygu arfer gorau gyda lletya ymfudwyr amddifad ac yn ymgyrchu i roi diwedd ar amddifadedd ymhlith ceiswyr lloches. Mae Atodiad 5 yn amlinellu gwaith rhai o'r sefydliadau (y mae'r mwyafrif ohonynt yn aelodau o NACCOM) sydd wedi arloesi modelau llety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd ac ymfudwyr eraill â DHCCC a rhywfaint o wybodaeth am y math o lety a ddarperir ganddynt. Mae'r atodiad yn diweddaru'r wybodaeth a gasglwyd o adroddiadau perthnasol eraill.[5,6,7]

Rydym yn ddiolchgar i Gynghrair Ffoaduriaid Cymru am eu gwaith a gwmpasai achosion, effaith a llwybrau allan o amddifadedd (gweler Adran 3) ac a wnaeth rywfaint o fapio cychwynol o wasanaethau yn cynnwys rhai llety (gweler Adran 4).[8] Doedd Gwerthusiad Opsiynau'r Gynghrair

[3] https://www.homeless.org.uk/our-work/national-projects/strategic-alliance-on-migrant-destitution
[4] https://naccom.org.uk/resources/
[5] Petch H., Perry J., a Lukes S. (2015), How to Improve Support and Serices for Destitute Migrants SJR
[6] Hutton C. a Lukes S. (2015), Models of Accommodation and Support for Destitute Migrants: A resource for organisations and groups who want to get involved. Adroddiad ar ran Housing Justice, NACCOM a Praxis.
[7] Hutton C., Lukes S., a Petch H. (2019), Housing destitute migrants: Lessons from a pilot project Projectau Cymuned Commonweal Housing a Praxis.
[8] Y Groes Goch Brydeinig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, ShareDYDD ac Asylum Matters (2017), Paupur gwerthuso opsiynau ar ran Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, a ddilynwyd gan bapur cynigion a diweddariad.



DRAFT

ddim yn rhestru cwmnïau cyfreithiol na chyrff cynghori penodol a allai gynrychioli ceiswyr lloches y gwrthodir eu hachos ond, yn ôl Llywodraeth Cymru, nifer gyfyngedig iawn sydd. Yn 2020/21, bydd LlC yn comisiynu astudiaeth gwmpasu er mwyn deall y bylchau mewn cyngor cyfreithiol ar fewnfudo yn well a nodi lle y gall gefnogi gwell hygyrchedd a darpariaeth.

Mae adran crynodeb a chasgliadau'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhellion i gefnogi datblygu’r ddarpariaeth lety bresennol, yng Nghaerdydd ac Abertawe yn bennaf, a sefydlu modelau newydd yn y lleoliadau gwasgaru hyn a rhai eraill yn cynnwys Casnewydd a Wrecsam. Mae pwyslais yn yr argymhellion ar weithio mewn partneriaeth a blaenoriaethu gwaith a all ddarparu'r nifer fwyaf o leoedd gwely i geiswyr lloches a wrthodir yn fwyaf cyflym. Maent hefyd yn ymgorffori dull cyfannol, gan gynnwys mynediad hanfodol at eiriolaeth, chynrychiolaeth a chyngor ar fewnfudo.

DRAFT

## 2. Y CYD-DESTUN POLISI

### 2.1. Cyd-destun polisi Cymru: Cenedl Noddfa

Mae'r Cynllun Cenedl Noddfa,[9] a lansiwyd ym mis Ionawr 2019 yn sgil ymgynghori yn ystod 2018, yn amlinellu gweithredu traws-lywodraethol â'r nod o wella canlyniadau ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches trwy herio gwahaniaethu annheg, sicrhau cyfleoedd cyfartal (lle bo hynny'n bosibl o fewn deddfau mewnfudo'r DU), a hyrwyddo perthynas dda rhwng grwpiau. Mae'r Cynllun hefyd yn blaenoriaethu materion allweddol a danlinellwyd gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches wrth i'r Cynllun gael ei ddatblygu ac mewn ymateb i Ymchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2017, gyda'r nod o sicrhau:

- Y gall ffoaduriaid a cheiswyr lloches ddefnyddio gwasanaethau iechyd (yn cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl) trwy gydol y 'siwrnai loches';
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael y wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i ddechrau integreiddio i gymdeithas Cymru o'r diwrnod cyntaf;
- Na caiff ceiswyr lloches eu hatal rhag elwa ar gynlluniau priodol Llywodraeth Cymru a fyddai'n eu helpu i integreiddio;
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches newydd yn llai tebygol o wynebu amddifadedd;
- Bod pob ffoadur a cheisiydd lloches (yn enwedig plant digwmni sy'n ceisio lloches) yn cael eu diogelu'n briodol a'u bod yn gallu ceisio cefnogaeth eirioli;
- Bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysgol, yn cynnwys sgiliau iaith, i'w helpu i ailadeiladu eu bywydau a chyflawni eu potensial.

Mae'r gweithredoedd arfaethedig yn unol â ac yn mewn cyswllt clos â:

- Themâu a blaenoriaethau ***Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlathol***; [10]
- Amcanion ***Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015***;[11]
- ***Cynllun Cydraddoldeb ac Amcanion Strategol 2016-2020*** Llywodraeth Cymru [12]

'Pobl sy'n chwilio am noddfa' yw term y cynllun Cenedl Noddfa am geiswyr lloches a ffoaduriaid ill dau. Mae'r cynllun yn rhagbydio fod intergreiddio yn cychwyn o ddiwrnod cyntaf y daith loches yn y DU, ac ategir hynny gan y pum ffordd o weithio a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (tymor-hir, ataliaeth integreiddio, cydweithio a chyfranogiad). Mae'r Cynllun:

- Wedi cael ei ddatblygu **gyda chyfranogiad y bobl sy'n chwilio am noddfa**, a anogwyd i gyfranogi;
- Yn **hyrwyddo cefnogaeth gyfannol** sy'n cydnabod natur ddwy-ffordd integreiddio a'r asedion y daw pobl sy'n ceisio noddfa gyda nhw i Gymru;

[9] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cenedl-noddfa-cynllun-ffoaduriaid-a-cheiswyr-lloches_1.pdf
[10] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf
[11] https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol-yr-hanfodion

[12] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cynllun-cydraddoldeb-ac-amcanion-2016-2020.pdf

- Yn ceisio atal **y problemau mwyaf niweidiol** sy’n deillio o ffoi rhag erledigaeth a mynd trwy broses ceisio lloches llywodraeth y DU, yn cynnwys problemau iechyd meddwl, digartrefedd, ecsploetiaeth (yn cynnwys masnachu pobl) ac amddifadedd;
- Yn un **hir-dymor** yn ei weledigaeth o Gymru fel cenedl noddfa;
- Yn **canolbwyntio ar yr unigolyn**, gan gydnabod bod pobl yn dod o wahanol gefndiroedd a diwylliannau;
- Yn **gydweithredol**, gan ddenu sefydliadau eraill, cyhoeddus a phreifat, i gymryd rhan yn ei broses.

## 2.2. Polisi Llywodraeth y DU

Dywed Llywodraeth Cymru yn glir na all fynd yn groes i gyfraith y DU a bod yn rhaid iddi weithredu o fewn cyfyngiadau ei chymhwysedd, yn wyneb y setliad datganoli presennol. Mae mewnfudo yn faes polisi neilltuedig, a dros y tri degawd diwethaf, bu tuedd i gulhau cymhwysedd ar gyfer derbyn gwarchodaeth a dinasyddiaeth y DU, yn cynnwys:

- Nifer o newidiadau deddfwriaethol sydd wedi cynyddu'r risg o amddifadedd i lawer o geiswyr lloches;
- Newidiadau i’r hawl i fudd-daliadau a chaniatáu hawl i aros yn y DU ond ag amod DHCCC ynghlwm wrth hynny;
- Newidiadau i ddeddfwriaeth a pholisi sy’n hyrwyddo amgylchedd gelyniaethus, yn cynnwys cyfyngu ar allu i weithio, derbyn gofal iechyd a rhentu llety (er na weithredir yr olaf yng Nghymru ar hyn o bryd).

Er gwaethaf gostyngiad diweddar yn nifer y datganiadau polisi 'amgylchedd gelyniaethus' ar ôl anghydfod Windrush, gall y polisi mewnfudo a lloches a’r modd y caiff ei weithredu, yn ogystal â meysydd polisi eraill, achosi amddifadedd dros-dro neu dymor-hwy ac mae'n parhau i effeithio’n niweidiol ar rai sy’n ceisio lloches, gan gynnwys:

- Gwendidau mewn prosesau lloches – caiff cyfran sylweddol o ddyfarniadau negyddol eu gwrthdroi ar apêl;
- Cyfyngiadau ar gymorth cyfreithiol fel bod llai o gyngor mewnfudo o ansawdd da ar gael (D.S. er bod cymorth cyfreithiol yn cynnwys cyngor ar geisiadau lloches, mae terfyn ar y ffïoedd a delir);
- Mae amserau aros i dderbyn Credyd Cynhwysol yn gwaethygu anawsterau rhai newydd eu cydnabod fel ‘ffoaduriaid’ yn ystod y ‘cyfnod pontio’ 28-diwrnod.

**I grynhoi**: Yn y Cynllun Cenedl Noddfa, mae Llywodraeth Cymru wedi addo mesurau positif i gefnogi integreiddio pobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru ac i liniaru amddifadedd. Fodd bynnag, mae cyd-destun deddfwriaethol a pholisi y dyhead hwn yn gymhleth, gan gynnwys meysydd polisi datganoledig a rhai wedi eu neilltuo i Lywodraeth y DU lle mae dylanwad dros bolisi yn gyfyngedig iawn. Serch hynny mae'r Cynllun yn ddefnyddiol iawn o ran disgrifio’r meysydd lle bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â’r gwaith.

# 3. CWMPAS A GRADDFA

## 3.1. Cwmpas a therminoleg

Ffocws yr astudiaeth ddicholondeb hon yw lletya ceiswyr lloches a wrthodwyd sydd heb hawl cyrchu cronfeydd cyhoeddus (DHCCC). Ceir niferoedd sylweddol o grwpiau eraill o fewnfudwyr â DHCCC, yn enwedig o'r UE; nid yw'r astudiaeth hon yn ymdrin â'r problemau a wynebir gan y grwpiau hyn, na'u hanghenion am lety.

Ceir diffiniadau o 'ceisiydd lloches', 'ffoadur' a 'DHCCC' ym Mlychau 1 a 2 yn Adran 1.1. Mae Atodiad 4 yn amlinellu rhai termau allweddol eraill, a sut y defnyddiwyd nhw yn yr adroddiad.

Bydd y mwyafrif o deuluoedd ceiswyr lloches a gafodd eu gwrthod a oedd â phlant o dan 18 oed ar yr adeg y gwrthodwyd eu cais yn parhau i gael eu cefnogi'n ariannol a'u lletya mewn eiddo dan gontract i'r Swyddfa Gartref. Gall rhai pobl sengl y gwrthodwyd lloches iddynt fod yn gymwys i gael 'cefnogaeth Adran 4' (gweler Atodiad 4) os gallant ddangos y byddent yn amddifad fel arall. At ddibenion Adran 4, mae pobl yn 'amddifad' os nad oes ganddynt lety digonol neu ddigon o arian i dalu eu costau byw hanfodol eu hunain a rhai sy'n ddibynnol arnynt. Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos bod eu hamgylchiadau yn bodloni un o nifer o feini prawf, gan gynnwys bod rhwystrau penodol iddynt allu dychwelyd i'w mamwlad.

Arweiniodd y nifer gynyddol o bobl sy'n byw yn y DU heb fodd digonol i fyw heb gymorth elusennol at waith ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree (SJR) i ddiffinio 'amddifadedd' a cheisio cyfrif y niferoedd o bobl yn y DU sy'n amddifad ar unrhyw adeg. Mae Cynghrair Ffoaduriaid Cymru wedi defnyddio'r diffiniad hwn gan SJR yn ei waith i ddatblygu modelau o gefnogaeth. Mae diffiniad SJR yn cwmpasu pobl na all '*fforddio prynu'r hanfodion i allu bwyta, aros yn gynnes a sych, a chadw'n lân*'.[13]

## 3.2. Graddfa amddifadedd yng Nghymru

Nid oes data cadarn ar gael i bennu'n fanwl raddfa amddifadedd yng Nghymru. Mae'r mwyafrif a wrthodir yn debygol o fod ynghudd, yn aros gyda phobl mewn cymunedau ffoaduriaid, ffrindiau neu berthnasau o bosibl, ond efallai hefyd mewn amgylchiadau lle cânt eu hecsploetio.

Awgryma Cynghrair Ffoaduriaid Cymru y gall rhai cannoedd o geiswyr lloches gael eu hunain yn amddifad bob blwyddyn.

Mae'r Groes Goch Brydeinig wedi bod yn datblygu dulliau mwy cyson o gofnodi a dadansoddi data, er nad yw wedi creu darlun o'r sefyllfa yng Nghymru hyd yn hyn. Mae data gan Glinig Amddifadedd Caerdydd ers iddo gychyn system well o fonitro yn nodi cofnodion ar gyfer 69 o bobl a oedd yn ddigartref neu heb gartref sefydlog rhwng 24 Medi 2018 a'r 8 Ebrill 2019.

> *'Gwelwn y rhan fwyaf o'r rhain yn dychwelyd i sesiynau galw-heibio am wythnosau lawer, felly, ar gyfartaledd, bydd gennym 8 o bobl yr wythnos sy'n disgrifio'u hunain fel digartref neu heb gartref sefydlog – y nifer uchaf a gofnodwyd mewn wythnos neilltuol oedd 14.'*

O ddadansoddi amcangyfrifon o astudiaeth 2018 o amddifadedd ledled y DU a gomisiynwyd gan SJR, amcangyfrifir y bu 7,350 o geiswyr lloches yng Nghymru yn ceisio cyngor neu gymorth gan y

[13] Fitzpatrick, S. et al. (2018) Destitution in the UK 2018 SJR.



DRAFT

sector gwirfoddol dros flwyddyn yr astudiaeth ac, o'r rhain, roedd 5,300 yn amddifad.[14] Nid oes unrhyw ddata am ba hyd y bydd pobl yn parhau i fod yn amddifad, ond mae darparwyr llety yn nodi y gall rhai achosion gymryd blwyddyn, weithiau dwy ac, mewn nifer fach o achosion, hyd yn oed tair neu fwy i'w datrys.

### 3.3. Pryd mae pobl yn mynd yn amddifad?

Roedd gwaith gwerthuso opsiynau Cynghrair Ffoaduriaid Cymru ([8]) yn nodi'r gwahanol gamau yn y broses lle gallai pobl fynd yn amddifad:

- Cyn hawlio lloches;
- Yn ystod hawliad lloches (e.e. dibynnu ar gefnogaeth Adran 98/Adran 95);
- Pan wrthodir hawliadau lloches (e.e. dibynnu ar gefnogaeth elusennol, Adran 4 neu awdurdod lleol – a dyma lle mae'r astudiaeth ddichonoldeb hon yn canolbwyntio);
- Pan roddir statws ffoadur neu statws arall (e.e. symud i hawliau prif-ffrwd /rhwystrau oherwydd amodau DHCCC).


Gall bod yn ddiymgeledd yn ystod unrhyw un o'r uchod fod yn ddeifiol (e.e. oherwydd masnachu pobl, amgylchiadau domestig, iechyd meddwl neu iechyd corfforol).

Dadansoddodd y Gynghrair amddifadedd ceiswyr llocher a wrthodwyd ac eraill a oedd yn ceisio noddfa ar ffurf llwybr sy'n cwmpasu:

1. *Achosion amddifadedd*
2. *Effaith uniongyrchol amddifadedd*
3. *Llwybrau allan o amddifadedd*

Datblygodd y Gynghrair ddiagramau sy'n amlinellu pob cam ar hyd y ffordd er mwyn hwyluso datblygu modelau sy'n adeiladu ar sail y gefnogaeth bresennol a chreu'r ymateb mwyaf effeithlon.


***Ffig 1. Achosion amddifadedd** (o Werthusiad Opsiynau Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, 2017,[8] gwreiddiol yn Saesneg yn unig)*




DRAFT


[14] Cyfathrebu personol, Gorffenaf 2019, gyda'r Athro Glen Bramley, un o gyd-awduron astudiaeth 2018 SJR

*__Ffig 2. Effaith uniongyrchol amddifadedd__ (o Werthusiad Opsiynau Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, 2017,[8] gwreiddiol yn Saesneg yn unig)*




## 3.4. Llwybrau allan o amddifadedd

*__Ffig 3. Ffyrdd allan o amddifadedd__ (o Werthusiad Opsiynau Cynghrair Ffoaduriaid Cymru, 2017,[8] gwreiddiol yn Saesneg yn unig)*




Rhaid wrth becyn cyfannol o gefnogaeth i greu llwybr allan o amddifadedd i geiswyr lloches a wrthodir, ac archwilir yr hyn sydd ei angen yn ychwanegol at lety yn yr adroddiad hwn:

- Cyflenwi anghenion sylfaenol â nwyddau (bwyd, defnyddiau ymolchi, ac ati) a/neu arian;[15]
- Cymorth i deithio i ddadlau eu hachos, ond gweithgareddau ystyrlon hefyd sy'n creu amylcheddau gwestya a rhannu tai iachach;

[15] Noder y gall Cronfa Cymorth Dewisol Llywodraeth Cymru dalu am rai nwyddau hanfodol mewn argyfwng ond nid yw'n darparu arian.

- Cyngor, eiriolaeth a chynrychiolaeth (gweler astudiaeth Clayton am fodelau perthnasol).[16]

**I grynhoi**: Nid oes data cadarn ar gyfer nifer y ceiswyr lloches a wrthodir sy'n amddifad ac mae diffiniadau o amddifadedd yn amrywio. Bydd y mwyafrif o deuluoedd ceiswyr lloches a wrthodwyd yn dal i dderbyn cefnogaeth gan Lywodraeth y DU, ond darpariaeth gyfyngedig iawn sydd ar gyfer pobl sengl â DHCCC, sy'n methu gweithio a heb le diogel i fyw. Ar sail eu profiad o wasanaethau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid, cred Cynghrair Ffoaduriaid Cymru fod cannoedd o geiswyr lloches a wrthodir yn mynd yn amddifad yn flynyddol. Yng Nghaerdydd yn unig, dangosodd gwell monitro gan y Groes Goch Brydeinig o ddefnyddwyr y Clinig Amddifadedd y bu 69 o geiswyr lloches a wrthodwyd yn amddifad mewn cyfnod o (ychydig dros) chwe mis. Awgryma astudiaeth amddifadedd 2018 SJR bod dros 5,000 o geiswyr lloches yn amddifad yng Nghymru ar adeg eu hastudiaeth.

Mae Cynghrair Ffoaduriaid Cymru wedi nodi bod pobl yn mynd yn amddifad ar wahanol gamau o'r broses ceisio lloches ac, er mwyn canfod llwybr allan o amddifadedd, mae angen diwallu eu hanghenion sylfaenol, fel llety, ynghyd â sicrhau y gallant dderbyn cyngor ar fewnfudo. Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar anghenion ceiswyr lloches a wrthodwyd, y gallai rhai ohonynt fod wedi dihysbyddu eu hawliau apelio ond sydd â sail o bosib ar gyfer hawliad newydd, ac eraill a allai ddal i allu apelio yn erbyn dyfarniad negyddol.

[16] Clayton G. (2015) Models of immigration advice, advocacy and representation for destitute migrants focusing on refused asylum seekers NACCOM.

# 4. MODELAU O LETY AR GYFER CEISWYR LLOCHES A WRTHODWYD

## 4.1. Swyddogaeth llety mewn cefnogi llwybrau allan o amddifadedd

Mae llety yn chwarae rhan hanfodol trwy ddarparu cyfnod o sefydlogrwydd, diogelwch a sicrwydd pan all pobl sy'n ceisio noddfa symud tuag at lwybr allan o amddifadedd. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu'r gwahanol fodelau a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU. Mae Atodiad 5 yn amlinellu swyddogaeth a darpariaeth darparwyr llety penodol, yn cynnwys gwybodaeth am eu hymdrechion i ddarparu'r pecyn cyfan o gyngor a chefnogaeth sydd ei angen.

Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ddiogelu ac am wybodaeth a chyngor ar fewnfudo.

## 4.2. Y sefyllfa gyfreithiol

Amlinellodd barn Cwnsler yn 2015[17] sefyllfa gyfreithiol y DU a daeth i'r casgliad nad oes nemor ddim rhwystrau cyfreithiol i gefnogi unrhyw un o'r mathau o gynlluniau ar gyfer ymfudwyr â DHCCC a amlinellir yn yr adran hon. Mae'r pwyntiau cyfreithiol canlynol o'r farn honno yn parhau'n ddilys:

- Mae helpu mewnfudwyr â DHCCC, gan gynnwys gyda'u hanghenion llety, yn gyfreithlon oni chaiff y ddarpariaeth ei heithrio'n benodol yn y Rheolau Mewnfudo sy'n egluro'n fanwl ystyr DHCCC;
- Mae'r rheolau yn eithrio mynediad i ddarpariaeth tai trwy Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (a darpariaethau cyfatebol yn Lloegr a'r cenhedloedd datganoledig eraill). Ni chaiff pobl â DHCCC eu lletya mewn tai cyngor na chael eu rhoi ar gofrestr neu restr aros am dai cyngor. Fodd bynnag, nid yw darparu gwybodaeth a chyfeirio gan wasanaethau opsiynau tai a gwasanaethau cynghori ar ddigartrefedd yn gronfa gyhoeddus;
- **Nid yw** eiddo cymdeithasau tai na chaiff ei ddyrannu trwy gofrestr tai a redir gan y cyngor wedi'i eithrio;
- Y prif beth yw sicrhau nad chaiff cynlluniau eu maglu gan broblemau sy'n codi o wiriadau landlordiaid a fynnir gan Ddeddf Mewnfudo 2014 (ni ddaw'r Hawl i Rentu i rym yng Nghymru yn y dyfodol rhagweladwy).

Rydym wedi ymchwilio i'r gwahaniaethau deddfwriaethol a pholisi rhwng Cymru a Lloegr ar gyfer yr astudiaeth hon (gweler Atodiad 3) a chyfeirir at y rhain wrth i ni archwilio cyfleoedd datblygu yng Nghymru yn ein hargymhellion.

Mae'r wefan Hawliau Tai sy'n cael ei chynnal a'i diweddaru gan y Sefydliad Tai Siartredig (corff tai proffesiynol y DU) yn darparu gwybodaeth am hawliau tai a mewnfudo y gall cynghorwyr tai ac ymfudwyr eu hunain fanteisio arni.[18]

Mewn ymateb i'r amgylchiadau eithriadol a grëwyd gan y pandemig Coronafeirws, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau llety i'r rheini sy'n cysgu allan a

[17] Legal Opinion from Adrian Berry, Garden Chambers ar gyfer Cymdeithas y Sefydliadau Elusennol a Sefydliad Joseph Rowntree Foundation, 2015

[18] https://www.housing-rights.info/index.php

phobl sy'n byw mewn llety dros-dro annigonol, a gellir defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi pobl sydd â DHCCC.

### 4.3. Y modelau: trosolwg a phroblemau

Yn ôl NACCOM,[4] datblygu ar garlam a wnaeth amryw fathau o lety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd ledled y DU yn y degawd diwethaf. Seilir y saith model yr ymchwiliwyd iddynt ar gyfer y fframwaith a ddatblygwyd fel rhan o'r astudiaeth yn bennaf ar weithgareddau sefydliadau sy'n lletya ceiswyr lloches a wrthodwyd mewn ardaloedd gwasgaru yn Lloegr, yn ogystal â rhai sy'n gweithio gyda grŵp ehangach o fewnfudwyr â DHCCC, yn cynnwys ceiswyr lloches, yn Llundain yn enwedig.

Pa fath bynnag o lety a ddarperir, mae angen pecyn cymorth sy'n cynnwys eiriolaeth i helpu ceiswyr lloches a wrthodwyd i fynd i'r afael â'u hachos mewnfudo, yn ogystal â chefnogaeth ymarferol ac emosiynol arall, oll ar sail diogelu cadarn. Mae'r pecyn cyfannol hwn fel arfer yn dibynnu ar bartneriaethau effeithiol ac mae'n debyg y bydd pethau'n fwy anodd pan ddarperir llety trwy ddulliau anffurfiol. Mae hefyd yn amhosibl rhagweld am ba hyd y bydd angen cymorth o'r fath gan y dibynna ar ba mor hir y cymer i ddatrys achosion lloches a mewnfudo. Gall rhai mathau o achosion, e.e. lle mae angen prawf o genedligrwydd, gymryd amser hir. Gallai cyngor da a phrosesau ymgeisio Adran 4 effeithlon gyflymu rhai achosion fel y cafodd Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn ddiweddar. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adran flaenorol yr adroddiad, nid oes unrhyw ddata cadarn parthed am ba hyd y bydd ceiswyr lloches a wrthodir yn amddifad.

Ceir trosolwg o'r saith model o lety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd isod, ynghyd â'r phroblemau sy'n codi gyda phob model. Darperir canllawiau defnyddiol ynghylch llety a gwasanaethau cymorth ar gyfer mewnfudwyr amddifad (gan gynnwys ceiswyr lloches a wrthodwyd) yn adran y Gynghrair Strategol ar Amddifadedd Mewnfudwyr ar wefan Homeless Link[3] a hefyd ar wefan NACCOM.[4] Cyd-gyhoeddodd y sefydliadau hyn becyn cymorth gwestya yn 2017[19] ac, ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd NACCOM becyn tai.[20] Cyhoeddwyd astudiaeth o fodelau cyngor mewnfudo ochr yn ochr â'r adroddiadau cynharach ar dai.[16]

### 4.4. Trefniadau anffurfiol: trosolwg

Ymddengys bod y rhan fwyaf o geiswyr lloches a wrthodwyd yn aros gyda ffrindiau, perthnasau, aelodau o'r gymuned neu gysylltiadau eraill.

**Trefniadau anffurfiol: problemau**

- Gall y trefniadau hyn fod yn ddewis da i rai pobl, ond gall roi pobl mewn perygl o gael eu hecsploetio, naill ai ar sail unigol neu sail fwy trefniedig yn cynnwys ecsploetiaeth y gellid ei ddiffinio fel masnachu pobl.
- Gall parodrwydd cysylltiadau i helpu ddod i ben cyn i faterion mewnfudo gael eu datrys, a gall llawer o aelodau'r gymuned ceiswyr lloches a ffoaduriaid eu hunain fod yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd.

DRAFT

[19] https://naccom.org.uk/hostingtoolkit/
[20] https://naccom.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/NACCOM-HousingToolkit_FINAL.pdf

## 4.5. Gwestya: trosolwg

Mae gwestywyr gwirfoddol yn darparu llety i westeion sy'n geiswyr lloches a wrthodwyd. Fel arfer mae sefydliad cymorth yn darparu gwasanaethau paru a hyfforddi, yn sicrhau polisi ac arfer diogelu effeithiol ac yn trefnu cefnogaeth a chysylltiadau â chyngor ar fewnfudo.

**Gwestya: problemau**

- Nid yw gwestya yn addas ar gyfer lleoliadau tymor-hir, er y gall y ddwy ochr gytuno ar hynny wedi i westywyr a gwesteion ddod i adnabod ei gilydd.
- Nid yw rhai pobl am fod yn westai yng nghartref rhywun ac, mewn achosion eraill, mae anghenion a hanes ceiswyr lloches unigol yn gwneud lleoliad gwestya yn ormod o risg.
- Mae angen hyrwyddo parhaus i gynnal cronfa ddigonol o westywyr.
- Mae angen systemau effeithiol ar gyfer diogelu gwestywyr, eu teuluoedd (gan gynnwys plant o bosibl) a gwesteion, yn cynnwys asesiadau risg fel rhan o atgyfeirio gwesteion a recriwtio gwestywyr, a'u hadolygu'n rheolaidd (gweler Adran 4.12 am fwy o fanylion ar ddiogelu).
- Mae rheoli anghenion a disgwyliadau gwestywyr a gwesteion ill dau yn hanfodol, er enghraifft, o ran 'rheolau' tŷ ar gyfer gwesteion ac ymwelwyr, defnyddio'r tŷ cyfan, ac ati.
- Cychwynodd llawer o gynlluniau gwestya yn gwbl wirfoddol, ond daw pecyn cymorth gwestya NACCOM i'r casgliad bod ar y cynlluniau mwyaf effeithiol angen staff cyflogedig i recriwtio gwestywyr, paru gwesteion a gwestywyr a'u cefnogi, sicrhau mesurau diogelelwch effeithiol a chysylltu gwesteion â gwasanaethau eraill, gan gynnwys cyngor ar fewnfudo.

## 4.6. Tai a rennir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd: trosolwg

Caiff ceiswyr lloches a wrthodwyd eu lletya mewn tai a rennir, gyda chefnogaeth amlapiol a chysylltiadau â chyngor ar fewnfudo. Ceir tai gan gymdeithasau tai (CTau), eglwysi, grwpiau ffydd ac unigolion dyngarol, yn aml am rent pitw. Ar adeg ymchwilio'r adroddiad hwn, roedd Home4U yng Nghaerdydd yn darparu gwelyau a chefnogaeth i bedwar o geisiwyr lloches gwrywaidd a wrthodwyd mewn tŷ sy'n eiddo i'r Esgobaeth Babyddol. Cyn y cwblhawyd yr adroddiad, bu'n rhaid rhoi dychwelyd eiddo'r Esgobaeth, ond cyfrannodd CT Wales and West ddau eiddo 2-lofft am gyfnod di-rent er mwyn galluogi'r ddarpariaeth hon i barhau (gweler Adran 5). Mae gan Hope Projects yn Birmingham 10 tŷ, saith ohonynt wedi eu cyfrannu gan bedair CT o fathau gwahanol iawn (Midland Heart, CT Friendship, Ymddiriedolaeth Tai Pentref Bournville a Clarion). Mae gan Broject DASS yn yr Alban bedwar eiddo 2-lofft ond rhaid iddo godi arian i dalu rhent ar rai o'r rhain.

**Tai a rennir: problemau**

- Sut y caiff eiddo ei sicrhau/ei gaffael
- Sut y gwneir y dyrannu, gan ba sefydliad
- Y gymysgedd o bobl mewn tŷ unigol
- Sut y darperir cefnogaeth/rheolaeth ar gyfer trefniadau rhannu, a phwy sy'n gwneud hynny
- P'run ai y gellir sicrhau eithriad rhag cyfyngiadau Budd-dal Tai cyfradd Lwfans Tai Lleol trwy un o'r pedair darpariaeth benodol (gweler Atodiad 3 ar 'llety eithriedig/penodedig')
- Yr angen am gynnal a chadw eiddo yn effeithiol a rheoli'r 'denantiaeth', a phwy sy'n gwneud hynny



DRAFT

- Safon/cyflwr eiddo – er enghraifft, gall hen ficerdy neu fans fod yn ddrud i'w gynhesu – ond hefyd a ddylai 'Safon Ansawdd Tai Cymru' (SATC) fod mewn grym, a allai wneud costau hyn a'r model a amlinellir isod yn Adran 4.7 yn afresymol o ddrud.[21]
- A oes angen cofrestru eiddo fel Tŷ mewn Aml-feddiannaeth (gweler Atodiad 4)
- Am ba hyd y mae eiddo ar gael, a beth yw'r cyfnod o rybudd ar gyfer perchennog sydd am ei adhawlio (problem neilltuol gyda thai sy'n cael eu cyfrannu, ac sy'n gallu gwneud cynllunio a chynaliadwyedd yn anodd
- Yr angen am gytundebau clir, ffurfiol o bosib, rhwng pob sefydliad cyfranogol.

Ceir cyfeiriadau defnyddiol ar y materion hyn yn adroddiad ***The Models of Accommodation*** gan Hutton a Lukes, 2015[6] ac adroddiad SJR gan Petch, Perry a Lukes a gyhoeddwyd yn 2015.[5]

Partneriaeth gyda darparwr tai sefydledig yw un ffordd o ddelio â rhai o'r materion uchod: er enghraifft, mae gan Ymddiriedolaeth Boaz bartneriaeth gyda Chymdeithas Tai Arawak Walton i ddarparu rheolaeth tai, yn cynnwys casglu rhenti, atgyweirio a chynnal a chadw, gwiriadau diogelwch nwy a thrydan, ac ati.

## 4.7. Tai a rennir rhwng ceiswyr lloches a wrthodwyd a phreswylwyr sy'n talu: trosolwg

Mae'r model hwn yn cynnwys preswylwyr eraill sy'n gallu talu rhent ochr yn ochr â cheiswyr lloches a wrthodwyd. Caiff tai eu caffael fel yr uchod, ond ceir defnydd cynyddol o'r sector preifat hefyd trwy wahanol drefniadau prydlesu, a phrynu eiddo hefyd, weithiau gyda buddsoddiad cymdeithasol, yn cynnwys prynu gan gymdeithasau tai trwy eu cynlluniau gwaredu asedau. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n gweithredu'r model hwn yn aelodau o NACCOM.[4] Ymhlith yr enghreifftiau mae Action Foundation, [22] Boaz Trust[23] a Praxis.[24] Ceir modelau ariannol Praxis a Action Foundation mewn gwerthusiad diweddar.[7] Mae model busnes Action Foundation yn cynnwys rhywfaint o gyllid Cefnogi Pobl ac eithriadau rhag terfynau Lwfans Tai Lleol sy'n golygu y gellir codi rhenti uwch sy'n gymwys i dderbyn Budd-dal Tai. Mae incwm Praxis yn deillio o arian a delir gan awdurdodau lleol am letya a chefnogi teuluoedd o fewnfudwyr amddifad sy'n byw ochr yn ochr â thrigolion benywaidd sengl â DHCCC. Gellir disgrifio rhai modelau sy'n golygu prydlesu a/neu fynediad i'r sector preifat fel gosod eiddo cymdeithasol.

Cyfeiriwyd at y model o ddarparu tai a rennir ar gyfer rhentwyr ac ymfudwyr â DHCCC fel model 'traws-gyllido'. Fodd bynnag, dadleuodd y gwerthusiad diweddar o beilot Commonweal Praxis fod traws-gyllido yn ddisgrifiad rhy gul o'r model ac y gallai greu anawsterau i, a/neu gyda, y comisiynwyr gwasanaethau. Awgrymir bod math o fenter gymdeithasol yn ddisgrifiad gwell, gyda model busnes a ddyluniwyd i sicrhau nifer o wahanol ganlyniadau ac, o bosibl, ar gyfer gwahanol grwpiau o bobl.

**Tai a rennir gan geiswyr lloches a wrthodwyd a phreswylwyr sy'n talu: problemau**

Fel uchod (yn 4.6) ac, yn ychwanegol, ac yn bennaf oherwydd y gymysgedd o bobl DHCCC nad ydynt yn talu a phreswylwyr sy'n talu:

[21] D.S. Ni fyddai SATC yn berthnasol i eiddo fel mans neu ficerdy.

[22] https://naccom.org.uk/members/action-foundation-3 /
[23] https://naccom.org.uk/members/boaz-trust/
[24] https://naccom.org.uk/members/praxis-community-projects/

- P'run ai bod preswylwyr nad ydynt yn talu a thalwyr rhent yn rhannu'r un tŷ, neu'n cael eu gosod mewn gwahanol dai (amlinellir gwahanol arferion yn Atodiad 5) a phroblemau a allai godi os ydynt yn rhannu.
- Lefelau rhent a model busnes sy'n gynaliadwy wrth fodloni rhwymedigaethau tenantiaeth i'r rhai sy'n talu rhent ac ateb anghenion ceiswyr lloches a wrthodwyd.
- P'run ai a fyddai'r pecyn tai a chymorth a ddarperir yn gymwys fel llety 'eithriedig' a/neu 'benodol' ac felly'n cael ei eithrio o gyfyngiadau ar Fudd-dal Tai.
- Os codir tâl uchel oherwydd cefnogaeth a gynhwysir yn y ddarpariaeth, sicrhau nad yw preswylwyr dan anfantais wrth ymgymryd â swydd a/neu hyfforddiant, ac a allai cyllid Cefnogi Pobl gefnogi'r gwasanaeth (er y dylid nodi nad yw Cefnogi Pobl ar gael yn eang bellach yn Lloegr).

## 4.8. Llochesau nos a hosteli: trosolwg

Ceir ychydig o lochesi'n benodol ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodir ac eraill â DHCCC, fel Glasgow Nightshelter a lloches Boaz ym Manceinion (sy'n rhoi mynediad i ddarpariaeth arall gan Boaz). Mae llochesau ar gyfer pobl ddigartref am ddim fel arfer ac, yn Lloegr, yn agored i bawb gan mwyaf. Ganed mwy na 60% o ddefnyddwyr llochesau nos Llundain y tu allan i'r DU, ac yn y chwe blynedd diwethaf roedd cyfran y defnyddwyr o'r tu allan i'r AEE yn 18% o leiaf ac, yn 2019, yn 27%.[25]

Yn gynyddol, mae sefydliadau digartrefedd wedi dod o hyd i ffyrdd o ddarparu gwelyau am ddim mewn hosteli ar gyfer mudwyr â DHCCC, yn enwedig yn Llundain. Mae St Mungo wedi bod yn rhagweithiol o ran defnyddio gofodau cymharol di-ddefnydd fel lleoedd gwely am ddim, e.e. stafelloedd llai o faint a ddefnyddir i storio neu ofodau cymunedol nas defnyddir. Mae St Mungo yn gweithio ar y cyd â darparwyr cyngor mewnfudo fel Praxis i sicrhau bod cyngor ar gael.

**Llochesau nos a hosteli: problemau**

- Dywed llawer o geiswyr lloches a wrthodwyd a'u gweithwyr cefnogi bod llochesau a hosteli yn amgylcheddau estron i'w diwylliant, â mwyafrif helaeth o ddynion yn aml, lle gall problemau alcohol a chyffuriau fod yn her neilltuol. Gall darpariaeth 'sych' lle gwaherddir alcohol a chyffuriau, neu ddarpariaeth arbenigol ar gyfer ceiswyr lloches amddifad fod yn llai estron.
- Mae natur tymor-byr llochesau nos (a llawer o hosteli), eu hansadrwydd (yn aml rhaid i bobl symud i le newydd bob nos), gofodau a rennir a diffyg amgylcheddau sy'n gyfarwydd â thrin trawma yn golygu nad yw llawer o'r ddarpariaeth hon yn addas ar gyfer pobl ag angen sadrwydd er mwyn derbyn cyngor ar fewnfudo ac a allai fod wedi dioddef trawma sylweddol yn eu bywydau.

## 4.9. Talu rhent i fewnfudwr allu byw mewn tŷ, hostel neu B&B: trosolwg

Ymateb mewn argyfwng yw hwn, a ddefnyddir gan rai elusennau a sefydliadau, e.e., Sefydliad Zakat. Gwna'r Groes Goch Brydeinig hyn yn Wrecsam o bryd i'w gilydd am nad oes unrhyw lety arall ar gael.

Efallai y bydd cyrff cyhoeddus hefyd yn talu am lety i gyflawni eu dyletswydd i gefnogi plant mewn angen neu oedolion diymgeledd o dan ddeddfwriaeth berthnasol, h.y., Deddf

[25] Gwybodaeth gan Housing Justice, 12 Mehefin 2019. HJ sy'n cydlynu darpariaeth lochesi Llundain

Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru;  yn y mwyafrif o achosion yn ymwneud â cheiswyr lloches, byddai asesiad Deddf Hawliau Dynol yn ofynnol hefyd.

**Talu rhent i ymfudwr allu byw mewn tŷ, hostel neu B&B: problemau**

- Yn fwyaf priodol fel ateb tymor-byr mewn argyfwng oherwydd yn gostus os yw'n drefniant penagored.
- Mae gwiriadau landlord yn golygu bod angen defnyddio'r dull hwn â gofal (ni cheir gwiriadau Hawl i Rhent yng Nghymru).

## 4.10. Modelau eraill

**Cynwysyddion cludo: trosolwg**

Mae cynwysyddion cludo yn dechrau cael eu defnyddio i letya preswylwyr sy’n talu ac ymfudwyr â DHCCC mewn datblygiad newydd gan Fyddin yr Iachawdwriaeth yn Llundain. Nid ymchwiliwyd i'r math hwn o lety ar gyfer y project hwn ond roeddem o'r farn ei fod yn werth ei grybwyll.

**Cymunedau: trosolwg**

Ceir nifer fechan o enghreifftiau o gymunedau a sefydlwyd yn benodol i ddarparu ar gyfer ymfudwyr amddifad ynghyd â grwpiau eraill. Un enghraifft yw London Catholic Worker sy’n berchen ar eiddo mawr a rennir gan wirfoddolwyr ac ymfudwyr amddifad. Mae’r cynlluniau hyn wedi eu gwreidddio mewn athroniaeth o rannu a chyd-gefnogi. Hyd yn hyn, ni nodwyd unrhyw gymunedau ceiswyr lloches/ffoaduriaid sy'n ymwneud â dulliau amgen o fyw, ond mae grŵp yn Coventry – Coventry Asylum and Refugee Action – wrthi’n archwilio ffyrdd o gyfranogi mewn cynlluniau tai a chyfrannu atynt, yn cynnwys rhai ar gyfer ymfudwyr amddifad â DHCCC

## 4.11. Ynglŷn â’r darparwyr

Mae'r grwpiau sydd wedi bod ar flaen y gad ym maes lletya mewnfudwyr amddifad gan mwyaf, er nad yn ddieithriad, yn seiliedig ar ffydd. Ffurfiwyd llawer, yn cynnwys y rhai a sefydlodd rwydwaith NACCOM ledled y DU, yn benodol i letya a chefnogi ceiswyr lloches a wrthodwyd yn y 2000au cynnar pan oedd y niferoedd mewn angen yn cynyddu. Cychwynnodd y mwyafrif fel grwpiau bach, anffurfiol ac yn aml gwestya oedd eu cam cyntaf o ran cynnig llety.

**Aelodau NACCOM**

Datblygodd sawl aelod o NACCOM yn elusennau maint-canolig dros y 5-10 mlynedd diwethaf, yn bennaf rhai sy'n darparu tai a rennir ac yn lletya rhai preswylwyr sy'n talu rhent. Amlinellir y gwasanaethau llety a rhai cysylltiedig a ddarperir gan y sefydliadau hyn yn Atodiad 5. Mae rhai yn gweithredu amrywiaeth o wasanaethau llety: er enghraifft, mae gan Boaz ac Action Foundation gynlluniau gwestya, yn ogystal â thai a rennir ar gyfer ffoaduriaid sy'n talu a cheiswyr lloches â DHCCC. Mae Boaz hefyd yn rhedeg lloches nos ac mae Action Foundation yn sefydlu peilot ‘dewisiadau amgen i garcharu’ a fyddai’n denu incwm. Mae Praxis yn derbyn tâl gan awdurdodau lleol am ei wasanaeth i deuluoedd ymfudwyr amddifad. Crewyd modelau busnes sy'n cynnwys cyfran o leoedd gwely am ddim, gyda chymarebau o rhwng un lle am ddim i dri lle am dâl ac un i bump. Mae Open Door yn Teesside wedi datblygu model gosod eiddo cymdeithasol ac nid yn unig wedi caffael llety trwy'r sector preifat, ond hefyd wedi prynu ychydig o eiddo, yn cynnwys gan gymdeithas dai. Mae Action Foundation hefyd wedi prynu o leiaf un eiddo gan ddefnyddio buddsoddiad cymdeithasol ac mae'n ceisio sicrhau cyflenwad mwy cyson o dai ac i ddatblygu ei sylfaen asedau ei hun.

Mae project DASS yn yr Alban yn wahanol. Fe’i sefydlwyd i roi terfyn ar amddifadedd trwy gydlynu cyngor mewnfudo, eiriolaeth a chynrychiolaeth yn Glasgow, yn ogystal â darparu gwasanaethau i ateb anghenion sylfaenol, yn cynnwys llety, a fyddai’n caniatáu i bobl fynd i’r afael â’u hachos mewnfudo.

**Sefydliadau tai a digartrefedd**

Mae rhai sefydliadau digartrefedd wedi dechrau cyfranogi mewn darparu llety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd; gweler, er enghraifft, yr amlinelliad o St Mungo yn Atodiad 5.

Mae cymdeithasau tai yn cyfranogi fel partneriaid i aelodau NACCOM: mae Arawak Walton yn darparu gwasanaethau rheoli tai ar gyfer Ymddiriedolaeth Boaz (gweler uchod), ac mae llawer yn cyfrannu eiddo ar rent pitw neu’n prydlesu eiddo ar rent fforddiadwy. Cafodd Hope Projects, sydd ond yn lletya ceisiwyr lloches a wrthodwyd, saith o’i ddeg eiddo gan bedair cymdeithas tai wahanol. Mae Arimathea, Boaz ac Open Door oll wedi sicrhau sawl eiddo gan gymdeithasau tai lleol ac yn eu defnyddio ar gyfer cymysgedd o ffoaduriaid sy’n talu rhent a cheiswyr lloches a wrthodwyd â DHCCC.

Peth prin yw hi i gymdeithasau tai i fod yn arwain yn y gwaith hwn er bod yr Addewid i Fewnfudwyr, a ddatblygwyd gan Rwydwaith Tai Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) Llundain, wedi cael rhywfaint o effaith o ran cynyddu ymwybyddiaeth a gweithredu gan gymdeithasau tai BME a chymunedol eu sail.

Mae Metropolitan Thames Valley Housing (MTVH) yn defnyddio cyllid cyfyngedig o’i elusen, Migration Foundation i arloesi gyda darparu ar gyfer mewnfudwyr amddifad. Mae MTVH:

- Wedi cyllido rhai o’r darparwyr a grybwyllir yn yr adran hon o’r adroddiad, yn ogystal â rhwydwaith NACCOM;
- Yn rhedeg hostel ar gyfer mewnfudwyr amddifad yn Derby;
- Yn datblygu darpariaeth ar gyfer teuluoedd ymfudwyr amddifad y telir amdani gan yr awdurdod lleol o dan Adran 17 o Ddeddf y Plant sy’n defnyddio’r hyn a ddysgwyd gan beilot Praxis yn Llundain (gweler ‘Tai a Rennir’ uchod ac Atodiad 5 am wybodaeth ynglŷn â Praxis ac Atodiad 3 ac Atodiad 4 am ddarpariaeth gyfatebol yng Nghymru).

## 4.12. Diogelu

Mae diogelu ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn rhan allweddol o’r Cynllun Cenedl Noddfa. O ystyried eu statws DHCCC, mae ceiswyr lloches a wrthodwyd mewn perygl arbennig o gael eu hecsbloetio a'u niweidio. Mae lletya ceiswyr lloches a wrthodwyd yn gofyn am reolaeth risg i sicrhau diogelwch gwesteion a gwestywyr, yn ogystal â thrigolion, staff a gwirfoddolwyr mewn mathau eraill o gynlluniau llety.

Mae projectau sy'n lletya ceiswyr lloches a wrthodwyd yn aml wedi cychwyn fel grwpiau bach, anffurfiol sy'n gweithredu â lefel uchel o ymddiriedaeth. Wrth i'r grwpiau a'r sefydliadau hyn dyfu a datblygu, tyfodd eu hymwybyddiaeth o'r risg a chamau a gymerwyd, a datblygwyd polisïau a gweithdrefnau cadarn. Mae modelau o arfer gorau y gellir eu dilyn yn y maes tai â chymorth, ond ceir llai o arbenigedd sy'n berthnasol i westya. Defnyddiodd rhai sefydliadau eu profiad o drefniadau lletya â chymorth a chynlluniau gwestya brys ar gyfer pobl ifanc; mae Ymddiriedolaeth De Paul yn rhedeg cynlluniau gwestya ar gyfer pobl ifanc, er enghraifft.

Yn 2017, cafwyd sesiwn ar ddiogelu yng nghynhadledd NACCOM[26] yn elwa ar arbenigedd aelod o NACCOM, Leeds Asylum Seeker Support Network (LASSN), sy'n rhedeg amrywiaeth o wasanaethau, yn cynnwys project gwestya.[27] Mae dull LASSN o fynd ati yn cynnwys:

- Ymrwymiad ar y cyd i hyrwyddo lles a diogelwch pawb sy'n ymwneud â gwasanaethau;
- Cydnabod y posibilrwydd o gam-drin ac eglurdeb ynghylch adrodd yn ôl a gweithredu;
- Datblygu polisi a gweithdrefnau yn unol ag arfer gorau Byrddau Diogelu lleol ac ymaddasu yn y modd priodol;[28]
- Asesiad risg recriwtio (gwestywyr, gwirfoddolwyr a staff) ac atgyfeirio gwesteion a thrigolion;
- Bod yn agored â diwylliant tryloyw lle caiff pobl eu hannog i siarad am bryderon a phroblemau;
- Adolygiad rheolaidd (bob dwy flynedd) o bolisïau ac arfer, gan gynnwys asesu risg, fel rhan o werthuso projectau, goruchwylio a monitro patrymau wrth godi pryderon;
- Gwiriadau DBS (Datgelu a Gwahardd) fel sy'n briodol, ond ni ddylai gwirio fod yr unig fesur. Sylwer na chaiff ceiswyr lloches eu diffinio fel grŵp bregus yn y ddeddfwriaeth gwiriadau DBS. Os nad yw projectau'n lletya plant, efallai na fydd yn gyfreithlon gwneud gwiriad llawn ('dwys') ar westywr oherwydd nad ydynt yn bodloni meini prawf y 'gofal' y mae'n rhaid ei gynnig i wneud gwiriad llawn ('dwys') yn ofynnol. Gall rhai sefydliadau ddewis gwiriadau sylfaenol (ond yn datgelu troseddau sy'n dal ar y cofnod troseddol);
- Os oes plant yn nheulu'r gwestywr, rhaid wrth reolaeth benodol sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Efallai na fydd gwiriadau DBS yn ddadlennol yn achos pobl na fu yn y DU cyhyd â hynny. Adroddwyd bod rhai projectau'n defnyddio cynlluniau gwirio cyfrinachol yr heddlu fel rhan o'u hasesiad risg o westeion, ond nid oes gennym unrhyw fanylion am bwrpas a fframwaith y rhain. [29]

### 4.13. Cyngor ar fewnfudo, eiriolaeth a chynrychiolaeth

Mae NACCOM yn annog aelodau i ddatblygu arbenigedd neu bartneriaethau i ddatrys achosion mewnfudo fel y gellir helpu cymaint o bobl â phosib i ddod o hyd i lwybr allan o amddifadedd na all llety ar ei ben ei hun ei gyflawni. Nododd gwaith a gomisiynwyd yn 2015[16] i gefnogi'r nod hwn yr angen am wahanol fathau o fewnbwn, nid dim ond cyngor a chynrychiolaeth dda, ond hefyd eiriolaeth i gynorthwyo pobl i fynd i'r afael â'u hachos a'i baratoi. Hyd yn oed os yw'r achos yn gymwys i dderbyn cymorth cyfreithiol, swm cyfyngedig yw hwn nad yw'n caniatáu i gyfreithwyr helpu pobl i gydgrynhoi eu tystiolaeth ac nid pob cyfreithiwr sy'n hysbysu pobl o hyn.

Mae Hope Projects yn Birmingham yn cyflogi cynghorydd/cynrychiolydd cyfreithiol Lefel 3 a arferai weithio gyda phrif ddarparwr cyngor mewnfudo preifat y ddinas. At hynny, mae Hope yn disgrifio'i hun fel project seiliedig ar hawliau yn hytrach na darparwr tai. O'r herwydd, nid yw Hope wedi datblygu tai i'w rhentu, ond mae'n parhau i ddibynnu ar dai a a gyfrennir gan bedair cymdeithas tai am rent pitw.

Ar y llaw arall, arferai Ymddiriedolaeth Boaz gyflogi cyfreithiwr, ond penderfynodd symud i bartneriaeth gydag Uned Cyngor Mewnfudo Manceinion Fwyaf, sydd yn ganolfan ragoriaeth.

[26] https://www.dropbox.com/s/awftcqu01d7ux4f/Safeguarding%20NACCOM%202017.pdf?dl=0
[27] https://lassn.org.uk/safeguarding/
[28] https://law.gov.wales/publicservices/social-care/Local-authority-responsibilities/Safeguarding/safeguarding-boards/?lang=en#/publicservices/social-care/Local-authority-responsibilities/Safeguarding/safeguarding-boards/?tab=overview&lang=en
[29] https://www.gov.uk/find-out-dbs-check

Gweithreda DASS yn Glasgow ac, fel Hope, mae'n canolbwyntio ar ddatrys achosion gyda llety yn un o'r elfennau hanfodol er cyflawni hyn. Mae'n cydlynu system flaenoriaethu a weithredir gan Gyngor Ffoaduriaid yr Alban gydag arbenigedd Lefel 1 a rhywfaint ar Lefel 2, ac yn atgyfeirio i Glinig Cyfraith Strathclyde sydd, yn ogystal â darparu cefnogaeth gyfreithiol fwy manwl, yn cynnig dau fyfyriwr y gyfraith yr achos i ddarparu cefnogaeth eirioli. Mae rota o gyfreithwyr yn ymdrin ag achosion anos a thymor-hwy. Ceir llety ochr yn ochr â'r model hwn gyda 22 o leoedd mewn lloches nos ar gael i ddynion a 10 lle mewn tai a rennir. Mae DASS yn dymuno cynyddu ei leoedd gwely mewn tai a rennir i 20, er mwyn darparu llety i fenywod a phobl y mae eu hachosion yn debygol o gymryd mwy o amser i'w datrys.

**I grynhoi:** Mae llety yn elfen hanfodol mewn lliniaru amddifadedd; mae ei ddarparu yn her pan na all y rhai mewn angen dalu rhent oherwydd eu statws DHCCC. Mae gwahanol fodelau wedi datblygu ledled y DU:

- Rhai lle na chodir rhent/tâl, megis gwestya a gefnogir gan staff, yn ogystal â gwirfoddolwyr hyfforddedig, a llety a rennir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd yn unig;
- Rhai lle cesglir rhent oddi wrth y rhai sy'n gallu talu – llety a rennir yn bennaf sy'n gartref i gymysgedd o geiswyr lloches a wrthodwyd a rhai sy'n gallu talu rhent, ffoaduriaid â statws yn aml, ond yn gynyddol grwpiau eraill fel plant o ymfudwyr amddifad a theuluoedd a gefnogir gan awdurdodau lleol o dan ddyletswyddau statudol. Mae rhai darparwyr cynlluniau cymysg wedi sicrhau statws fel llety 'penodedig' sy'n golygu eu bod wedi'u heithrio o derfynau Lwfans Tai Lleol ar hawliadau budd-dal tai. Mae rhai sefydliadau'n cael cymorth cyllid Cefnogi Pobl gan awdurdodau lleol.

Mae'r manylion yn amrywio: mewn rhai cynlluniau, rhennir tai gan bobl â DHCCC a rhai a all dalu, ond nid felly mewn rhai eraill. Ceir gafael ar dai mewn sawl ffordd: cânt eu cyfrannu gan unigolion dyngarol (tra nad oes eu hangen arnynt) neu gymdeithasau tai, neu eu prydlesu gan gymdeithasau tai am rent fforddiadwy neu gan landlordiaid preifat trwy fodel gosod eiddo cymdeithasol, neu eu prynu â buddsoddiad cymdeithasol neu arian elusennol. Mae prydlesu a phrynu yn cynnig mwy o sicrwydd ac mae prynu yn datblygu sylfaen o asedau i'r sefydliad.

Mae'r mathau o ddarparwyr yn amrywio, er bod y mwyafrif yn elusennau bach i ganolig eu maint sydd wedi datblygu dros y degawd diwethaf i gynyddu'r ymateb i ymfudwyr amddifad. Mae apêl i genhadaeth gymdeithasol cymdeithasau tai, yn enwedig yn Lloegr i gymdeithasau BME trwy'r 'Adduned i Fewnfudwyr' ac i aelodau 'Homes for Cathy'[30] wedi eu tynnu i mewn fel cefnogwyr a darparwyr eiddo ynghyd â'r arbenigedd sy'n ofynnol i'w reoli. Aeth rhai ati yn fwy uniongyrchol i ddarparu ac mae rhai sefydliadau digartrefedd, yn enwedig yn Llundain lle mae'r angen mor fawr, wedi dechrau defnyddio eu lleoedd gwely ar gyfer pobl â DHCCC, gan gynnwys ceiswyr lloches a wrthodwyd.

Mae pob cynllun yn cydnabod pwysigrwydd sefydlogrwydd, diogelwch a sicrwydd i wella llesiant pobl sy'n ceisio noddfa ac, yn gynyddol, maent wedi gweithredu i wella a/neu egluro eu polisïau a'u harfer diogelu.

Cefnogi llwybr allan o amddifadedd yw prif nod y cynlluniau, sy'n golygu ymgysylltu'n effeithiol â chyngor mewnfudo, eiriolaeth a chynrychiolaeth o ansawdd da. Y ffocws hwn yw'r man cychwyn ar gyfer rhai sefydliadau; Hope Projects yn Birmingham a DASS yn yr Alban, er enghraifft. Mae'n

[30] Gweler Ymrwymiad rhif 8 https://homesforcathy.org.uk/commitments/

anochel y bernir llwyddiant pob cynllun yn ôl eu gallu i sicrhau cymorth gwasanaethau mewnfudo da a chefnogi preswylwyr i ymgysylltu'n effeithiol â nhw.

DRAFT

## 5. Y DDARPARIAETH YNG NGHYMRU

Mae'r Adran hon yn amlinellu'r llety presennol a ddarperir gan grwpiau cyfansoddedig yng Nghymru ac, i raddau, yn nodi ei gydberthynas â gwasanaethau eraill sydd eu hangen i gefnogi atebion cynaliadwy i amddifadedd (gweler Adran 3). Nid yw'r Adran yn ymdrin â llety a ddarperir gan ffrindiau a rhwydweithiau anffurfiol, ond, yn Adran 6, adroddir ar adborth o'r ymgynghoriad ynghylch dulliau anffurfiol o'r fath. Nid yw ychwaith yn ystyried y gwaith datblygu a wneir gan Tai Pawb a gyllidir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu gwasanaethau tai ac integreiddio ar gyfer ffoaduriaid, ac sydd wedi nodi rhywfaint o awydd yn y sector tai i ystyried modelau tai ffoaduriaid a allai sicrhau bod lleoedd gwely ar gael i geiswyr lloches a wrthodwyd. Cynhaliodd Tai Pawb drafodaeth bord-gron i ystyried dyblygu model Action Foundation yng Nghymru (gweler Atodiad 5).

Nid oedd ein cyfarwyddyd yn mynnu gwerthusiad o'r ddarpariaeth gyfredol, ond yn Adran 6, adroddir ar faterion allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghori a fu fel rhan o'r project hwn, yn cynnwys gan bobl sy'n ceisio noddfa, y defnyddiodd rhai ohonynt gynlluniau yng Nghymru.

### 5.1. Gwasanaethau allweddol ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd

Y cyfarwyddyd ar gyfer yr astudiaeth hon oedd ymchwilio i ddatblygiad modelau llety. Gan hynny, ni ymchwiliwyd i wasanaethau eraill yn fanwl. Fodd bynnag, fel yr eglurir yn yr adroddiad, rhaid i unrhyw ddarparwr llety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodir ymgysylltu â'r rhwydweithiau o ddarpariaeth ehangach i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i'r rhai y maent yn eu lletya.

Y sefydliadau allweddol sy'n gweithio ledled Cymru yw:

- Y Groes Goch Brydeinig sy'n rhedeg gwasanaethau galw-heibio ac yn darpar taliadau arian parod mewn argyfwng ym mhob un o'r pedwar lleoliad gwasgaru;
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru sy'n cydlynu'r Rhaglen Hawliau Lloches a gyllidir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys saith partner: Dinas Noddfa, BAWSO, Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST), Pobl Ddadleoledig ar Waith (DPIA), TGP Cymru (plant a theuluoedd) a Chyfiawnder Lloches – pob un yn darparu gwasanaethau penodol i gefnogi ceiswyr lloches i weithredu eu hawliau. Mae rhai o'r rhain yn benodol i grŵp a darperir cyngor arbenigol pwrpasol Lefel I OISC ym mhob un o'r pedwar lleoliad gwasgaru.

Mewn ardaloedd penodol, ceir gwasanaethau galw-heibio a gweithgareddau a redir gan grwpiau ffydd a chymunedol sy'n rhwydweithio'n effeithiol gyda chyrff cenedlaethol a lleol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

**Caerdydd**

- Y Clinig Amddifadedd a redir gan bartneriaeth o grwpiau allweddol sy'n mynd i'r afael ag amddifadedd yn y ddinas: y Groes Goch Brydeinig, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Home4U a ShareDYDD. Yn ddiweddar, cydlynwyd rhestr achosion a rhestr aros am dai i sicrhau y caiff y gwelyau sydd ar gael yn Home4U a ShareDYDD eu blaenoriaethu'n effeithiol;
- Mae Oasis yn cynnig darpariaeth alw-heibio a chynghor i geiswyr lloches a ffoaduriaid sydd newydd ennill statws;

- Mae Canolfan y Drindod yn cynnig croeso, gwasanaeth galw-heibio a chefnogaeth ymarferol ar y cyd ag eraill, yn cynnwys Space4U, Cyngor Ffoaduriaid Cymru, Canolfan Gymunedol Sudan De Cymru a Gweithredu Myfyrwyr ar gyfer Ffoaduriaid.

**Casnewydd**

- Mae'r Gap yng Nghasnewydd yn lle pwysig i geiswyr lloches a ffoaduriaid sydd newydd ennill statws. Mae'n cynnig bwyd a goginiwyd gan wirfoddolwyr a gwesteion ac amryw o weithgareddau yn cynnwys badminton a thorri gwallt (gan westeion Cwrdaidd a chyn-westeion yn bennaf). Yn ddiweddar, derbyniodd grant gan Sefydliad Lloyds TSB i wneud gwaith datblygu busnes i archwilio dichonoldeb asiantaeth gosod-eiddo cymdeithasol.
- Ar adeg y gwaith ymchwil, roedd un gwestywr yng Nghasnewydd yr atgyfeiriai' Gap bobl ato. O ystyried graddfa ac anffurfioldeb y gweithgaredd hwn, ni restrir hwn fel project gwestya isod.

**Abertawe**

- Mae Undeb mewn Amrywiaeth yn cynnal sesiwn alw-heibio ddwywaith yr wythnos
- Mae Cefnogwyr Ceiswyr Lloches Abertawe (SASS) yn rhedeg sesiwn alw-heibio ddwywaith yr wythnos ac mae'n gyfrifol am Share Tawe
- Mae Dinas Noddfa Abertawe yn creu cysylltiadau â materion cenedlaethol Cymreig ac yn cynnull y Gweithgor Amddifadedd sy'n ceisio gwella gwasanaethau rhoi terfyn ar amddifadedd, yn cynnwys trwy ddatblygu cynllun tai a rennir;
- Mae project Rhwyd Ddiogelwch y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd yn cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i gysyllu'n gymdeithasol ac yn eu cyfeirio at gyngor a gwasanaethau.

**Wrecsam**

- Just Across – yn cynnal sesiwn alw-heibio wythnosol.

## 5.2. Darpariaeth llety sy'n hygyrch i geiswyr lloches a wrthodwyd yng Nghymru

Mae Tabl 1 isod yn amlinellu swyddogaeth, darpariaeth a, lle'r oedd y wybodaeth ar gael, model cefnogi a gallu cefnogol:

- Dau sefydliad gwestya, ShareDYDD yng Nghaerdydd a Share Tawe yn Abertawe;
- Yr unig gynllun tai a rennir yng Nghymru, Home4U yng Nghaerdydd;
- Llochesau nos/hosteli;
- Lleoedd gwely a gefnogir gan gyrff eraill

**Gwestya: ShareDYDD**

Project gwestya yng Nghaerdydd yw ShareDYDD (SD) sydd wedi bodoli yn anffurfiol ers 2011 ac sydd yn y broses o gofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO). Caiff 8-10 o westeion eu gwestya ar unrhyw adeg neilltuol, a cheir rhwydwaith ehangach o 25 gwestywr posibl.

**Staff a gwirfoddolwyr:** Mae grant NACCOM wedi cefnogi swydd 'cydlynydd datblygu' 15 awr yr wythnos a rennir gyda Home4U (diwrnod yr wythnos ar gyfer pob project). Ers diwedd 2019, sicrhawyd cyllid newydd gan sefydliadau elusennol i barhau i gefnogi'r swydd hon. Mae deiliad y swydd wedi cydlynu rheolaeth achosion ac atgyfeiriadau o'r Clinig Amddifadedd ac wedi cefnogi a datblygu gweithwyr cyswllt a bennir ar gyfer pob gwestai, y mae eu gwaith yn cynnwys eu cefnogi i fynd i'r afael â'u hachos mewnfudo. Yn flaenorol, gwirfoddolwyr a redai'r elusen

DRAFT

**Recriwtio gwesteiwyr:** Bu cynnydd yn nifer y gwestywyr a gallu wedi sylw'r cyfryngau i argyfwng ffoaduriaid Syria yn 2015/16. Lleihau a wnaeth diddordeb ers hynny ac mae recriwtio'n un o'r nifer o anghenion y ceisia'r cydlynydd rhan-amser a'r gwirfoddolwyr fynd i'r afael â nhw.

Datblygodd partneriaeth gyda Refugees at Home, elusen Brydeinig a sefydlwyd yn 2016 sy'n golygu bod Refugees at Home yn recriwtio gwestywyr gyda chefnogaeth leol a gwaith paru gan ShareDYDD.

**Atgyfeirir** drwy'r Clinig Amddifadedd ac mae'r gweithiwr rhan-amser wedi datblygu system gydlynol sy'n cynnwys rhestr aros a chyfarfodydd cyson gyda staff y Clinig i asesu anghenion a blaenoriaethau wrth i lefydd ddod yn rhydd.

**Diogelu:** dros y flwyddyn ddiwethaf, mae SD wedi defnyddio gwybodaeth arbenigol gan gyn-swyddog diogelu blaen i gefnogi datblygu polisi a gweithdrefn gadarn. Mae gan Refugees at Home wirfoddolwyr lleol â'r hyfforddiant proffesiynol perthnasol sy'n cynnal asesiadau risg gyda'r holl westywyr posibl yn eu cartref.

**Cymorth gyda gwaith achosion mewnfudo ac anghenion eraill:** Pennir gweithwyr cyswllt ar gyfer pob unigolyn a gaiff lety i sicrhau diwallu anghenion sylfaenol trwy fynediad i gyllid argyfwng, costau teithio, bwyd ac ati. Mae'r gweithwyr cyswllt yn chwarae rhan gynyddol o ran cefnogi ymgysylltu'n rhagweithiol â chyngor mewnfudo.

**Ffocws a chynlluniau datblygu:** Mae'r ffocws cyfredol ar sefydlu proses atgyfeirio fwy diogel gyda phartneriaid allweddol sy'n gallu gwneud y gwaith achos ochr yn ochr â'u darpariaeth westya. Mae ShareDYDD wedi llwyddo i sicrhau tair grant i barhau â'u gallu presennol am dair blynedd.

**Gwestya: Share Tawe**

Project gwestya yn Abertawe yw Share Tawe, a'r nod o gynnig lletygarwch – llety, prydau, croeso a chefnogaeth – i geiswyr lloches amddifad trwy wirfoddolwyr sy'n cynnig stafell yn eu cartref, neu sy'n cefnogi'r cynllun mewn ffyrdd eraill. Mae'n gweithredu o fewn rhwydwaith amddifadedd eangach yn Abertawe a weithiodd gyda chyllid gan Ymddiriedolaeth Tai'r Crynwyr i sefydlu cynllun gwestya yn 2009. Bu partneriaeth gyda Shelter Cymru am rai blynyddoedd tan 2014; y flwyddyn honno, roedd nifer y gwestywyr yn fach ond roedd y nifer o lefydd gwely a ddefnyddiwyd yn uchel diolch i waith achos dwys a chanlyniadau positif (roedd hwn hefyd yn adeg ymdrech ragweithiol ar ran y Swyddfa Gartref i ddatrys achosion).

**Staff a gwirfoddolwyr:** Hyd at ddiwedd mis Mai 2019, galluogodd grant dwy-flynedd Lloyds TSB a chymorth ychwanegol gan grant NACCOM Cymorth Ceiswyr Lloches Abertawe (SASS) i gyflogi cydlynydd project ar gyfer Share Tawe am ddau ddiwrnod yr wythnos. Ers hynny cafodd Gweithiwr Datblygu Gwirfoddolwyr SASS ddau ddiwrnod yr wythnos yn ychwanegol i gyflawni swyddogaeth Share Tawe gyda chefnogaeth grant Comic Relief a ddyfarnwyd yn ddiweddar ynghyd â rhywfaint o godi arian lleol a defnyddio cronfeydd wrth gefn.

**Recriwtio gwestywyr:** yn digwydd yn bennaf trwy rwydweithiau a chyhoeddusrwydd lleol.

**Atgyfeiriadau:** trwy law rhwydwaith o ddarparwyr sydd mewn cysylltiad â cheiswyr lloches a wrthodwyd yn Abertawe, ac yn eu cefnogi.

**Cymorth gyda gwaith achos mewnfudo ac anghenion eraill:** Yn ystod 2018/19, roedd lefel uchel o ymgysylltu â chyngor ar fewnfudo yn flaenoriaeth i gydlynydd y project. Cefnogir pobl hefyd i gael cymorth i ateb anghenion sylfaenol o gronfeydd argyfwng, cynlluniau talebau teithio ac ati.

DRAFT

**Ffocws a chynlluniau datblygu:** Mae Share Tawe wrthi'n codi arian er mwyn parhau â staff cyflogedig ac yn poeni bod treulio amser yn codi arian i gadw'r blaidd o'r drws yn effeithio ar waith datblygu.

Bwriad Share Tawe a'i rwydweithiau ategol erioed oedd ddatblygu mathau eraill o lety. Ychydig flynyddoedd yn ôl, aeth Share Tawe i mewn i bartneriaeth gyda chymdeithas dai i ddatblygu cynllun defnydd-cymysg â ffoaduriaid wedi eu cartrefu ac yn derbyn cefnogaeth fel y bo'r angen trwy'r gymdeithas tai, a Share Tawe yn dyrannu ac yn cefnogi ceiswyr lloches amddifad. Mae'n ymwybodol iawn o anghenion y rhai na fyddai'n cael eu cartrefu gan westywyr. Yn anffodus, golygodd newidiadau o fewn ei bartner-gymdeithas tai na ddatblygwyd y cynllun hwnnw.

> *'… byddai'n dda cael yr opsiwn arall yma [tŷ a rennir] gan mai dim ond cyn belled y gall gwestya fynd ... does dim budd ariannol mewn gwestya. Am ba hyd allwch chi gadw diddordeb pobl mewn croesawu dieithriaid? Mae rhai'n credu ei fod yn ddyletswydd dynol. Ond mae terfyn i haelioni pobl ... Ni ellir lletya rhai categorïau o geiswyr lloches amddifad yn nhai pobl, er enghraifft, os â phroblemau iechyd meddwl neu os buont yn gorfforol dreisgar tra'n dal i fod yn amddifad, a heb allu cael eu cymryd gan y gwasanaethau cymdeithasol.* '

**Llety a rennir: Home4U**

Project llety a rennir yw Home4U, elusen gofrestredig sy'n darparu pedwar lle gwely ar hyn o bryd. Mae'n cydgweithio'n glòs gydag elusen arall – Space4U – sy'n ganolfan galw-heibio gydag amrywiaeth o wasanaethau i bobl sy'n geiswyr lloches ac yn ffoaduriaid, ac sydd hefyd yn blaenoriaethu cefnogaeth i rai sy'n amddifad.

**Staff a gwirfoddolwyr:** Mae gan arweinydd y gwirfoddolwyr a sylfaenydd y project 15 mlynedd a mwy o brofiad o redeg projectau ar gyfer ceiswyr lloches a chynghori'r grŵp hwn (arferai weithio i Asylum Justice). Telir am ddiwrnod yr wythnos o waith cyflog gan NACCOM.

**Atgyfeirir** trwy'r Clinig Amddifadedd. Mae Home4U yn lletya ceiswyr lloches gwrywaidd a wrthodir.

**Ffocws a chynlluniau datblygu:** Bu'n rhaid i Home4U ddychwelyd tŷ pedair-llofft i'r Esgobaeth Gatholig a oedd â'i angen fel llety i glerigwyr ond mae CT Wales and West wedi cyfrannu dau eiddo dwy-lofft am gyfnod di-rent. Dros ei 10 mlynedd o hanes cafodd Home4U fenthyg pump eiddo, ac mae gorfod dychwelyd eiddo ar fyr rybudd a threfnu lle i breswylwyr symud ymlaen iddo wedi peri iddo ailfeddwl sut y gellir datblygu perthynas fwy cynaliadwy ar gyfer caffael a rheoli tai. Gobeithia Home4U y bydd y bartneriaeth newydd gyda Wales and West yn llwyddiant ac y bydd yn denu CTau eraill i gyfranogi yng Nghaerdydd ac ardaloedd eraill mewn angen.

**Llety a rennir: Share Tawe a SASS**

Roedd cynllun rai blynyddoedd yn ôl i ddatblygu cynllun tai-a-rennir cymysg yn Abertawe a fyddai wedi bod yn bartneriaeth rhwng cymdeithas tai a weithredai'n lleol a Share Tawe/SASS. Roedd y cynllunio wedi mynd rhagddo yn eithaf pell, ond fe'i ataliwyd gan newidiadau o fewn y gymdeithas tai. Byddai wedi cynnwys ffoaduriaid yn talu rhent gyda chefnogaeth y gymdeithas tai, gyda chyllid ar gael gan yr awdurdod lleol am gymorth fel bo angen a rhai lleoedd ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd wedi'u neillto ar gyfer Share Tawe/SASS, a fyddai'n eu cefnogi.

**Llety dros-dro: BAWSO**

Mae BAWSO yn sefydliad cenedlaethol sy'n darparu gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol gan gynnwys hyfforddiant, darparu llety dros-dro i'r rhai sy'n dioddef neu sydd mewn perygl o

ddioddef cam-drin domestig a phob math o drais fel Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod, Priodas dan Orfod, Trais yn Seiliedig ar Anrhydedd, masnachu pobl a caethwasiaeth fodern. Mae'n codi arian i sicrhau y gall ddarparu llety dros dro i rai pobl â DHCCC.

**Llochesau nos a hosteli: gwahanol ddarparwyr**

Defnyddir y rhain fel dewis olaf gan geiswyr lloches digartref a ffoaduriaid (gweler Adran 4.8 uchod) a dim ond yn y misoedd oerach y mae'r mwyafrif o lochesi ar agor. Adroddwyd y byddai gan Ganolfan Huggard yng Nghaerdydd ddau geisiwr lloches yr aros ar lawr bob mis fel arfer, a gŵyr projectau cynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches fod pobl wedi defnyddio llochesau pan nad oes dewis arall. Yr ymateb pennaf gan grwpiau ac unigolion allweddol, yn cynnwys ceiswyr noddfa, yw bod yr amgylchedd mewn llawer o lochesi nos a hosteli mor ddiwylliannol estron ac amhriodol fel eu bod yn defnyddio llai arnynt, mae’n debyg, na llawer o bobl ddigartref eraill.

Yng Nghaerdydd, croesawyd cyflwyno podiau i un hostel oherwydd ymddengys eu bod wedi'u hanelu at fenywod a grwpiau, gan gynnwys pobl sy'n ceisio noddfa, a fyddai'n arbennig o ddiymgeledd mewn gofodau a rennir.

Rhwystr arall i ddefnyddio llochesau nos a hosteli yw diffyg eglurdeb ynghylch mynediad i bobl â DHCCC. Yng Nghaerdydd, roedd pobl sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a wrthodir yn sôn am atgyfeirio i lochesi nos ac ymddengys bod hyn yn wir yn Abertawe hefyd. Roedd pethau’n llai clir yng Nghasnewydd a Wrecsam. Trwy law’r awdurdod lleol yr atgyfeirir pobl i lawer o lochesi nos, yn cynnwys rhai a redir gan Housing Justice Cymru yn Wrecsam, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe. Yn ôl yr awdurdodau lleol y cyfwelwyd â nhw fel rhan o'r project hwn, dylai llochesau fod yn agored i bawb, yn cynnwys rhai â DHCCC. Mae hyn yn tanlinellu problem lefelau isel o ymwybyddiaeth o fewn gwasanaethau digartrefedd yn gyffredinol, yn cynnwys llochesau nos a hosteli, o anghenion ceiswyr lloches a wrthodwyd a'r lle gorau i'w hanfon am help a chyngor.

**Lleoedd gwely y telir amdanynt gan grwpiau gwirfoddol fel ymateb brys: Y Groes Goch Brydeinig**

Dywedodd y Groes Goch Brydeinig y bydd yn talu am lefydd gwely yn ysbeidiol iawn pan na fo unrhyw ddewis arall, yn Wrecsam, er enghraifft.

**Llety a gefnogir gan gyrff cyhoeddus**

Darperir llety o'r fath i gyflawni dyletswyddau statudol, er enghraifft, o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i gefnogi plant, pobl ifanc sy'n gadael gofal ac oedolion diymgeledd mewn angen (gweler Atodiad 3). Mae cynllun a gefnogir gan Gyngor Dinas Casnewydd sy'n lletya pobl ifanc a gyrhaeddodd fel plant digwmni yn ceisio lloches yn cael ei redeg gan gymdeithas tai genedlaethol.

Nododd grwpiau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid y llwyddwyd weithiau i atgyfeirio pobl y bernid eu bod mewn perygl ac yn rhy ddiymgeledd i gael eu lletya mewn cynllun gwestya neu Home4U. Fodd bynnag, cawsai rhai grwpiau, yn cynnwys cynlluniau gwestya, anawsterau o ran sicrhau asesiadau ar gyfer ceiswyr lloches diymgeledd a wrthodwyd. Wrth reswm, byddai'n anodd i brojectau a redir yn wirfoddol a chynlluniau gwestya i ddygymod â phobl ag anghenion dwys ond maent hefyd yn ei chael hi'n anodd gwrthod pobl. Er enghraifft, bu ShareDYDD yn lletya rhywun a gafodd lawdriniaeth ar dyfiant ar yr ymennydd yn ddiweddar ac atgyfeiriwyd dau berson y buont yn eu lletya yn ystod y flwyddyn i ofal gwasanaethau cymdeithasol.

**Casnewydd a Wrecsam**

DRAFT

Does nemor ddim darpariaeth yng Nghasnewydd na Wrecsam ar hyn o bryd. Yng Nghasnewydd, mae’r Gap newydd sicrhau cefnogaeth ail westywr a grant i asesu dichonoldeb asiantaeth gosod eiddo cymdeithasol. Yn Wrecsam does dim darpariaeth, er i ni glywed am westya anffurfiol sy’n digwydd trwy eglwys; y Groes Goch Brydeinig yn talu am lety B&B i rywun roedden nhw’n poeni’n fawr amdano; a thwrnai a fu’n lletya cleient a fyddai heb lawer o obaith llwyddo yn ei gais mewnfudo fel arall. Heb os, mae yna fwy o hanesion am drefniadau anffurfiol a charedigrwydd dynol, yn enwedig o fewn cymunedau o fewnfudwyr.

### 5.3. Sicrhau cyngor ar fewnfudo i brojectau lletya

Mae’r gefnogaeth eirioli i’r rheini a letyir gan Home4U, a ddarperir o fewn oriau cyfyngedig gweithwyr cyflog a gwirfoddolwyr, o bwys hanfodol.

> *Y cwbl wela’ i gyda cheisiwr lloches amddifad yw llwybr cynaliadwy allan o amddifadedd ac felly rhaid i chi wybod y llwybr y gallwch ei ddilyn i helpu. Y nod yw ennill statws. O brofiad, gwn bod angen tawelu’r ymennydd rhyw dipyn er mwyn canolbwyntio ar eich achos. Pan ddaw gwestai i mewn, dywedaf wrtho fod ganddo leoliad dros-dro ond ddim am byth ac bod ganddo gyfle nawr i gyflymu ei achos i bwynt lle gall fynd nôl mewn i'r system. Dwi'n ceisio gwneud yn siwr eu bod yn gwybod hyn. Byddwn yn trafod bod yn drefnus gyda'u hachos. Unrhyw dwrnai ewch chi atynt, maen nhw’n dweud bod angen dogfennaeth iawn a phopeth mewn trefn. Dyw cyfreithwyr ddim yn ymgysylltu â’r gair llafar, maen nhw’n ymgysylltu â phapur. Mae’r unig ffordd allan i lawer yn golygu mynd nôl i mewn i’r system trwy Adran 4 ’*
> **Gweithiwr Cefnogi Gwestya**

Fel y noda’r adroddiad ‘Models of Immigration’ y cyfeirir ato uchod,[16] mae’n hanfodol cefnogi pob lefel a phob math o gyngor mewnfudo a’u cael i gydweithio effeithiol. Swm bach yw’r cymorth cyfreithiol ar gyfer achosion lloches; nid yw'n talu am yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau y gall pobl ymdrin yn effeithiol â'u hachos, er enghraifft, trwy gasglu a chydosod tystiolaeth a sicrhau bod eu cynghorydd cyfreithiol yn darparu gwasanaeth o'r safon ofynnol. Fodd bynnag, mae prinder arbenigedd. Yn rhy aml, mae'r ddarpariaeth o ansawdd wael er na chaiff cynghorwyr mewnfudo a chynrychiolwyr cyfreithiol weithio heb fod wedi'u hachredu gan gynllun Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo (OISC) a weinyddir gan y Swyddfa Gartref. Gall pobl gael eu hunain yn defnyddio cyfreithwyr gwael ar argymhelliad llafar trwy rwydweithiau cymunedau a grwpiau ffydd, sydd am helpu, ond heb wybod beth yw cyngor da.

Nodai eiriolwyr nad oes unrhyw ymarferwyr cyfraith gyhoeddus yng Nghymru pe bai pobl â DHCCC am herio penderfyniad wedi'i wreiddio yn y gyfraith gyhoeddus, er enghraifft, ynglŷn â hawl i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar sail bregusrwydd.

Mae'r Rhaglen Hawliau Lloches (RhHLl) a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2017 ac a gydlynwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru wedi darparu cyngor OISC Lefel 1 ym mhob ardal wasgaru. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi sicrhau bod ei brosesu Adran 4 yn fwy effeithlon bellach ac yn cael canlyniadau cyflymach. Gall hyn yn ei dro leihau'r amser y mae ar bobl angen lle gwely am ddim.

Cyllidwyd Asylum Justice (AJ) gan Lywodraeth Cymru hefyd. Mae AJ yn chwarae rhan hollbwysig yng Nghymru wrth gynrychiol rhai sydd heb gefnogaeth gyfreithiol a/neu lle na all (neu na fynn) cynrychiolydd cyfreithiol fynychu gwrandawiadau llys. Clywir apeliadau yn Llundain, felly mae sawl project yn defnyddio’r Project Apeliadau Ceiswyr Lloches (ASAP) i gefnogi eu cleientiaid.

DRAFT

Mae'r tri phroject llety (gwestya yng Nghaerdydd ac Abertawe a Home4U) wedi cynyddu'r pwyslais ar gefnogi ceiswyr lloches a wrthodir i fynd i'r afael yn rhagweithiol â'u hachos mewnfudo. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau llwybr allan o amddifadedd i bobl unigol, ond hefyd i helpu mwy o bobl trwy symud pobl i mewn ac allan o'r llety a ddarperir yn gyflymach.

### 5.4. Canlyniadau

Mae monitro canlyniadau mewnfudo wedi gwella ochr yn ochr â'r gwaith mwy rhagweithiol i gynorthwyo pobl i fynd i'r afael â'u hachos mewnfudo. Cafodd oddeutu 50 o bobl lety yn 2017/18 gan y tri darparwr llety. Mae bron i hanner y rhai a gafodd eu lletya gan y ddau gynllun gwestya dros y flwyddyn ddiwethaf wedi profi camau positif ar ôl derbyn cefnogaeth Adran 4 gan y Swyddfa Gartref neu, mewn dau achos, caniatâd i aros. Symudodd rhai pobl at ffrindiau a theulu ac arhosodd llawer yn y ddarpariaeth y flwyddyn honno. Bydd buddiannau eraill cael llety yn cynnwys gwell iechyd corff a meddwl, ond nid chofnodir y canlyniadau hyn yn systematig ar hyn o bryd.

**I grynhoi:** Mae tri sefydliad yng Nghymru sy'n ymroddedig i letya ceiswyr lloches a wrthodwyd: dau gynllun gwestya – ShareDYDD yng Nghaerdydd a Share Tawe yn Abertawe – sy'n lletya rhwng wyth a 10 o geiswyr lloches a wrthodwyd, a Home4U sy'n lletya ceiswyr lloches a wrthodwyd (dynion yn unig) mewn tai a rennir yng Nghaerdydd. Mae'r sefydliadau'n fach a'u gallu gweithredol yn gyfyng, ond ers dwy flynedd bellach, mae eu profiad a chyllid gan ymddiriedolaethau ac o gronfa unwaith-ac-am-byth NACCOM wedi hwyluso datblygiadau pwysig yn y seilwedd sefydliadol. Mae'r rhain yn cynnwys gwella polisïau diogelu a chanolbwyntio'n fwy effeithiol ar gefnogi gwesteion a phreswylwyr i fynd i'r afael â'u hachos mewnfudo.

Mae'r un cynllun tŷ a rennir, Home4U, yn ddarparwr pwysig, yn enwedig i'r rhai na ellir eu gwestya; er enghraifft, mae'n anos dod o hyd i leoedd gwestya i ddynion. Fodd bynnag, cafodd Home4U hi'n anodd sicrhau eiddo a pharau i'w gynnal. Y gobaith yw y bydd y trafod a fu gyda chymdeithasau tai fel rhan o'r project hwn, a arweiniodd at gyfraniad o ddau eiddo am gyfnod di-rent gan CT Wales and West, yn llwyddiannus ac y bydd yn annog CTau eraill i gymryd rhan mewn trefniadau tebyg.

Mae Share Tawe/SASS wedi datblygu model ar gyfer llety a rennir mewn partneriaeth â chymdeithas tai; gellid adeiladu ar y profiad hwn fel sail i bartneriaeth gyda chymdeithas tai arall.

Ychydig o ddarpariaeth sydd yng Nghasnewydd neu Wrecsam.

Cafwyd adroddiadau cymysg ynghylch mynediad i lochesi nos a pha mor addas ydynt. Mae rhwystredigaeth hefyd ymhlith grwpiau eiriolaeth a darparwyr llety yn wyneb diffyg ymwybyddiaeth staff cyrff statudol ynglŷn â phobl ddiymgeledd, yn cynnwys teuluoedd â phlant, y credant y gall fod ar y cyrff gyfrifoldeb statudol iddynt.

Gydag amcangyfrif o gannoedd yn mynd yn amddifad yng Nghymru bob blwyddyn, mae'n amlwg bod y ddarpariaeth bresennol yn annigonol. Caiff y rhan fwyaf o bobl eu lletya gan rwydweithiau cyfeillgarwch a thylwyth, ond mae'n anos sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar gefnogaeth pan fo pobl wedi eu lletya fel hyn, ac mae'r risg o ecsbloetiaeth a chaledi yn y cymunedau hyn yn uchel.

Gwahaniaeth allweddol rhwng modelau a archwiliwyd mewn mannau eraill a'r rhai yng Nghymru yw nad yw'n ymddangos bod llawer o allu ymhlith sefydliadau cymorth lloches a ffoaduriaid a darparwyr llety presennol i reoli cynlluniau tai a rennir, o'r math a geir yn Lloegr. Ceisiodd Share

Tawe ac mae'r Gap yng Nghasnewydd wedi dechrau gweithio yn ddiweddar i bwyso a mesur y posibiliadau ar gyfer asiantaeth osod eiddo cymdeithasol. Efallai y bydd posibiliadau hefyd trwy'r project datblygu arall a gyllidir gan LlC ac a ddarperir gan Tai Pawb, sy'n archwilio modelau tai ar gyfer ffoaduriaid ac sydd wrthi'n ymchwilio i ddull gweithredu Action Foundation lle mae ceiswyr lloches a wrthodwyd yn cael eu cartrefu ochr yn ochr â ffoaduriaid.

DRAFT

*Tabl 1 – Darpariaeth llety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd yng Nghymru (cywir Gorff 2019 gyda rhywfaint o ddiweddaru Tach 2019)*

| Sefydliad a lleoliad | Model o lety a chefnogaeth | Niferoedd a helpwyd/Canlyniadau | Cyllid/Llety ar gael |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **ShareDYDD (SD), Cynllun Gwestya Caerdydd** | Cynnig llety yng nghartrefi pobl<br><br>Refugees at Home yn cefnogi gwestywyr (dim pawb yn gwestya yr un pryd gan fod pobl ag angen hoe) er bod SD yn chwarae rhan fawr yn y broses.<br><br>Cydlynu diwrnod yr wythnos – rhennir y swydd gyda Home4U ac fe'i cefnogir gan wirfoddolwyr y mae rhai ohonynt yn weithwyr cyswllt i gefnogi gwesteion, yn gweithio ar eu hachos mewnfudo.<br><br>Atgyfeirir gan grwpiau sy'n gweithio gyda Chlinig Amddifadedd Caerdydd, trwy gyfrwng rhestr aros a drafodir yn gyson gan BRC, CFfC a chydlynydd SD a Home4U. | 23 o bobl yn 2018/19 (13 dyn; 9 menyw ac un 'dan oed') ar wahanol gamau yn y broses ceisio lloches, yn cynnwys 4 'Hawliau Apêl wedi eu Dihysbyddu' ond diymgeledd.<br><br>**Canlyniadau**: Pedwar yn cael cymorth Adran 4; cartrefu pedwar gan y Gwas. Cymdeithasol; cefnogi un dan Adran 98; un Arolwg Barnwrol llwyddiannus; pedwar yn symud i fod yn nes at dwrnai/ffrindiau; naw yn dal yn gleientiaid. | Amser gwirfoddolwyr (telir costau teithio ac ati<br>Grant fechan ar gyfer swydd r/a 15 awr yr wythnos tan Fedi/Hyd 2019, gweithio ar draws SD a Home4U, cyflogir gan Home4U a chyllidwyd gyntaf gan grant NACCOM a nawr gan grantiau ymddiriedolaethau elusennol. |
| **Home4U, Tai a rennir, Caerdydd** | Cyfrannwyd dau eiddo dwy-lofft am gyfnod di-rent gan CT Wales and West sy'n cynnig lleoedd gwely ar gyfer pedwar ceisydd lloches a wrthodwyd ar y tro (dynion yn bennaf) am dri mis, a hyd at chwe mis yn amodol ar arolwg.<br><br>Tŷ wedi ei reoli gan yr elusen a biliau'n cael eu talu.<br><br>Cydlynu am ddiwrnod yr wythnos – swydd wedi ei rhannu gyda SD gyda chefnogaeth gwirfoddolwyr.<br><br>Atgyfeirio fel ar gyfer SD | Yn 2018/19 adeg symud i mewn, saith yn paratoi Cais o'r Newydd a chwech â Hawliau Apêl wedi eu Dihysbyddu ond yn ddiymgeledd iawn, yn cynnwys un dyn a oedd newydd gael llawdriniaeth i dynnu tyfiant ar ei ymenydd.<br><br>**Canlyniadau 2018/19:** Cafodd dau gefnogaeth Adran 4; atgyfeiriwyd dau at SD (gweler uchod); symudodd dau at ffrindiau; symudodd dau allan yn wirfoddol; un yn anhysbys; pedwar yn dal yn breswylwyr (Gorff 2019). | Cyfraniadau yn cynnwys tai am gyfnodau di-rent<br><br>Gweler SD uchod parthed staffio |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Share Tawe, Cynllun Gwestya Abertawe** | Cynnig llety yng nghartrefi pobl<br><br>Gwestywyr ddim oll yn gwestya ar yr un pryd, pobl yn aml yn cymryd hoe<br><br>Dau ddiwrnod yr wythnos gan y gweithiwr cydlynu a chefnogi yn gyfredol | Gwestya 16 o bobl yn 2018 (chwe newydd); 3061 noson-wely (cynnydd ar y flwyddyn flaenorol)<br><br>**Canlynadau:** Cafodd un hawl i aros; cynnig Adran 4 i naw yn sgil tystiolaeth newydd, wyth wedi eu gosod mewn llety a gefnogir gan y Swyddfa Gartref; gweddill yn dal yn westeion | Cyllid/cyfraniadau<br><br>Daeth costau cymorth a swydd ran-amser gan Sefydliad Lloyds TSB a NACCOM i SASS (sefydliad cyflogi) i ben yn 2019 ond mae grant Comic Relief, cronfeydd wrth gefn a rhoddion yn talu am i'r swydd barhau yn 2020 |
| **Refugees at Home,**<br>**Cynllun gwestya ledled Prydain** | Rhwydwaith gwestya – rhoi enwau gwestywyr posibl i grwpiau lleol a defnyddio gwirfoddolwyr â chefndir proffesiynol mewn diogelu ac asesu risg i wirio pob gwestywr. | | Cyfraniadau a grantiau |
| **Hosteli digartref a llochesau nos**<br><br>**Caerdydd, Casnewydd, Abertawe, Wrecsam** | Amrywiol, ond â ffocws ar bawb sy'n ddigartref, yn darparu lloches tymor-byr. Rhai llochesau ar agor ar hyd y flwyddyn a rhai yn y gaeaf yn unig. Mwyafrif dan arweiniad grwpiau ffydd wedi'u cydlynu a'u cefnogi gan Housing Justice Cymru, gweithredu ar sail croeso. Serch hynny, gellir diffinio llochesau a gefnogir yn ariannol gan ALlau sy'n dibynnu ar atgyfeiriadau ALl fel darpariaeth o dan y ddeddfwriaeth digartrefedd ac felly'n anhygyrch i rai â DHCCC. | Ddim ar gael<br><br>D.S. Yn Llundain llenwir traean o leoedd gwely llochesau gan ymfudwyr â DHCCC nad ydynt yn ddinasyddion yr AEE | Rhoddion a chyllid arall yn cynnwys cytundebau cyllido/ contractau gydag ALlau a all olygu yr ystyrir y ddarpariaeth yn ‘gronfa gyhoeddus’ o fewn y rheolau mewnfudo |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| **BAWSO,**<br>**Ledled Cymru** | Darparu tai i nifer anhysbys ac amrywiol o bobl fel rhan o'i ddarpariaeth ar gyfer pobl sy'n dioddef, neu mewn perygl o ddioddef, camdriniaeth ddomestig. | | Codi arian i lenwi'r bwlch o golli rhent ar gyfer rhai â DHCCC |
| **The Gap,**<br>**Casnewydd** | Gall alw ar ddau westywr<br><br>Newydd dderbyn grant i asesu dichonoldeb busnes asiantaeth gosod eiddo cymdeithasol | | Rhoddion elusennol<br>Grantiau Sefydliad<br>Lloyds TSB |

DRAFT

# 6. YMGYNGHORI

Mae'r Adran hon o'r adroddiad yn darparu adborth o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd fel rhan o'r project. Canolbwyntiai’r ymgynghoriad gyda sefydliadau statudol, trydydd-sector a gwirfoddol ar geisio adborth ynglŷn â modelau llety a gwasanaethau cysylltiedig presennol a phosibl. Roedd yr ymgynghoriad gyda phobl sy'n ceisio noddfa yn ehangach ei gwmpas.

Ymgynghorwyd gyda SeinFwrdd y project (gweler Atodiad 1), pobl a argymhellwyd gan aelodau’r SeinFwrdd, cyfweliadau a sesiynau unigol a gynulliwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a’r swyddog blaen ar gyfer ymfudo/lloches yn Wrecsam. Mae Atodiad 2 yn rhestru’r unigolion yr ymgynghorwyd â nhw a digwyddiadau ymgynghori.

## 6.1. Ymgynghori â phobl sy’n ceisio noddfa

Cynhaliwyd pedair sesiwn ymgynghori gyda bron 30 o pobl sy’n ceisio noddfa; cynhaliwyd tair fel sesiynau grŵp a gynulliwyd gan y Groes Goch Brydeinig (Wrecsam), Pobl Ddadleoledig ar Waith (Caerdydd) a phreswylwyr cyfredol a diweddar ShareDYDD a Home4U (Caerdydd). Trafodwyd y pwyntiau ymgynghori yng nghyfarfod misol gwesteion Share Tawe, a derbyniwyd ymateb ar bapur gan ddau westai. Yng Nghasnewydd, cynhaliwyd trafodaethau unigol gyda phum ceisydd lloches, yn cynnwys pedwar â DHCCC; roedd un yn byw gyda’r unig westywr rheolaidd yng Nghasnewydd ar y pryd. Roedd mwy na hanner y cyfranogwyr yn geiswyr lloches a wrthodwyd a’r gweddill yn bobl a oedd yn dal i geisio noddfa, yn bennaf; roedd nifer bach wedi ennill statws.

Cyfwelwyd â chymysgedd o ddynion a menywod sengl, a phobl a oedd yng Nghymru gyda'u teuluoedd a rhai â theulu mewn man arall; roedd o ba wlad roedd pobl wedi ffoi yn amrywio hefyd. Ni chofnodwyd proffil o'r rhai y cyfwelwyd â nhw am nad oeddem am godi unrhyw rwystrau i gyfranogi. Talwyd rhai pobl i gydnabod eu profiad a'r wybodaeth arbenigol roeddent yn eu rhannu gyda ni a/neu gwnaed cyfraniad i elusen berthnasol lle'r oedd honno wedi gwneud y trefniadau ymgynghori.

**Materion a godwyd gan bobl sy’n ceisio noddfa**

**Angen**

Roedd anobaith pobl y gwrthodwyd eu hawliadau lloches yn hollbresennol ac yn gythryblus. Wrth ddechrau siarad yn fwy rhydd mewn cyfarfodydd unigol, tawodd tri o bobl yn sydyn, codi a dweud bod yn rhaid iddyn nhw roi'r gorau i siarad. Mewn sesiynau grŵp, amlygai hyn ei hun mewn mynegi teimladau o ddicter. Efallai am fod hwn yn broject a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru, credai rhai y byddai dull mwy pendant o ddatrys y broblem yn cael ei gynnig ac roeddent yn siomedig pan ddywedais mai ymgynghori yr oeddwn ar y pryd.

Roedd poen ac anobaith pobl o fod heb allu gwneud cynlluniau, yn enwedig cynlluniau i weld ceraint o’r tu allan i’r DU, o fod yn methu cyfrannu, o fod heb ddyfodol, yn amlwg. Soniai rhai pobl, yn y grwpiau yn bennaf, yn agored am effaith amddifadedd ar iechyd meddwl.

> *‘Dwi wedi dechrau siarad â’n hunan ... A weithiau, wn i ddim lle’r ydw i. Gwn fod fy iechyd meddwl yn dioddef.’*
> **Ceisydd lloches a wrthodwyd yn Wrecsam**

Mae rhai pobl wedi bod yn amddifad yn achlysurol ers blynyddoedd – yn achos dau ddyn, am 20 mlynedd yn achos y naill ac am 11 yn y llall. Dywedodd un y bu yn y DU heb statws am fwy na

DRAFT

hanner ei fywyd. Roedd y ddau wedi trafod dychwelyd gyda'r Swyddfa Gartref, ond heb bolisi dychwelyd diogel ar gyfer y wlad o dan sylw, ni fu hynny'n bosibl.

Roedd bod rhywle dros dro, gan symud o le i le – weithiau i mewn ac allan o lety dan gontract y Swyddfa Gartref rhwng cyfnodau gwestya, yn aml mewn rhannau eraill o'r DU – yn dadwreiddio pobl a'u gwneud yn rhwystredig. Roedd ceisio dal gafael ar eich eiddo prin yn anodd. Meddai un dyn:

> *'Mae'n ddrud symud stafell o hyd ac o hyd a phrynu'r pethau hynny sydd eu hangen arnoch i goginio fel sbeisys ac ati ... Rydych yn colli trac o'ch stwff a heb wybod beth sy'n digwydd, 'dach chi mewn sefyllfa lle nad yw'ch meddwl yn gweithio.'*
> **Ceisydd lloches a wrthodwyd yng Nghasnewydd**

Yn ystod yr ymgynghoriad, dywedodd sawl un eu bod yn credu y dylai'r Llywodraeth allu meddiannu adeilad gwag a fyddai'n darparu lle i aros a diogelwch i unrhyw geisiwr lloches amddifad.

**Gwneud cyfraniad**

Roedd yr awydd i gyfrannu yn ysgubol. Teimlai pobl yn anghysurus tost ynglŷn â chael eu gweld fel rhai sy'n cymryd gan nodi nad oedd ganddynt ddewis gan nad oedd ceiswyr lloches, boed wedi'u gwrthod neu'n disgwyl am ddyfarniad, yn cael gweithio. Dywedodd rhai wrthyf y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cael y DU i ddileu'r gwaharddiad hwn ar gyflogaeth. Roedd nifer o pobl yn rhan o'r ymgyrch 'Dileu'r Gwaharddiad'.

> *'Fyddai dim angen eich project arnon ni pe baen ni'n cael gweithio.'*
> **Ceisydd lloches a wrthodwyd yn Wrecsam**

Anelwyd ymgyrch 'Dileu'r Gwaharddiad' at y rhai sydd â cheisiadau lloches yn disgwyl am ateb, ond mae'n annhebygol y byddai Llywodraeth y DU byth yn cytuno i lacio'r llyffetheiriau ar gyflogaeth i'r rhai y gwrthodwyd lloches iddynt er bod y ddadl o blaid hynny, os na all pobl ddychwelyd i wlad eu geni, yn ymddangos yn gryf.

Pan ofynnwyd iddynt sut y gellid trosi awydd i gyfrannu i gyd-destun tai, dim rhyfedd bod pobl yn ei chael hi'n anodd bod yn benodol. Cafodd awgrym y gallai pobl chwarae rhan mewn adfer eiddo gwag ymateb brwd gan rai pobl. Dywedodd un grŵp o dri dyn ifanc fod yna nifer o bobl sydd eisiau hyfforddi a/neu sydd eisoes â sgiliau adeiladu; roedd un o'r grŵp ei hun newydd ddechrau gweithio i adeiladwr ar ôl cael caniatâd i aros.

**Aros gyda ffrindiau a pherthnasau**

Holwyd ynglŷn â phrofiadau o aros gyda ffrindiau a thylwyth. Bu'r rhan fwyaf o bobl yn aros gyda rhwydweithiau anffurfiol ar ryw adeg yn ystod eu cyfnodau o amddifadedd.

> *'Mae gan bawb ffrindiau a thylwyth y gellwch aros gyda nhw, ond am ba hyd?'*
> *'Rydych chi'n teimlo'n faich arnyn nhw'*
> *'Mae'r ffrind gorau yn eich tylwyth yn troi'n elyn'*
> **Ceisiwyr lloches a wrthodwyd yn Wrecsam a Chaerdydd**

**Gwestya**

Dywedodd pump o'r bobl y cyfwelwyd â nhw y cawsant eu gwestya, a bu un yn byw yn ddiweddar yn nhŷ Home4U yng Nghaerdydd. Siaradai pobl yn hynod o bositif am eu profiadau; y llety, y gwestywyr a'r ffaith bod costau teithio ar gael a olygai y gallent fynd a dod a chymryd



DRAFT

rhan mewn pethau. Dywedodd un person, sydd bellach yn gweithio i broject ffoaduriaid, mai ef oedd un o'r gwesteion Refugee at Home cyntaf yn ne Lloegr ac y credai mai'r peth gorau oedd bod y trefniadau hyn yn rhai tymor-byr ac wedi'u strwythuro â chytundeb clir.

Ni chlywsai'r mwyafrif o bobl y cyfwelwyd â nhw am westya a chodwyd pump o gwestiynau a phryderon ynglŷn â:

- Diogelwch a sut mae pobl sy'n cynnig eu cartrefi yn cael eu gwirio;
- Paru;
- Sut mae anghydfodau'n cael eu datrys;
- Sut mae disgwyliadau'n cael eu rheoli;
- Cyfrannu at y gwestywr.

Dywedodd y mwyafrif y byddent yn croesawu lle gwestya pe bai angen un arnynt, er i'r awydd cryf i wneud cyfraniad godi.

> *'Sut allen ni helpu yn y cartref gwestya fel nad ydym yn teimlo'n ddiwerth neu yn faich? Efallai y gallem ofalu am blant neu wneud gwaith tŷ? '*
> **Ceisydd lloches yn Wrecsam**

Dywedodd nifer eu bod yn hoffi'n enwedig y syniad o fod yng nghartref rhywun, yn enwedig teulu â phlant.

> '*Mae bod â theulu normal o'ch cwpas a gallu chwarae gyda phlant yn dda gan ei bod hi'n ddigon drwg fel ceisydd lloches i fod heb ddim byd i'w wneud a methu gwneud cynlluniau ac ati, ond dychmygwch hynny os cawsoch eich gwrthod.'*
> **Ceisydd lloches yng Nghaerdydd**

**Llochesau nos**

Roedd dyrnaid o bobl wedi defnyddio llochesau nos, a'r rhan fwyaf yn adnabod rhywun a wnaeth. Roedd pawb yn ofni beth allai ddigwydd i bobl mewn llochesau i'r digartrefef: soniodd dau ddyn am adnabod pobl a aethai'n gaeth i heroin am ei bod mor ddiymgeledd pan aethant yno. Fodd bynnag, adroddodd dyn a fu'n aros yn y lloches nos ym Manceinion a redir ar gyfer ceiswyr lloches yn unig gan Ymddiriedolaeth Boaz bod cyferbyniad syfrdanol rhwng y profiad hwnnw a rhai mewn llochesau digartref cyffredinol.

**Tai a rennir**

Roedd yr un person a fuasai'n byw yn rhan-dy Home4U yn bositif ynglŷn â'r profiad. Ei bryder mwyaf, profiad a gawsai hefyd mewn llety Swyddfa Gartref, oedd cael pobl i gymryd cyfrifoldeb am lanhau.

Soniodd pobl am yr angen am sensitifrwydd wrth baru pobl mewn llety a rennir ac am gefnogi trefniadau rhannu yn iawn. Cafwyd nifer o hanesion am baru gwael mewn llety ar gontract gan y Swyddfa Gartref, gyda phobl o garfanau gelyniaethus yn gorfod byw gyda'i gilydd, neu yfwyr ac ysmygwyr wedi'u gosod gydag ymwrthodwyr.

**Cyngor ar fewnfudo a chadw yn y ddalfa**

Holwyd ynglŷn â mynediad at gyngor mewnfudo. Soniai pobl am fod heb wybod ble i fynd, a defnyddio cynghorwyr y cawsant wedi hynny eu bod yn dda i ddim. Wrth drafod cynghorwyr cyfredol, roedd ymatebion pobl yn dawedog – '*mae i'w weld yn iawn'*… '*mae hi'n neis*' – heb awgrymu llawer o hyder. Mewn sawl achos, roedd hyn fel pe bai'n gysylltiedig â phrofiadau gwael yn y gorffennol a pheidio â bod â disgwyliadau na fyddai'n cael eu gwireddu.

Buasai rhai i mewn ac allan o lety dan gontract y Swyddfa Gartref (yn cynnwys Adran 4) a chael eu symud i mewn ac allan o Gymru. Ymddengys mai dim ond o ganlyniad i eiriolaeth gan drydydd parti roedd y mwyafrif wedi ceisio cefnogaeth Adran 4, yn hytrach na thrwy Migrant Help, yr elusen a gontractiwyd gan y Swyddfa Gartref i gefnogi ceisiadau.

Roedd sawl un wedi cael eu cadw yn y ddalfa a chael hynny'n drawmatig, fel y teimlent hefyd o dderbyn yr hysbysiad sydyn y byddai eu llety a'u cefnogaeth yn diweddu o fewn wythnosau (28 diwrnod yn swyddogol neu 21 diwrnod i'r rhai y dihysbyddwyd eu hawliau apêl) oherwydd iddynt gael dyfarniad positif neu achos wedi ei wrthod.

## 6.2. Angen a bylchau yn y ddarpariaeth llety: persbectif sefydliadol

Mae anghysondeb amlwg rhwng angen a darpariaeth, o ran cyfanswm y lleoedd gwely ac o ran yr amrediad o opsiynau. Cafodd 30 i 50 o bobl lety bob blwyddyn dros y 5 mlynedd diwethaf, yn bennaf fel gwesteion ar aelwydydd gwestywyr, ond nodai grwpiau eiriolaeth a darparwyr fod yr ychydig ddata sydd ar gael yn awgrymu bod cannoedd o bobl yn mynd yn amddifad bob blwyddyn.

Ni fydd angen llety ar bob un wrthodir ac na all fanteisio ar ddarpariaeth Adran 4; bydd y rhan fwyaf yn aros gyda theulu a ffrindiau, er bod y trefniadau anffurfiol hyn yn rhy aml yn ecsbloetio pobl a/neu'n anodd i gymunedau eu cynnal os nad oes gan deulu lawer o fodd (fel yr amlygwyd eisoes yn yr adborth gan bobl sy'n ceisio noddfa). Mae hefyd yn anos sicrhau bod pobl yn manteisio ar wasanaethau a chyngor mewnfudo da.

Y nifer uchaf a gartrefwyd oedd pan gynyddodd nifer y gwestywyr a ddaeth i'r adwy o ganlyniad i argyfwng ffoaduriaid Syria. Credai rhai y gallai dinasyddion ag ewyllys da tuag at bobl sy'n ceisio noddfa fod wedi trosglwyddo eu hadnoddau i gefnogi'r Cynllun Ailsefydlu Syriaid.

Mae gwestywyr yn debycach o fod eisiau gwestya menywod, ond mae mwy o geiswyr lloches gwrywaidd ac efallai na fydd pobl ag anghenion dwys penodol yn addas ar gyfer gwestya. Er enghraifft, soniodd y gweithiwr Home4U/ShareDYDD am ddyn byddar ac un arall ag epilepsi a allai reoli eu cyflyrau yn y tŷ Home4U a rennir, ond ni fyddai wedi bod yn briodol eulleoli gyda gwestywyr.

Ychydig o dai a rennir sydd ar gael ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd yng Nghymru; dim ond y cynllun a weithredir gan Home4U. Ni lwyddodd ymgais yn Abertawe i sefydlu cynllun partneriaeth yn cynnwys grŵp cymorth lloches a CT. Nododd rhai y gall hefyd fod yn anodd i rai pobl rannu. Rhaid i'r rhan fwyaf o bobl rannu mewn llety NASS, heb fod yn brofiad hapus bob amser.

Dadleuodd sawl un y byddai llai o gyni pe bai cyrff statudol neu rai a gomisiynwyd/gontractiwyd i ddarparu gwasanaethau a gyllidir yn gyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol (gweler isod).

**Gwestya a'r posibilrwydd o'i ddatlygu**

Mae’r cynlluniau gwestya yn eiddgar i ddatblygu eu gallu, ond mae arnynt angen mwy o adnoddau i wneud hyn. Bu trafodaethau, ac ymddengys bod archwaeth gyffredinol am weithredu ar lefel de Cymru er mwyn datblyg ymhellach y cynlluniau gwestya sy’n bod yng Nhaerdydd ac Abertawe yn ogystal â sefydlu mwy o allu yng Nghasnewydd.

Fe’n hysbyswyd tuag at ddiwedd ein cyfnod ymchwil am gynllun gwestya anffurfiol yn Wrecsam a gefnogir gan gymrodoriaeth Gristnogol ac rydym wedi rhoi’r grŵp mewn cysylltiad â Housing Justice Cymru sydd am archwilio sut y gallant elwa ar wybodaeth arbenigol cynllun gwestya Housing Justice yn Llundain er mwyn cyfrannu yng Nghymru.

Roedd cyrff sector cyhoeddus am sicrwydd bod polisïau a gweithdrefnau diogelu digonol ar waith. Nododd y ddau broject gwestya cyfansoddedig fod eu hymwneud â NACCOM wedi eu cefnogi i ddatblygu dulliau mwy ffurfiol o fynd i’r afael â diogelu a meysydd polisi a phroses hanfodol eraill.

**Y posibilrwydd o ddatblygu tai a rennir**

Cytunai’r mwyafrif yr ymgynghorwyd â nhw y byddai mwy o dai i’w rhannu yn helpu i ddiwallu angen, yn cynnwys cynnig opsiwn i bobl anaddas ar gyfer gwestya.

Bu trafodaeth ynglŷn â thai’n cael eu cynnig ar gyfer anghenion tymor-byrrach. Fodd bynnag, mae hyn yn groes i’r adborth gan y rhai sy'n ymwneud â chynlluniau gwestya, ac yn arfer atgyfeirio atynt, h.y., bod gwestya yn gweithio'n well o’i gynnig fel opsiwn tymor-byr (hyd yn oed os yw rhai gwesteion yn aros yn hwy wedi i berthynas ymffurfio), a bod angen opsiynau eraill ar gyfer yr achosion (rhy niferus o lawer) sy'n cymryd mwy na 3 – 6 mis i'w datrys.

Mynychodd pedair cymdeithas tai gyfarfod i drafod anghenion llety a chymorth ceiswyr lloches a wrthodwyd a modelau tai ac integreiddio ar gyfer ffoaduriaid, gyda'r olaf yn ganolbwynt i broject arall a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a gyflawnwyd gan Tai Pawb. Daeth y cyfarfod hwn i'r casgliad bod lle i gymdeithasau tai gyfranogi mewn datblygu modelau sy'n diwallu anghenion y ddau grŵp (y modelau cymysg a ddisgrifir yn Adran 5) yn ogystal â'r rhai sy'n diwallu anghenion dim ond un o'r grwpiau. Fel yr amlinellwyd yn Adran 5, ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn, sefydlwyd trefniant rhwng Home4U a CT Wales and West a fydd yn darparu dwy uned dwy-lofft a rennir i ddarparu llety ar gyfer pedwar ceisydd lloches a wrthodwyd ar y tro. Mae CT Wales and West yn gobeithio y bydd eu hymrwymiad nhw yn annog CTau eraill i wneud trefniadau tebyg.

Nododd darparwyr tai a digartrefedd eraill sy'n gweithredu yng Nghaerdydd ac Abertawe na allodd fynychu’r cyfarfod uchod bod archwaeth ymhlith cymdeithasau tai i gyfranogi. Mae Tai Pawb yn bwrw ymlaen i archwilio ymhellach fodelau tai ac integreiddio ac mae’n awyddus i edrych ar ffyrdd y gall ddatblygu dull Cymreig o fynd ati tebyg i ‘The Migrant Pledge’. Nododd cynghorydd Shelter Cymru mai ychydig iawn o bobl â DHCCC y byddent yn eu gweld a bod hynny, mae’n debyg, am na fyddent yn gwybod i ble i atgyfeirio pobl heblaw am lochesi nos lleol y cyfaddefai nad oeddent bob amser yn addas.

Yn ddiweddar, cytunwyd a chyd-gyhoeddwyd nodyn ymgynghorol gan Gynghrair Ffoaduriaid Cymru a Llywodraeth Cymru, wedi ei gyfeirio at staff gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn egluro bod plant mewn angen ac oedolion diymgeledd, hyd yn oed rhai â DHCCC, yn dod o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.[31] Efallai y bydd yn rhaid iddynt groesi trothwy ar gyfer cefnogaeth o dan asesiad llesiant ac, i rai â DHCCC, trothwy o dan asesiad

[31] Gweler nodyn 2.



DRAFT

hawliau dynol hefyd. Yn ystod yr ymgynghori ar gyfer yr ymchwil hon, nododd grwpiau allanol yr ymgynghorwyd â nhw a llawer o unigolion o fewn awdurdodau lleol ddiffyg eglurdeb ac arfer gwael wrth asesu anghenion pobl o dan y ddeddfwriaeth hon. Mynegodd darparwyr llety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd rwystredigaeth nad yw pobl ag anghenion dwys iawn hyd yn oed yn cael eu hasesu ar brydiau. Ni ellir diwallu anghenion dwys iawn o fewn y ddarpariaeth wirfoddol, brin ei hadnoddau y maent yn ei rhedeg ac a gynhelir gan ewyllys da. Fodd bynnag, pwysleisiai rhai y gall hyn fod yn wir am bobl ddigartref eraill hefyd a bod adnoddau ar gyfer gofal cymdeithasol yn brin iawn, gan rybuddio yn erbyn mesurau y gellid eu dehongli fel triniaeth ffafriol i bobl â DHCCC. Bwriad y nodyn diweddar y cyfeirir ato uchod yw dod â mwy o eglurdeb a chysondeb i arfer ledled Cymru.[32]

## 6.3. Yr hyn a ddisgwylir gan y Cynllun Cenedl Noddfa

Cymerodd y rhan fwyaf o grwpiau cymorth lloches a ffoaduriaid ran yn yr ymgynghoriad am y Cynllun yn 2017/18. Roedd yna ymdeimlad o frys ynglŷn â bwrw ymlaen â chyflawni yn hytrach na chomisiynu ymchwil bellach. Mynegwyd pryder gan rai pobl y gallai adnoddau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer datblygu gallu i ddarparu mwy o lety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd gael eu colli i anghenion eraill pe bai gormod o oedi cyn symud i weithredu.

Y tu allan i'r sector arbenigol, ychydig iawn o bobl oedd wedi clywed am y Cynllun Cenedl Noddfa. Fodd bynnag, nodwyd agwedd bositif tuag at ystyried sut y gallai cymdeithasau tai, a grwpiau ffydd yn enwedig, helpu i gyflawni amcanion y Cynllun, yn cynnwys trwy gyfrannu neu brydlesu stoc ar rent fforddiadwy. Ceir y positifrwydd hwn er gwaethaf pwysau eraill; er enghraifft, cymdeithasau tai dan bwysau mewn perthynas â pholisïau a strategaethau eraill fel yr adolygiad Tai Fforddiadwy a gorfod cyfrannu mwy at ddatrys digartrefedd trwy ddulliau Tai yn Gyntaf; eglwysi’n gorfod defnyddio eu hasedau i gefnogi gweithgareddau crefyddol a chynnal a chadw eglwysi.

## 6.4. Yr hyn a ddisgwylir gan yr astudiaeth ddichonoldeb

Roedd rhai aelodau o'r SeinFwrdd yn gobeithio y byddai'r astudiaeth yn nodi modelau penodol a’u cost, y gellid eu datblygu gan ddarparwyr parod. Archwilir y dyhead hwn yn yr adran olaf, gydag argymhellion ar gyfer y camau nesaf.

**I grynhoi:** Roedd a wnelo trwch llethol y negeseuon o'r ymgynghoriad â phobl sy'n ceisio noddfa ag angen eithafol, ymdeimlad o limbo, ond awydd cryf i wneud cyfraniad. Roedd yna ddiffyg gwybodaeth am ganlyniad achosion mewnfudo, sy’n destun pryder, a diffyg hyder yn y broses; efallai ofn cael gobeithion wedi'u chwalu. Roedd gwybodaeth am gynlluniau llety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd yn brin, ac eithrio ymhlith y rheini a gawsai eu cartrefu mewn cynlluniau ac a oedd yn bositif ynglŷn â’r rhain. Roedd yr adborth gan y nifer fach o bobl a oedd wedi defnyddio llochesau nos yn negyddol ar y cyfan, ac eithrio lloches Ymddiriedolaeth Boaz ym Manceinion a ddefnyddiwyd gan un person, ac sydd yn benodol ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Mynegwyd pryderon ynghylch diogelu a pharu mewn cynlluniau gwestya, a rhannu a rheoli anghydfod mewn cynlluniau tai. Nodwyd mai aros gyda ffrindiau a pherthnasau oedd y dull mwyaf cyffredin o ymdopi, ond credai pobl hefyd bod yr opsiwn hwn yn anghynaliadwy.

Roedd grwpiau cymorth ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn poeni am y bwlch rhwng maint yr angen a’r ddarpariaeth a'r gallu i wneud mwy. Heblaw am Home4U, ychydig o grwpiau a ymddangosai’n awyddus i ysgogi a rheoli projectau llety ac eithrio gwestya. Mae'n bosibl y

DRAFT

[32] id.

dylanwadwyd ar yr amharodrwydd ymddangosiadol hwn gan ymgais aflwyddiannus gan grŵp o Abertawe i ddatblygu cynllun ar y cyd â chymdeithas dai rai blynyddoedd yn ôl. Roedd y cynllluniau gwestya presennol yn eiddgar i ymuno â'i gilydd i adeiladu gallu. Ar hyn o bryd, yr unig ddewisiadau llety yng Nghasnewydd a Wrecsam yw trefniadau anffurfiol.

Roedd grwpiau a fu'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ers dwy flynedd i ddatblygu ymateb yn awyddus i weld ymdeimlad o frys ynghylch buddsoddi mewn cynyddu gallu er mwyn lliniaru amddifadedd yn unol ag amcan datganedig y Cynllun Cenedl Noddfa (CN). Roedd mynediad i lochesi nos, a'u haddasrwydd, ac asesiadau bregusrwydd yn destun pryder iddynt.

Y tu allan i'r sector cymorth lloches a ffoaduriaid, mae diffyg ymwybyddiaeth am y cynllun CN, ond nodwyd parodrwydd i archwilio pa gyfraniad y gall cymdeithasau tai a rhwydweithiau eglwysig ei wneud, yn cynnwys o dan adain cyrff ymbarél fel Cartrefi Cymunedol Cymru, Tai Pawb a Housing Justice Cymru trwy ei raglen Ffydd mewn Tai Fforddiadwy. Y gobaith yw y bydd y trafodaethau llwyddiannus rhwng Home4U a CT Wales and West, a gynhaliwyd o ganlyniad i'r project hwn, a thra roedd yn mynd rhagddo, yn sbarduno cymdeithasau tai eraill i archwilio trefniadau tebyg gyda sefydliadau cymorth ceiswyr lloches a ffoaduriaid a bwrw ymlaen â nhw, er y gall terfynau ar allu'r sefydliadau lyffetheirio graddfa hyn i ddechrau.

Roedd swyddogion awdurdodau lleol â chyfrifoldeb am faterion ymfudo yn ymwybodol o'r Cynllun, maint yr angen a rhwydweithiau amddifadedd lleol, ond nid oedd y rhai a oedd yn arwain ar dai fforddiadwy a gwasanaethau digartrefedd mor wybodus am y Cynllun a'i weithrediad. Roedd diffyg cyswllt a chydlynu effeithiol ynghylch cyfeirio ac atgyfeirio rhwng projectau statudol a gwirfoddol, a dealltwriaeth bod y broses o asesu bregusrwydd pobl â DHCCC yn dameidiog. Ar y llaw arall, mynegai staff awdurdodau lleol bryderon ynglŷn â chamddealltwriaethau a phroblemau canfyddiad yn y sector gwirfoddol a olygai bod pobl sy'n ceisio noddfa yn aml yn derbyn cyngor gwael. Cydnabu'r un sefydliad cyngor digartrefedd y siaradwyd ag ef, Shelter Cymru, nad oedd ganddo wybodaeth dda am sut i gynghori ceisydd lloches a wrthodwyd a dywedodd y gweithiwr y carai weld gwell gwybodaeth am ddarpariaeth wedi ei rhannu'n ehangach. Roedd swyddogion tai a digartrefedd awdurdodau lleol yn barod i ystyried cefnogi cynlluniau a fyddai'n diwallu anghenion tai ac integreiddio ffoaduriaid, a allai olygu bod awdurdodau lleol ar eu hennill y naill ffordd a'r llall.

# 7. GWNAED YNG NGHYMRU: CRYNODEB, CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

## 7.1. Trosolwg ar ein dull o fynd ati a'n hargymhellion

Mae'r astudiaeth ddichonoldeb hon yn un o nifer o wahanol ddarnau o waith a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn gweithredu ei Chynllun Cenedl Noddfa, yn enwedig yr amcan o liniaru amddifadedd ceiswyr lloches a wrthodwyd, o fewn terfynau polisi mewnfudo Llywodraeth y DU.

Mae cyd-destun deddfwriaethol a pholisi y gwaith hwn yn gymhleth, yn cynnwys meysydd polisi datganoledig a chanoledig. Mae'r Cynllun Cenedl Noddfa o gymorth o safbwynt diffinio meysydd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ynddynt.

Y cyfarwyddyd penodol ar gyfer yr astudiaeth oedd archwilio sut y gellir ehangu modelau llety presennol yng Nghymru a sefydlu rhai newydd. Defnyddiwyd y saith model o lety a adolygwyd gennym mewn adroddiad cychwynnol (gweler Adran 5) fel fframwaith ar gyfer ymgynghori â darparwyr gwasanaeth ac eiriolwyr perthnasol (gweler Atodiad 2) a 30 o bobl sy'n ceisio noddfa.

Nid oedd gwerthuso'r ddarpariaeth bresennol yn rhan o'r cyfarwyddyd, ond archwiliwyd anghenion a gallu i sicrhau bod ein hargymhellion ar sail gadarn, ac yn ymarferol. Rydym hefyd wedi crybwyll adnoddau eraill sydd eu hangen er mwyn atal amddifadedd a/neu gefnogi ffyrdd allan ohono, a chynigir argymhellion ar sut y gallant rhyngweithio â modelau llety, yn enwedig mynediad i gyngor ar fewnfudo, eiriolaeth a chynrychiolaeth o ansawdd da.

Nid oes ffigurau manwl-gywir ar gael am wir faint yr angen; mae hyd yn oed yr amcangyfrifon yn amrywio'n fawr. Awgryma'r ffigurau gan sefydliadau gwirfoddol bod cannoedd o geiswyr lloches a wrthodwyd yn mynd yn amddifad bob blwyddyn ac amcangyfrifodd astudiaeth SJR o Amddifadedd yn y DU (2018) bod dros 5,000 o geiswyr lloches amddifad yng Nghymru. Gall amddifadedd ddigwydd ar unrhyw adeg yn y broses o geisio loches. Disgrifir effeithiau niweidiol difrifol amddifadedd yn yr adroddiad gan rai o'r rhai yr ymgynghorwyd â nhw.

Daethom i'r casgliad:

- Nad yw'n bosibl nodi model llety penodol sy'n gweithio mewn man arall, mewn lleoliad a chyd-destun gwahanol, a'i atgynhyrchu'n union yr un fath yng Nghymru lle nad yw'r un sefydliadau na'r un gallu yn bodoli. Yn hytrach, argymhellir buddsoddi mewn partneriaethau a gwaith i feithrin gallu sy'n elwa ar gryfderau ac ymrwymiad sefydliadau allweddol sy'n gweithredu ym maes cymorth lloches a ffoaduriaid a'r sectorau tai, digartrefedd a chyhoeddus, yn enwedig awdurdodau lleol;
- Bod achos o blaid gweithredu ledled Cymru i ddatblygu partneriaethau traws-sector effeithiol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod gwaith datblygu cenedlaethol yn elwa ar brofiad gwaith lleol gydag amddifadedd ac yn digwydd mewn partneriaeth â'r projectau hyn ar lawr gwlad sydd â gwybodaeth arbenigol amhrisiadwy, grwpiau o wirfoddolwyr a rhwydweithiau lleol, yn ogystal â ffyrdd effeithiol o ymgysylltu â cheiswyr lloches, a'i fod yn meithrin gallu'r rhain;
- Y dylid blaenoriaethu'r mentrau hynny a all ddarparu'r nifer fwyaf o leoedd gwely o fewn terfyn amser eithaf byr;
- Bod rhaid i ddarparu llety fod ynghlwm â cyngor mewnfudo a chynrychiolaeth o ansawdd da, a chefnogaeth i fanteisio arno;
- Bod cydgysylltu cyffredinol ac chyd-atebolrwydd yn hanfodol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda ac i osgoi dyblygu. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried bod Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi sicrhau cyllid yn ddiweddar gan Sefydliad Oak ar gyfer project tai a bod

Oasis, yng Nghaerdydd, hefyd yn ceisio cyllid a phartneriaid ar gyfer project i ddiwallu anghenion llety eu cleientiaid.

### 7.2. Casgliadau allweddol a throsolwg ar yr argymhellion

Mae'r **Cynllun Cenedl Noddfa** yn darparu fframwaith a galwad i weithredu yng Nghymru. Fodd bynnag, ac eithrio asiantaethau cymorth lloches a ffoaduriaid, ychydig o bobl y cyfwelwyd â nhw yn y sectorau gwirfoddol a thai, sefydliadau ffydd neu gyrff cyhoeddus oedd yn gwybod llawer amdano. Roedd ymwybyddiaeth yn y sector cyhoeddus yn uwch nag yn y sector tai gwirfoddol ond ni nodwyd unrhyw ymgysylltu rhagweithiol. Fe'n calonogwyd gan yr ymrwymiad a fynegwyd o fewn cymdeithasau tai a rhwydweithiau eglwysig i ganfod ffyrdd y gallant gefnogi amcanion y Cynllun, yn enwedig o ran tai a gwybodaeth arbenigol gysylltiedig.

Archwiliwyd **modelau llety** a ddatblygwyd mewn rhannau eraill o'r DU a'u cymhwysiad posibl i Gymru. Amlinellir saith model a chanfuwyd yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, mai aros gyda theulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymunedol yw'r prif fath o lety, ond mewn llawer achos nid yw hyn yn gynaliadwy, a gall roi pobl mewn perygl o gael eu hecsbloetio.

Y modelau llety a gynigiwn ar gyfer datblygu neu sefydlu pellach yng Nghymru yw:

- Gwestya, gan fuddsoddi adnoddau ledled de Cymru i gydlynu a gwella darpariaeth bresennol ShareDYDD yng Nghaerdydd a Share Tawe yn Abertawe, yn ogystal â chynyddu gwestya yng Nghasnewydd (lle nad oes ond dau westywr ar hyn o bryd); sefydlu trefniadau gwestya ffurfiol yn Wrecsam; a chefnogaeth i sefydliadau reoli diogelwch yn effeithiol;
- Tai a rennir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd, gan adeiladu ar sail gwaith Home4U yng Nghaerdydd (bellach yn gweithio gyda CT Wales and West) trwy gynyddu'r cyflenwad o eiddo a ddarperir ar sail ddyngarol /rhent pitw fel ym model Hope Projects yn Birmingham;
- Tai a rennir yn defnyddio model busnes sy'n cynnwys stafelloedd ar gyfer preswylwyr sy'n talu (ffoaduriaid i ddechrau) yn ogystal â rhai ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd. Mae modelau perthnasol yn Lloegr yn cynwys Action Foundation, Open Door, Ymddiriedolaeth Boaz, Ymddiriedolaeth Arimathea a Praxis yn Llundain. Gellid datblygu modelau eraill yn y dyfodol sy'n cynnwys grwpiau eraill sydd naill ai'n gallu talu rhent, neu â cyrff statudol sy'n gorfod gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn contractio sefydliadau i wneud hynny, megis tai a chymorth ar gyfer 'Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches ' a/neu deuluoedd â DHCCC lle mae 'plant mewn angen'. Mae Grant Cymorth Tai ar gael mewn rhai achosion a/neu mae llety wedi'i ddynodi ac felly wedi'i eithrio o derfynau Lwfans Tai Lleol;
- Mynediad i lety brys, h.y. llochesau nos sy'n hygyrch i bobl sy'n ceisio noddfa;
- Mynediad i ddarpariaeth sector cyhoeddus o dan bwerau perthnasol fel y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Gwahaniaeth allweddol rhwng Lloegr (lle y digwyddodd llawer o'r arloesi â modelau llety ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd) a Chymru yw maint a gallu. Nid yw'r mathau o sefydliadau (gweler Atodiad 5) sydd wedi tyfu mewn ardaloedd gwasgaru yn Lloegr ac wedi datblygu eu cynlluniau tai a rennir o 10 i 30 eiddo, yn bodoli yng Nghymru. Mae llawer o'r sefydliadau hyn wedi bod wrthi am gyfnod tebyg i brojectau amddifadedd yng Nghymru, ond maent wedi ehangu'n sylweddol trwy fentro, magu hyder a thyfu'n fwy medrus yn y gwaith o ddarparu tai a rhwydweithio'n egnïol o fewn rhwydwaith cynyddol NACCOM.

Mae manylion y modelau a weithredir gan aelodau NACCOM yn amrywio; mae gan un, er enghraifft, gytundeb â chymdeithas tai leol i ddarparu rheolaeth tai ar gyfer ei 20 eiddo, yn cynnwys casglu rhenti; gwnaeth un arall ei swyddogaeth dai yn fwyfwy proffesiynol trwy benodi rheolydd â phrofiad

maith mewn rheolaeth tai. Maent i gyd wedi elwa ar arweinwyr sy'n ysgogi datblygu ac adeiladu gallu; nid ar raddfa fawr, gan fwyaf, ond â ffocws ar dai. Yn ystod yr ymgynghoriad ar gyfer yr ymchwil hon, ymddangosai gallu projectau ffoaduriaid a chymorth lloches yng Nghymru yn gyfyngedig o ran datblygu projectau o'r fath, yn cynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar anghenion ceiswyr lloches a wrthodir.

Mae angen **pecyn cymorth cyfannol** i liniaru effaith amddifadedd (gweler Adran 3) a helpu pobl i ddod o hyd i ffordd allan. Mae gweithredu ac adnoddau i gefnogi'r elfennau allweddol eraill hyn o'r ddarpariaeth yn hanfodol os yw modelau llety i fod yn rhan o lwybr allan o amddifadedd yn hytrach na warysau ar gyfer pobl sy'n dal yn amddifad. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cefnogi anghenion sylfaenol â nwyddau, bwyd, defnyddiau ymolchi ac ati a/neu arian parod;
- Cefnogaeth i deithio i hyrwyddo eu hachos, ond hefyd gweithgareddau ystyrlon fel dysgu Saesneg a chyfleoedd eraill sy'n hyrwyddo lles a chreu amgylcheddau gwestya a thai a rennir iachach;
- Cefnogaeth emosiynol.

Gyda'i gilydd, mae'r grwpiau cenedlaethol mwy o faint a'r rhai llai â gwreiddiau lleol yn cyllido ac yn codi arian ar gyfer gwahanol elfennau'r pecyn. Mae mannau galw-heibio ym mhob un o'r pedair canolfan wasgaru lle caiff pobl fwyd a nwyddau am ddim a help a chefnogaeth. Mae'r rhain yn aml yn allweddol o ran atgyfeirio i lety. Yng Nghaerdydd, mae sawl sefydliad allweddol yn rhedeg clinig amddifadedd wythnosol ac wedi datblygu system rhannu data fwy effeithiol ac atgyfeirio cydlynol ar gyfer y rhai sydd fwyaf o angen llety. Yn sail i gynlluniau tai a chymorth, ceir cydnabyddiaeth gynyddol bod angen polisïau ac arfer diogelu cadarn.

Mae **mynediad at gyngor mewnfudo, eiriolaeth a chynrychiolaeth o ansawdd da** o'r pwys mwyaf. Mae aelodau NACCOM wedi canolbwyntio fwyfwy ar sut i ddatblygu'r ddarpariaeth hon, trwy bartneriaeth neu ddarpariaeth uniongyrchol: er enghraifft, Ymddiriedolaeth Boaz a arferai gyflogi cyfreithiwr rhan-amser, ond sydd bellach yn gweithio ar y cyd ag Uned Cyngor Mewnfudo Manceinion Fwyaf; Hope sy'n cyflogi cyfreithiwr mewnfudo rhan-amser; a DASS yn yr Alban a gychwynnodd gyda phroject i gydlynu'n well a chyflymu'r broses o ddatrys achosion, ac sy'n gweld tai yn hanfodol i lwyddiant, yn enwedig mewn achosion â theilyngdod ond a allai gymryd amser hir i'w datrys.

**Casgliadau yn canolbwyntio ar allu yng Nghymru**

- **Gwestya**: Mae Share Tawe a ShareDYDD wedi bodoli ers rhyw ddegawd ac wedi goroesi a datblygu gydag adnoddau a gallu cyfyngedig iawn. Mae cyllid diweddar ar gyfer staff rhan-amser ac ymgysylltiad rhagweithiol â NACCOM wedi arwain at bolisïau a gweithdrefnau cliriach ar, er enghraifft, diogelu, a dull cliriach o ddefnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi pobl, gan gynnwys helpu pobl i fynd i'r afael â'u hachos mewnfudo trwy weithwyr cyswllt gwirfoddol ShareDYDD (a benodir ar gyfer pob gwestai) ac amser gweithiwr Share Tawe. Mae'r ddau broject gwestya yn treulio amser anghymesur yn ceisio codi arian, ond mae ganddynt ill dau syniadau ar gyfer datblygu. Mae ShareDYDD yn rhannu gweithiwr gyda'r project tai a rennir, Home4U a bu'n archwilio sut y gall gynyddu ei allu trwy weithio gyda'r elusen letya Brydeinig, Refugees at Home. Mae gan Share Tawe gynlluniau i fynd yn bartner gyda CT i ddatblygu cynllun ffoaduriaid gyda rhai lleoedd gwely am ddim ar gyfer ceiswyr lloches amddifad. Gall cysylltu gwestya a phrojectau thai adeiladu ar sail rhwydweithiau atgyfeirio a chefnogi lleol, a mynediad at gyngor mewnfudo. Daethom ar draws sawl project anffurfiol iawn hefyd:

- **Rhannu tai**: Dim ond un project tai a rennir, a redir gan Home4U, sydd yng Nghymru. Yn ddiweddar, cyfnewiodd hwnnw eiddo pedair-llofft y bu'n rhaid iddo ei roi yn ôl am ddau eiddo a gyfrannwyd gan CT Wales and West am gyfnod di-rent. Mae'n anodd cynnal model sy'n dibynnu'n llwyr ar roddion anffurfiol o eiddo, ond y gobaith yw y bydd y bartneriaeth â CT Wales and West yn ysgogi mwy o CTau i wneud ymrwymiad tebyg. Fe wnâi wahaniaeth mawr pe bai dim ond llond dwrn o CTau yn cyfrannu sawl eiddo y flwyddyn i gefnogi llwybrau allan o amddifadedd. Fel y projectau gwestya, mae Home4U wedi gweithredu am lawer o'i 10 mlynedd o fodolaeth gydag adnoddau dynol sydd wedi'u taenu'n denau, ond yn ddiweddar bu'n rhannu gweithiwr, a gyflogir ganddo, gyda'r project gwestya ShareDydd;
- **Darparu a rheoli tai a swyddogaeth projectau ffoaduriaid a chymorth lloches lleol:** Mae gallu elusennau lletya neu elusennau cymorth lloches a ffoaduriaid i ymgymryd â swyddogaethau datblygu a rheoli tai yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r Gap yng Nghasnewydd yn archwilio gwaith gyda thai a chredwn fod angen rhoi prawf ar yr awydd i ymgysylltu'n llawnach fel rhan o'r gwaith datblygu a argymhellir. Mae'n synhwyrol cysylltu'r rhwydweithiau atgyfeirio a'r arbenigedd cefnogi sy'n bod eisoes â darparwyr tai a all gyfrannu eiddo neu ddatblygu model economi-gymysg/menter cymdeithasol a chyflawni swyddogaeth rheoli tai;
- **Rheolaeth tai â chymorth:** Ymddengys bod rhai sefydliadau cymorth lloches a ffoaduriaid yn barod i weithredu fel pont rhwng modelau tai eraill, fel tai a rennir ar gyfer preswylwyr sy'n talu a rhai â DHCCC. Mewn achosion o'r fath, gellid datblygu model partneriaeth sy'n eglur ynglŷn â darparu gwasanaethau tai â chymorth ar gyfer preswylwyr sy'n talu a'r gefnogaeth sydd ei hangen i helpu pobl allan o amddifadedd, ceiswyr lloches a wrthodwyd o bosib, yn cynnwys eu cefnogi i fanteisio ar gyngor mewnfudo.  Roedd  model arfaethedig Share Tawe a chymdeithas dai sy'n gweithredu yn Abertawe yn rhagweld gwasanaethau tai â chymorth ac integreiddio wedi eu darparu gan y gymdeithas tai ar gyfer ffoaduriaid y telir am eu llety gan Fudd-dal Tai, cefnogaeth fel y bo'r angen gan yr awdurdod lleol, a Share Tawe yn gofalu am geiswyr lloches a wrthodwyd. Byddai angen archwilio'r defnydd o gyllid Grant Cymorth Tai ac eithriadau ar y cyd ag awdurdodau lleol, sy'n ymddangos yn agored i drafodaeth;
- **Llochesau nos:** Nid adolygwyd gallu llochesau nos ond nodwyd nad ydynt, fel rheol, yn lleoedd y teimla ceiswyr lloches a wrthodwyd (neu ffoaduriaid) yn ddiogel neu'n gysurus ynddynt. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod lochesi nos yn amrywio, a chredid y gallai'r amgylchedd fod yn llai estron lle darperir podiau (gofodau unigol) ac/neu mewn llochesau grwpiau ffydd sy'n gweithredu polisi 'sych' (dim alcohol, dim cyffuriau). Ni phrofwyd y canfyddiad hwn ac yn gyffredinol mae'n ymddangos bod llochesau o dan bwysau dybryd. Mewn rhai mannau yn Lloegr, ceir llochesau nos yn benodol ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd, er enghraifft, lloches Boaz ym Manceinion;
- **Cyngor, eiriolaeth a chefnogaeth mewnfudo:** Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi yn Asylum Justice sy'n darparu cynrychiolaeth gyfreithiol ac mae'n cyllido'r Rhaglen Hawliau Lloches, partneriaeth o saith sefydliad a gydlynir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru i gefnogi cyngor OISC Lefel 1 ym mhob un o'r pedair ardal wasgaru. Mae Cyngor Ffoaduriaid Cymru wedi gwneud gwaith datblygu i wella effeithlonrwydd ei brosesau ymgeisio Adran 4 sy'n lleihau'r amser y bydd pobl yn amddifad ac ag angen llety am ddim. Mae'r projectau gwestya wedi defnyddio eu hadnoddau staffio gwirfoddol a rhan-amser eu hunain i sicrhau eu bod yn gallu darparu rhywfaint o gefnogaeth eiriolaeth ar gyfer eu preswylwyr; hebddo, cânt fod pobl yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu, yn cynnwys cydosod, didoli a chynnal y math o dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen i gefnogi eu hachos. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y math hwn o gymorth eiriolaeth;

- **Cyngor a chymorth gan awdurdodau lleol:** Mae gwasanaethau rheng-flaen awdurdodau lleol sy'n delio â chynghori ac asesu, ym meysydd digartrefedd ac opsiynau tai a gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf, oll o dan bwysau mawr oherwydd angen cynyddol ac effaith llymder ar wariant cyhoeddus. Mae hyn yn effeithio ar bob grŵp mewn angen, nid dim ond ceiswyr lloches a wrthodwyd, ond mae yna broblemau diffyg gwybodaeth arbenigol a chanllawiau annigonol perthnasol i achosion pobl â DHCCC. Mae nodyn diweddar Cynghrair Ffoaduriaid Cymru a Llywodraeth Cymru am gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnig eglurhad defnyddiol i gywiro rhai camdybiaethau cyffredin ar gyfer staff perthnasol, a bwriedir rhoi hyfforddiant ac arweiniad pellach ar asesu a chefnogi pobl â statws DHCCC;[33]

- Mae **cymdeithasau tai** o dan bwysau o ran eu swyddogaeth a'u defnydd o adnoddau, er enghraifft, ffocws yr adolygiad tai fforddiadwy ar gynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy sy'n cael eu hadeiladu a phwysau i fynd i'r afael â digartrefedd ehangach trwy'r dull Tai yn Gyntaf o fynd ati a thrwy fesurau ataliol. Serch hynny, mae ganddynt stoc tai yn y pedair ardal wasgaru ac arbenigedd mewn rheoli tai. Fe'u hysgogir gan ymdeimlad o bwrpas cymdeithasol ac ni chaiff eu stoc ei ystyried yn 'cronfa gyhoeddus' oni bai ei fod wedi'i ddyrannu trwy'r gofrestr tai gyffredin (yn wahanol i stoc sy'n eiddo i'r Cyngor);

- **Grwpiau ffydd**: Mae helpu pobl mewn angen, yn enwedig y mwyaf diymgeledd sydd y tu allan i'r ddarpariaeth statudol, hefyd wrth wraidd cenhadaeth llawer o grwpiau ffydd. Eglwysi Cristnogol sydd wedi datblygu'r cydysylltu gorau trwy gyfrwng Housing Justice Cymru sy'n cydlynu llawer o lochesi nos grwpiau ffydd sy'n cyfranogi yn y cynllun lloches gaeaf ledled Cymru a hefyd y project ffydd mewn tai fforddiadwy a gyllidir gan Sefyliad Nationwide;

- **Cydlynu**: Cydlynodd Cynghrair Ffoaduriaid Cymru syniadau strategol am achosion, effaith a ffyrdd o ddatrys amddifadedd yn 2017. Gyda gweithgor bach wrthi'n datblygu dulliau gweithredu allweddol, gweithiodd y Gynghrair yn glòs gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Cynllun Cenedl Noddfa, gan wahodd cyfraniadau grwpiau lleol sy'n rhedeg gwasanaethau fel canolfannau galw-heibio ym mhob un o'r pedair canolfan wasgaru, ac ymgynghori â phobl sy'n ceisio noddfa.

  Cydlynwyd mynediad pobl i'w hawliau trwy'r Rhaglen Mynediad at Hawliau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ac a arweinir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru. Mae elusennau unigol pob ardal wasgaru yn cydlynu eu gwasanaethau galw-heibio ac ati, ond mae eu gallu i wneud hynny yn gyfyngedig. Yn y flwyddyn ddiwethaf, bu gweithiwr rhan-amser ShareDYDD a Home4U yn gweithio gyda phartneriaid eraill, (CFfC, y Groes Goch Brydeinig a phartneriaid iechyd) i gydlynu cyfraniadau i Glinig Amddifadedd Caerdydd a rhannu gwybodaeth. Mae hyn yn sicrhau bod pobl yn glir am anghenion pob un o ddefnyddwyr y clinig, yn cynnwys eu hangen am lety. Caiff anghenion a mewnbwn eu hadolygu mewn cyfarfodydd wythnosol, yn cynnwys pwy sydd â mwyaf o angen unrhyw leoedd gwely sydd ar gael yn Home4U neu drwy ShareDYDD;

- **Archwaeth:** Mae chwant gwneud mwy ar ddarparwyr presennol ac mae grwpiau newydd, yn cynnwys cymdeithasau tai a rhwydweithiau eglwys, yn barod i archwilio pa ran y gallent ei chwarae. Yn benodol, mae ein gwaith wedi hwyluso sgyrsiau am sut y gallai partïon â diddordeb, sydd â thai yn eu meddiant, ddiwallu'r prinder brics a morter a'r wybodaeth arbenigol i'w rheoli.

[33] Gweler Nodyn 2

### 7.3. Polisi a deddfwriaeth

Mae polisi a deddfwriaeth yn amrywio mewn rhai meysydd allweddol, ond mae deddfwriaeth gyfatebol gan Gymru i eiddo Lloegr, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, i gefnogi'r argymhellion a'r modelau a gynigir. Mewn rhai achosion, gellir dadlau bod y tir yn fwy ffrwythlon yng Nghymru nag yn Lloegr, er enghraifft, o ran polisi a chyllid ar gyfer tai â chymorth sy'n dal wedi ei neilltuo yng Nghymru, yn ogystal â bodolaeth y Cynllun Cenedl Noddfa ei hun.

### 7.4. Swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff statudol

Roedd rhwystredigaeth ymhlith y sectorau gwirfoddol, elusennol a/neu grwpiau ffydd nad oedd cyrff sector cyhoeddus yn cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Roedd y meysydd darpariaeth statudol a gaed yn ddiffygiol gan yr eiriolwyr yn cynnwys: darpariaeth dan gontract gan y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am gynghori a chyfeirio; cyfrifoldebau i oedolion bregus a phlant mewn angen o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (ond gweler uchod ynghylch canllawiau perthnasol a gyhoeddwyd ychydig cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn); a chyfrifoldebau i bob person digartref am gynghori a cyfeirio. Mae Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru yn hwyluso trafodaethau ar nifer o faterion allweddol fel tai ac yn cyd-gadeiryddio Fforwm Amddifadedd Cymru gyda'r Groes Goch.

### 7.5. Ymgynghori â phobl â phrofiad uniongyrchol a chefnogi eu cyfranogiad

Mae defnyddio arbenigedd a phersbectif pobl sydd â phrofiad uniongyrchol o'r materion yn ysgogiad canolog i lawer o bolisi a deddfwriaeth newydd yng Nghymru, gan gynnwys y Cynllun Cenedl Noddfa a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Wrth ymgynghori â 30 o bobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru, nodwyd awydd cryf am gyfrannu yn hytrach na bod yn dderbynwyr elusen goddefol. Mae pobl amddifad wrthi'n brwydro yn feunyddiol felly gellir disgwyl y bydd eu cyfranogiad mewn datrys problemau yn naïf. Serch hynny, awgrymwn y dylai dull 'Gwnaed yng Nghymru' o fynd ati ystyried sut y gall darpariaeth rymuso a chynnwys pobl yn hytrach na gwneud iddynt deimlo y dylent fod yn ddiolchgar beunydd.

### 7.6. Argymhellion

Manylir ar naw argymhelliad isod, gan gynnwys tasgau penodol sy'n ofynnol er mwyn gwireddu'r argymhelliad, adnoddau sydd eu hangen, pwy fydd yn arwain ar y cychwyn a phwy arall ddylai fod yn cyfranogi ynghyd â'r amserlen.

**Ynglŷn â'r argymhellion a'r amserlen**

Yn yr argymhellion isod, rydym yn cynnig bod Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau dros gyfnod o ddwy flynedd i gryfhau a/neu ddatblygu:

- Darpariaeth westya bresennol de Cymru a datblygiadau newydd, er enghraifft, yng Nghasnewydd, a datblygiad yn Wrecsam i'w arwain o bosib gan Housing Justice yn adeiladu ar sail ei rwydweithiau o gefnogaeth i bobl ddigartref;
- Tai a rennir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd, yn ogystal â chynlluniau tai cymysg (ceiswyr lloches a wrthodwyd â DHCCC yn cydfyw â thrigolion sy'n talu a/neu breswylwyr a gefnogir o dan rwymedigaethau statudol), gyda Tai Pawb yn cydlynu ar sail ei rwydweithiau tai a chydraddoldeb a Housing Justice Cymru ar sail ei rwydweithiau ffydd a thai fforddiadwy, ond gan gydweithio'n glòs gyda phrosiectau ar lawr gwlad, a thalu am eu gwybodaeth arbenigol, yn enwedig Home4U a Share Tawe.

Bydd gwaith datblygu pellach i'w wneud ar ôl y cyfnod dwy-flynedd a nodir gennym yn ein hargymhellion. Fodd bynnag, ein barn ni yw y dylai gwaith wedi ei ffocysu dros gyfnod o ddwy flynedd alluogi projectau gwestya estynedig a llety a rennir i fod ar sail fwy sefydlog, gyda mwy o allu i ddenu cyllid o fannau eraill, ac yn achos tai a rennir, yn gweithio tuag at gyfradd uwch o hunan-gyllido.

Mae'r argymhellion yn nodi 2020/21 fel blwyddyn gyntaf y 'rhaglen' ddwy-flynedd. Efallai y bydd angen addasu'r amserlen hon yn dibynnu ar sicrhau cyllid/adnoddau i roi'r argymhellion ar waith. Erbyn diwedd dwy flynedd:

- Bydd creu mwy o leoedd gwely wedi cael y flaenoriaeth wrth roi'r argymhellion ar waith;
- Bydd y gallu i reoli sefydliadau cynaliadwy a chynnydd/datblygiad y ddarpariaeth wedi digwydd mewn ardaloedd lle ceir angen a rhywfaint o ddarpariaeth eisoes – Caerdydd ac Abertawe – a darpariaeth newydd wedi'i datblygu yng Nghasnewydd a Wrecsam lle nad oes nemor ddim darpariaeth ar hyn o bryd;
- Bydd gallu trefniadol darparwyr llety i geiswyr lloches a wrthodwyd wedi ei gryfhau a bydd partneriaid newydd wedi ymuno, gan gynnwys partneriaid prif-ffrwd, sydd wedi datblygu rhwydweithiau a'r wybodaeth i ychwanegu gwerth at y gallu a'r arbenigedd sy'n bod eisoes, yn benodol trwy ddarparu eiddo a chynnig ei reoli;
- Bydd y gwaith datblygu yn adeiladu ar sail yr astudiaeth ddichonoldeb hon a'r ymgynghori a oedd yn rhan ohoni ac yn cychwyn yn ddioed; bydd hyn yn cynnwys gosod targedau penodol ar gyfer y gofodau gwely a ddarperir dros y ddwy flynedd;
- Bydd llety a ddatblygir yn ddiogel i breswylwyr a darparwyr/gwestywyr, wedi ei ddarparu ar ôl ymgynghori â phobl sy'n ceisio noddfa, ac ynghlwm â phecyn cyfannol o gefnogaeth gyda llwybr clir allan o amddifadedd trwy allu manteisio ar gyngor mewnfudo o ansawdd da.

Yng nghyd-destun pandemig y Coronafeirws a'r pwysau dwys y mae hyn yn ei roi ar gyllid cyhoeddus ac adnoddau eraill, pe bai'n rhaid blaenoriaethu rhwng y naw argymhelliad, ein barn ni yw y dylid bwrw ymlaen ag Argymhellion 1 a 2 ar godi ymwybyddiaeth a datblygu gwestya fel blaenoriaeth. Fodd bynnag, yn y cyd-destun hwn, ni fyddem yn dymuno gweld colli diddordeb posibl cymdeithasau tai mewn cyfrannu eiddo yn ddi-rent, ond deallwn na fydd project datblygu cyfan efallai'n ymarferol ar unwaith. I weithredu'r holl argymhellion yn llawn, byddai angen cyfanswm o £250,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru dros y cyfnod dwy-flynedd.

| **Argymhelliad 1: Hyrwyddo'r Cynllun Cenedl Noddfa (CN) yn ehangach yn y sectorau tai, digartrefedd a chysylltiedig, yn cynnwys cyllidwyr** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | Nodi personau allweddol i arwain o fewn y sefydliadau a nodir isod<br><br>Paratoi strategaeth negeseua a chyfathrebu<br><br>Manylu ar ffyrdd y gall sefydliadau, grwpiau a phobl weithio ynghyd i liniaru amddifadedd |
| Adnoddau sydd eu hangen | Deunyddiau cyfathrebu<br><br>Amserlen o ddigwyddiadau priodol, cynadleddau ac ati |

| | |
|---|---|
| | Cynigion clir ynglyn â sut y gall pobl helpu: eiddo; cymorth gyda rheolaeth tai a seilwaith sefydliadol; codi arian/rhoddion i brojectau a chronfeydd amddifadedd; gwestya (gweler y tabl yn nes ymlaen yn yr Adran hon am gyfraniadau/swyddogaethau arfaethedig) |
| Sefydliad/unigolyn blaen | Tim Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (LlC) |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Cartrefi Cymunedol Cymru (CCC) fel corff aelodaeth y cymdeithasau tai<br><br>STS Cymru fel y corff proffesiynol ar gyfer tai sy'n cynnwys aelodau staff tai awdurdodau lleol<br><br>Housing Justice Cymru sy'n ysgogi eglwysi i ddarparu llochesau nos a thai fforddiadwy<br><br>Tai Pawb – hyrwyddo cydraddoldeb mewn tai, gan gynnal nifer o raglenni perthnasol<br><br>Shelter Cymru<br><br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) – rhwydwaith digartrefedd<br><br>Cynghrair Ffoaduriaid Cymru (CFfC) sy'n cynnwys grwpiau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid allweddol ac a fu'n gweithio gyda LlC ers 2017 i ddatblygu'r Cynllun Cenedl Noddfa<br><br>Dinas Noddfa sy'n cefnogi rhwydweithiau i hyrwyddo ffyrdd o groesawu pobl sy'n ceisio noddfa, ac sy'n weithredol yn Abertawe a Chaerdydd ac ar lefel genedlaethol<br><br>DPIA a grwpiau eraill i rannu profiadau defnyddwyr y gwasanaethau<br><br>Rhwydweithiau Cyllidwyr Cymru/CGGC i ganfod sut y gall cyllidwyr gefnogi nod y Cynllun o liniaru amddifadedd |
| Amserlen | Tymor y cynadleddau, yn cynnwys cynadleddau CCC a STS Cymru yn 2020/2021. Pennu targedau ar gyfer darparu unedau a gwestywyr ychwanegol yn ystod 2020/2021 |
| Canlyniadau a fwriedir | Darparu mwy o leoliadau gwestya ac unedau tai fel rhan o ymwymiad parhaus<br><br>Sicrhau cefnogaeth gan y sectorau tai a ffydd<br><br>Cefnogi cyfranogaeth a diogelu urddas pobl sy'n ceisio noddfa yr effeithiwyd yn uniongyrchol arnynt<br><br>Cefnogi dull cyfranogol o fynd ati'n rhyngweithiol i geisio ymateb gan bobl sy'n ceisio noddfa (yn cynnwys ceiswyr lloches a wrthodwyd) ac ystyried ffyrdd y gallant gyfranogi yn y broses ddatblygu tai a chyfrannu<br><br>Manteisio ar gefnogaeth ac ewyllys da aelodau staff unigol ac aelodau o grwpiau fel gwestywyr a chyfranwyr posibl |

| **Argymhelliad 2: Datblygu gwestya gan gynnwys meithrin gallu a gwella cynlluniau presennol yn ne Cymru a sefydlu darpariaeth yn Wrecsam** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | 2.1. Cytuno ar gyfarwyddyd gyda ShareDYDD a Share Tawe (a Refugees at Home a grwpiau perthnasol yng Nghasnewydd, y Gap yn enwedig) ar gyfer cydweithio ar broject datblygu i wella'r ddarpariaeth westya ledled de Cymru, yn cynnwys sut y bydd adnoddau project yn cefnogi eu cyfranogiad mewn gwaith datblygu<br>2.2. Sicrhau'r adnoddau i gynnal y lefel bresennol o westya fel y gall gwaith datblygu adeiladu ar y ddarpariaeth hon, datblygu mwy ohoni a sefydlu cynllun cynaliadwyedd<br>2.3. Recriwtio gweithiwr datblygu de Cymru<br>2.4. Ystyried sefydlu rhywfaint o allu yn Wrecsam gyda'r ALl a phrojectau amddifadedd (y Groes Goch Brydeinig a chynghorydd cyfreithiol BAWSO) a thrafod rhan bosibl i Housing Justice Cymru ei chwarae trwy ei rwydweithiau cymorth yn Wrecsam a'i brofiad o broject gwestya Llundain<br>2.5. Sicrhau y gosodir polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith (gweler Argymhelliad 6)<br>2.6. Sicrhau bod datblygu'n canolbwyntio ar gefnogi llwybrau allan o amddifadedd, gyda llety yn un elfen o hyn, ac ymrwymiad clir i ddarparu neu hwyluso mynediad at gymorth arall angenrheidiol ar gyfer llwybr allan o amddifadedd, yn enwedig cyngor da ar fewnfudo (gweler Argymhelliad 7)<br>2.7. Cytuno ar darged o nifer pendol o lefydd dros 2 flynedd y project |
| Adnoddau sydd eu hangen | Grant o £125,000 dros 2 flynedd ar gyfer:<br>• Gwaith datblygu de Cymru gyda gweithiwr llawn-amser neu ran-amser ar gyflog o ryw £30K pro rata (£60K dros 2 flynedd), treuliau a chostau project o £40K i gynnwys grantiau bach i gynnal gallu'r ddarpariaeth bresennol yn ne Cymru<br>• £20K i gefnogi gwaith datblygu yn Wrecsam, gan Housing Justice Cymru o bosib<br>• £5K am waith cynnull, e.e. gan NACCOM, uwchgynhadledd ar genedlaethol ar westya o bosibl |
| Sefydliad/unigolyn blaen | Tim Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru i sicrhau adnoddau |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | ShareDYDD a Share Tawe yn gweithio gyda phrojectau amddifadedd yn Wrecsam, Housing Justice Cymru (Wrecsam) a'r Gap a phrojectau amddifadedd eraill yng Nghasnewydd i arwain y gwaith datblygu<br><br>Arbenigedd NACCOM i ddod â grwpiau at ei gilydd |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Refugees at Home<br><br>Cynghrair Ffoaduriaid Cymru<br><br>Y RhHLl a phrojectau amddifadedd yn Wrecsam a Chasnewydd<br><br>Rhwydweithiau a phartneriaeth ShareDYDD (yng Nghaerdydd) a Share Tawe (yn Abertawe) |
| Amserlen | Cytuno ar grant o £125,000 yn ystod 2020<br><br>Cytuno ar y strategaeth ddatblygu yn ystod 2020 yn cynnwys: hyrwyddo gwestya a recriwtio gwestywyr yn barhaus; gosod targedau/ amserlen ar gyfer recriwtio a chynyddu nifer y gwestywyr ym mhob un o'r pedair ardal wasgaru; gwella seilwaith, yn cynnwys cyswllt â chyngor ar fewnfudo, a diogelu beunyddiol; cynllun codi arian<br><br>Cyfnod datblygu dwy-flynedd |
| Canlyniadau a fwriedir | Mwy o westywyr a gwesteion, â thargedau y cytunwyd arnynt (o bosibl 10 lle gwely ychwanegol yng Nghaerdydd, chwech yn Abertawe, dau yng Nghasnewydd a sefydlu pedwar yn Wrecsam yn ystod y cyfnod )<br><br>Cryfhau gweithio ar y cyd, seilwaith a chynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau gwestya de Cymru, gyda mwy o westywyr yng Nghasnewydd<br><br>Sefydlu gwestya yn Wrecsam<br><br>Diogelwch a sicrwydd ar gyfer y rhai a letyir trwy arfer diogelu cadarn (gweler Argymhelliad 6)<br><br>Darparu gwell llwybrau allan o amddifadedd ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd trwy well mynediad i eiriolaeth, cyngor ar fewnfudo a chynrychiolaeth (gweler Argymhelliad 7) |

| **Argymhelliad 3: Cefnogi'r ddarpariaeth o dai a rennir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd a'i datblygu ymhellach** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | 3.1. Negydu partneriaethau rhwng rhai sydd â'u stoc tai eu hunain a all fod ar gael at ddefnydd elusennol, yn enwedig cymdeithasau tai a grwpiau ffydd, a grwpiau sy'n cefnogi mewnfudwyr amddifad i ddarganfod llwybr allan o amddifadedd<br><br>3.2. Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith (gweler Argymhelliad 6) |

| | |
|---|---|
| | 3.3. Sicrhau bod datblygu'n canolbwyntio ar gefnogi llwybrau allan o amddifadedd, gyda llety yn un elfen o hyn, ac ymrwymiad clir i ddarparu neu hwyluso mynediad at gymorth arall angenrheidiol ar gyfer llwybr allan o amddifadedd (gweler adran 3.4), yn enwedig cyngor da ar fewnfudo (gweler Argymhelliad 7)<br><br>3.4. Rhannu profiad a gwybodaeth am wahanol fodelau trwy NACCOM |
| Adnoddau sydd eu hangen | Grant o £100,000 ar gyfer gwaith datblygu (gweler Argymhelliad 4, y byddai'r grant hon yn ei gefnogi hefyd)<br><br>Cydlynu'n effeithiol gyda grwpiau cymorth lloches a ffoaduriaid/ seilwaith a chyngor ar fewnfudo |
| Sefydliad/unigolyn blaen | Timau Cydraddoldeb a Thai Llywodraeth Cymru<br><br>NACCOM |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Tai Pawb<br><br>Housing Justice Cymru<br><br>Home4U<br><br>Share Tawe<br><br>CCC ac aelodau â diddordeb penodol (gweler Argymhelliad 1)<br><br>CFfC<br><br>NACCOM |
| Amserlen | Grant o £100,000 dros ddwy flynedd ar gyfer gwaith/gweithiwr datblygu o fewn Tai Pawb a Housing Justice Cymru yn elwa ar (ac yn talu am) brofiad y bartneriaeth a sefydlwyd yn ystod yr astudiaeth hon rhwng Home4U a CT Wales and West a gwaith datblygu a wnaed gan Share Tawe yn Abertawe. Ar hynny, byddem yn argymell y dylai'r taliad i Home4U a Share Tawe fod yn £25,000 o leiaf dros y ddwy flynedd.<br><br>Adrodd ar y strategaeth ddatblygu yn ystod 2020 gyda thargedau ar gyfer nifer penodol o leoedd gwely (gweler Argymhelliad 4)<br><br>Cynllun datblygu dwy-flynedd |
| Canlyniad a fwriedir | Cynyddu nifer yr unedau a rennir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd, mewn modd cynaliadwy, targed posibl o 5 lle gwely dros 2 flynedd<br><br>Diogelwch a sicrwydd ar gyfer y rhai a letyir trwy arfer diogelu cadarn (gweler Argymhelliad 6)<br><br>Darparu gwell llwybrau allan o amddifadedd ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd trwy well mynediad i eiriolaeth, cyngor ar fewnfudo a chynrychiolaeth (gweler Argymhelliad 7) |

DRAFT

| **Argymhelliad 4: Sefydlu tai a rennir i wasanaethu anghenion ceiswyr lloches a wrthodwyd a ffoaduriaid ag angen tai ond sy'n gallu talu rhent** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | 4.1. Negydu partneriaethau fel yn Argymhelliad 3.1.<br><br>4.2. Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu effeithiol ar waith (gweler Argymhelliad 6)<br><br>4.3. Sicrhau bod datblygu'n canolbwyntio ar gefnogi llwybrau allan o amddifadedd, gyda llety yn un elfen o hyn, ac ymrwymiad clir i ddarparu neu hwyluso mynediad at gymorth arall angenrheidiol ar gyfer llwybr allan o amddifadedd, yn enwedig cyngor da ar fewnfudo (gweler Argymhelliad 7)<br><br>4.4. Ymgysylltu â projectau perthnasol eraill gan gynnwys: astudiaeth ddichonoldeb gan Tai Pawb (cyllidwyd gan LlC) o'r ddarpariaeth tai ac integreiddio ar gyfer ffoaduriaid, a nodai ddiddordeb gan ddarparwyr mewn darparu rhai lleoedd gwely ar gyfer rhai â DHCCC; archwiliad y Gap o osod eiddo cymdeithasol; gwaith Housing Justice, Ffydd mewn Tai Fforddiadwy; datblygiadau Tai yn Gyntaf<br><br>4.5. Rhannu profiad a gwybodaeth am fodelau drwy NACCOM |
| Adnoddau sydd eu hangen | Fel yn Argymhelliad 3 uchod. Buddsoddi adnoddau mewn un project datblygu er mwyn cyflawni Argymhellion 3 a 4 |
| Sefydliad/unigolyn blaen | Timau Cydraddoldeb a Thai Llywodraeth Cymru i gomisiynu<br><br>Partneriaeth Tai Pawb a Housing Justice Cymru i gyflawni |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Home4U<br><br>The Gap<br><br>CCC ac aelodau â diddordeb penodol<br><br>CFfC<br><br>Cyngor Ffoaduriaid Cymru (project tai a gyllidir gan Sefydliad Oak)<br><br>NACCOM<br><br>Share Tawe/Dinas Noddfa Abertawe |
| Amserlen | Fel Argymhelliad 3 uchod |
| Canlyniadau a fwriedir | Cynyddu nifer yr unedau tai a rennir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd sy'n byw gyda ffoaduriaid ag angen tai mewn modd cynaliadwy, cytuno ar darged posibl o 15 uned dros y ddwy flynedd, yn cynnwys tair ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd.<br><br>Diogelwch a sicrwydd ar gyfer y rhai a letyir trwy arfer diogelu cadarn (gweler Argymhelliad 6) |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Darparu gwell llwybrau allan o amddifadedd ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd trwy well mynediad i eiriolaeth, cyngor ar fewnfudo a chynrychiolaeth (gweler Argymhelliad 7) |

| **Argymhelliad 5: Datblygu hygyrchedd llety brys a dulliau atgyfeirio i gefnogi llwybrau allan o amddifadedd** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | 5.1. Dysgu pa mor hygyrch ac addas yw llochesau nos yn y pedair ardal wasgaru yn cynnwys canfod a oes angen darpariaeth benodol ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd (ar sail profiad NACCOM)<br><br>5.2. Monitro effeithiolrwydd darpariaeth contractwyr y Swyddfa Gartref parthed symud ymlaen (positif a negyddol) a chyfathrebu a chydweithio priodol trwy'r trefniadau aml-asiantaeth presennol<br><br>5.3. Sicrhau bod sefydliadau digartrefedd a chymorth lloches a ffoaduriaid sy'n darparu cyngor i bobl ddigartref ac amddifad yn ymwybodol o fodolaeth a threfniadau mynediad i lety brys (a mathau eraill) ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd ar sail yr ymchwil hon.<br><br>5.4. Sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â chynghori a darparu llety brys yn canolbwyntio ar gefnogi llwybrau allan o amddifadedd, tra'n ymwybodol bod atgyfeirio i lety brys ond yn un elfen o'r gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer llwybr allan o amddifadedd, yn enwedig yr angen am gyngor da ar fewnfudo ( gweler Argymhelliad 7)<br><br>5.5. Gan weithio gyda Fforwm DHCCC, egluro a sicrhau lefel uwch o ymwybyddiaeth o fewn cyrff sector cyhoeddus a gwirfoddol perthnasol o'r dyletswyddau i asesu angen a gwneud darpariaeth o bosib o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Adnoddau sydd eu hangen | Ymchwil i ddarpariaeth llochesau nos ar gyfer rhai â DHCCC, yn cynnwys ceiswyr lloches a wrthodwyd. Rhagwelir mai darn bach o waith fydd hwn y gallai sefydliad a gyllidir eisoes gan Lywodraeth Cymru neu sydd â diddordeb yn y maes fel End Rough Sleeping Cymru (ERSC) ei wneud |
| Sefydliad/unigolyn blaen | CLlLC a Housing Justice Cymru ar gyfer 5.1. a 5.4<br><br>Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru (WSMP) ar gyfer 5.2 a 5.5<br><br>Clearsprings a Thîm Cydraddoldeb LlC ar gyfer 5.2<br><br>Tîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru a CLlLC ar gyfer 5.3<br><br>CLlLC a Fforwm DHCCC ar gyfer 5.5 |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Cynghorau Caerdydd, Casnewydd Abertawe a Wrecsam gyda chymorth swyddogion blaen ar gyfer digartrefedd/opsiynau tai a ymfudo/lloches<br><br>Y Rhwydwaith Digartrefedd<br><br>End Rough Sleeping Cymru (ERSC) |

| | |
|---|---|
| Amserlen | Gwell gwasanaeth ar gyfer ceiswyr lloches erbyn gaeaf 2020/2021 |
| Canlyniadau a fwriedir | Gwella cydraddoldeb mynediad i ddarpariaeth frys<br><br>Gwella'r broses o asesu rhai mewn angen fel y diffinir hynny gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |

| **Argymhelliad 6: Sicrhau bod trefniadau diogelu cadarn ar waith o fewn datblygiadau gwestya a thai a bod gan ddarparwyr tai a chynlluniau gwestya gysylltiadau priodol â'r rhai sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a llesiant ar gyfer oedolion diymgeledd a phlant amddifad** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | 6.1. Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith sy'n cynnwys:<br><br>• eglurdeb ynghylch risg gynhenid gwahanol fathau o gynlluniau;<br>• eglurdeb ynghylch cyfrifoldebau, atebolrwydd, yn cynnwys monitro ac adolygu, a chyfranogiad ar lefel bwrdd mewn goruchwylio rheolaeth risg a chyfrifoldebau diogelu;<br>• trefniadau digonol ar gyfer hyfforddi, goruchwylio a chefnogi staff a gwestywyr;<br>• systemau clir ar gyfer cofnodi pryderon staff, gwirfoddolwyr a gwestywyr ynglŷn â diogelu a chyswllt â byrddau diogelu lleol;<br>• sail resymegol i wiriadau DBS, ac ar ba lefel.<br><br>6.2. Sicrhau y cymerir camau y cytunwyd arnynt i amddiffyn plant, pobl ifanc sy'n gadael gofal ac oedolion diymgeledd â DHCCC o ran hyfforddi a datblygu polisïau a gweithdrefnau i wella asesiadau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Adnoddau sydd eu hangen | Un o amodau derbyn cyllid ar gyfer gwaith datblygu gwestya a thai fydd gwaith datblygu cadarn ar drefniadau diogelu fel yr amlinella adran 4.12 o'r adroddiad hwn |
| Sefydliad/unigolyn blaen | Tîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ar gyfer 6.1, yn gweithio gyda NACCOM a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol<br><br>CLlLC a Rhwydwaith DHCCC ar gyfer 6.2 |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Darparwyr llety a darparwyr cymorth amddifadedd a'u preswylwyr/ gwesteion<br><br>Rhwydwaith DHCCC<br><br>CLlLC<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>NACCOM<br><br>Elwa ar arbenigedd y Rhwydwaith DHCCC parthed cyfrifoldebau'r sector cyhoeddus |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Amserlen | Arolwg fel rhan o'r gwaith datblygu a gyllidir ac amserlenni cysylltiedig |
| Canlyniad a fwriedir | Bod llety a ddarperir ar gyfer ceiswyr lloches a wrthodwyd yn ddiogel ac yn briodol i westywyr, gwesteion, preswylwyr a staff, ac y caiff anghenion y mwyaf diymgeledd eu diwallu'n briodol |

| **Argymhelliad 7: Sicrhau bod gan lety gysylltiadau effeithiol â chyngor a chynrychiolaeth fewnfudo a'i fod yn gallu cynnig, naill ai'n uniongyrchol neu mewn partneriaeth, eiriolaeth sy'n cefnogi gwesteion/preswylwyr i ymgysylltu'n weithredol â'u hachos mewnfudo** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | 7.1. Sicrhau bod strategaeth i ddarparu neu geisio cyngor mewnfudo, cefnogaeth eiriolaeth a chynrychiolaeth yn rhan o unrhyw ddatblygiad arfaethedig o fewn Argymhellion 2–5. Gellid gweithredu ar sail y ddinas gyfan (gweler 7.3 isod) gan gynnwys hyfforddiant eiriolaeth ar gyfer gwestywyr a gweithwyr cymorth, a'r ceiswyr lloches eu hunain<br><br>7.2. Sefydlu fframwaith monitro sy'n cofnodi canlyniadau ceisiadau lloches/mewnfudo ac am ba hyd y bydd angen llety a chefnogaeth i gyflawni'r rhain<br><br>7.3. Archwilio model DASS yn Glasgow (a amlinellir yn Adran 4) a gyllidir gan Sefydliad Oak, ond a gafodd arian hefyd gan Lywodraeth yr Alban, yng nghyd-destun y Rhaglen Hawliau Lloches bresennol |
| Adnoddau sydd eu hangen | Y gallu i sicrhau bod cysylltiadau rhwng y gwaith ar ddatblygu llety a gwaith a gefnogir gan LlC i hwyluso mynediad at gyngor mewnfudo, gan gynnwys astudiaeth gwmpasu y mae'n bwriadu ei chomisiynu er mwyn deall lle mae'r bylchau yn y cyngor cyfreithiol ar fewnfudo a nodi lle y gellir gwella mynediad a darpariaeth |
| Sefydliad/unigolyn blaen | Tîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Darparwyr llety a chymorth amddifadedd presennol a'u preswylwyr/gwesteion<br><br>Asylum Justice a phartneriaid eraill yn y Bartneriaeth Hawliau Lloches a arweinir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru<br><br>Cyfreithwyr ag enw da sy'n cynnig cyngor/cynrychiolaeth mewnfudo da<br><br>NACCOM i rannu modelau eraill o gysylltu llety a chyngor ar fewnfudo |
| Amserlen | Arolwg fel rhan o'r gwaith datblygu a gyllidir ac amserlenni cysylltiedig |
| Canlyniadau a fwriedir | Bod y ddarpariaeth a ddatblygir o ganlyniad i'r adroddiad hwn a'i argymhellion yn cefnogi llwybrau allan o amddifadedd |

DRAFT

| **Argymhelliad 8: Dylanwadu ar y Swyddfa Gartref i adolygu a newid ei pholisïau a'i harferion i liniaru amddifadedd ceiswyr lloches a wrthodwyd** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | 8.1. Cytuno ar faterion allweddol i'w hamlygu, e.e., perfformiad contractwyr y Swyddfa Gartref yn erbyn DPAion symud-ymlaen (gweler 5.2), ceisiadau Adran 4 a'r amser a gymer i benderfynu ar geisiadau<br>8.2. Cytuno ar a sefydlu trefniadau casglu a monitro data/tystiolaeth cydgysylltiedig i amlygu materion allweddol<br>8.3. Nodi asiantaeth/partneriaeth a fydd â'r swyddogaeth o gydosod, dadansoddi a chyflwyno data i'r Swyddfa Gartref |
| Adnoddau sydd eu hangen | Ymrwymiad gan asiantaethau cefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches perthnasol (a gydgysylltir gan Gynghrair Ffoaduriaid Cymru), WSMP a Thîm Cydraddoldeb LlC i gydgysylltu, casglu a chydosod tystiolaeth |
| Sefydliad/unigolyn blaen | Tîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Y Groes Goch Brydeinig<br>Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru (WSMP)<br>Rhwydwaith DHCCC<br>Cynghrair Ffoaduriaid Cymru a'i haelodau<br>CLlLC<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>NACCOM |
| Amserlen | Arolwg fel rhan o'r gwaith datblygu a gyllidir ac amserlenni cysylltiedig |
| Canlyniad a fwriedir | Dwyn Llywodraeth y DU i gyfrif am y meysydd hynny o lunio polisïau neilltuedig sy'n achosi amddifadedd, ac i gontractwyr y Swyddfa Gartref yng Nghymru gyflawni eu cyfrifoldebau cytundebol |

| **Argymhelliad 9: Sefydlu gwaith partneriaeth traws-sector effeithiol a chyd-atebolrwydd am gydlynu a defnyddio adnoddau'n effeithiol i gynyddu nifer y lleoedd gwely sy'n cefnogi ceiswyr lloches a wrthodwyd ar eu llwybrau allan o amddifadedd** | |
|---|---|
| Gorchwyl(ion) | 9.1. Cytuno ar aelodaeth a chylch gorchwyl gweithgor i sicrhau cydgysylltiad rhwng sefydliadau a sectorau wrth gyflawni'r argymhellion hyn ac unrhyw adnoddau LlC a fuddsoddir ynddynt, ynghyd ag adnoddau perthnasol eraill sydd ar gael, er enghraifft, project tai Cyngor Ffoaduriaid Cymru a gyllidir gan Sefydliad Oak.<br>9.2. Sicrhau cysylltiadau rhwng y sectorau tai a digartrefedd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, a chyngor mewnfudo (gweler Adran 7.7) |



DRAFT

| | |
|---|---|
| | 9.3. Datblygu a chynnal cysylltiadau rhwng projectau gwestya a llety<br><br>9.4. Cyswllt rhwng LlC a phartneriaid allweddol eraill i gydlynu a bwydo i mewn i drefniadau casglu a monitro tystiolaeth (gweler Argymhelliad 8) |
| Adnoddau sydd eu hangen | Ymrwymiad gan gyrff ac asiantaethau perthnasol i gyfranogi mewn gweithgareddau cydgysylltu |
| Sefydliad/unigolyn blaen | Tîm Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chynghrair Ffoaduriaid Cymru |
| Pwy arall ddylai fod yn cyfranogi | Cyngor Ffoaduriaid Cymru<br><br>Cynghrair Ffoaduriaid Cymru a'i aelodau<br><br>Tai Pawb<br><br>Housing Justice Cymru<br><br>Home4U<br><br>ShareDydd<br><br>Share Tawe<br><br>WSMP<br><br>Rhwydwaith DHCCC<br><br>CLlLC<br><br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br><br>Y Groes Goch Brydeinig<br><br>NACCOM |
| Amserlen | Arolwg fel rhan o'r gwaith datblygu a gyllidwyd ac amserlenni |
| Canlyniadau a fwriedir | Partneriaethau traws-sector effeithiol sy'n cynyddu'r nifer o leoedd gwely i wella llwybrau allan o amddifadedd<br><br>Sefydliadau sy'n blaenoriaethu eu cryfderau i sicrhau y caiff yr adnoddau (arian, pobl ac asedau eraill) yr effaith fwyaf posibl<br><br>Rhannu hysbysrwydd, gwybodaeth a dysg yn effeithiol, yn deillio o weithredu holl argymhellion yr adroddiad hwn a chyflawni projectau/mentrau perthnasol |

### 7.7. Ynglŷn â'r sefydliadau a'r rhwydweithiau cyflawni

Er mwyn hyrwyddo gweithio traws-sector a sylw sectorau a sefydliadau nad ydynt hyd yma wedi ymwneud rhyw lawer â chefnogi ceiswyr lloches a wrthodwyd allan o amddifadedd, dyma drosolwg ar y ffyrdd y gall gwahanol gyrff gyfrannu.

Byddai'n gynhyrchiol codi ymwybyddiaeth o’r Cynllun Cenedl Noddfa o fewn yr holl sefydliadau a rhwydweithiau hyn.

| Sector/ sefydliad | Cyfraniad/swyddogaeth arfaethedig | Cyrff cydgysylltu a sefydliadau allweddol |
|---|---|---|
| Cymdeithasau tai | • Cyfrannu eiddo am ddim neu ar rent pitw<br>• Darparu o'u stoc eu hunain neu sicrhau (trwy'r sector preifat) eiddo i'w osod (ar gyfer modelau tai-cymysg – gweler Argymhelliad 4)<br>• Partneru gyda grwpiau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddarparu modelau o lety<br>• Partneru gyda grwpiau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddarparu cefnogaeth rheoli tai<br>• Partneru gyda grwpiau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddarparu cefnogaeth seilwaith, fel cymorth swyddfa gefn – AD, arbenigedd TG ac ati<br>• Hyrwyddo gwestya yn fewnol<br>• Hyrwyddo rhoddi elusennol gan staff i elusennau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid | CCC<br>STS Cymru |
| Cyrff tai gwirfoddol a phroffesiynol | • Partneru gyda grwpiau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddatblygu gallu a modelau<br>• Negydu partneriaethau rhwng sefydliadau tai a digartrefedd a grwpiau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid<br>• Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfeirio i gefnogi llwybrau allan o amddifadedd<br>• Dylanwadu ar bolisi ac arfer i sicrhau newid sy'n cefnogi llwybrau allan o amddifadedd<br>• Hyrwyddo rhoddi i elusennau gan unigolion, arian a/neu nwyddau, amser ac arbenigedd (cyrff proffesiynol yn enwedig) | Tai Pawb<br>Housing Justice Cymru<br>Shelter Cymru<br>Crisis<br>NACCOM<br>CIH Cymru<br>Cymorth Cymru/cynghrair End Rough Sleeping Cymru |
| Grwpiau ffydd | • Cyfrannu eiddo am ddim neu ar rent pitw | Housing Justice Cymru |

| | | |
|---|---|---|
| | • Darparu neu helpu i sicrhau eiddo i'w rentu (mewn modelau cymysg)<br>• Cefnogi a hyrwyddo gwestya trwy rwydweithiau<br>• Hyrwyddo rhoddi elusennol i elusennau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid | Fforwm Cymunedau Ffydd<br>Cyngor Rhyngffydd Cymru<br>Grwpiau a rhwydweithiau ffydd eraill i'w nodi |
| Grwpiau cefnogi ceiswyr lloches a ffoaduriaid | • Partneru gyda chymdeithasau tai i ddatblygu modelau o dai a rennir<br>• Partneru gyda chyrff tai a rhai perthnasol eraill i sicrhau cysylltiadau â chyngor mewnfudo, eiriolaeth a chynrychiolaeth o ansawdd da<br>• Partneru gyda chymdeithasau tai i godi ymwybyddiaeth o anghenion ac atebion<br>• Cefnogi rhai sy'n dioddef amddifadedd yn uniongyrchol i gyfranogi mewn gwaith datblygu | Cynghrair Ffoaduriaid Cymru<br>Y Groes Goch Brydeinig<br>NACCOM<br>DPIA<br>BAWSO |
| Cyrff sector cyhoeddus | • Sicrhau y gŵyr yr holl staff rheng-flaen perthnasol (gwasanaethau cymdeithasol, opsiynau tai a chymorth digartrefedd, ysbytai a gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol) am anghenion a hawliau ceiswyr lloches a wrthodwyd a sut i'w cyfeirio at gymorth i gefnogi eu llwybr allan o amddifadedd<br>• Gweld a oes unrhyw feysydd polisi ac arfer yn sefydlu rhwystrau diangen i'r datblygiadau a argymhellir e.e. Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)<br>• Ystyried buddiannau positif partneriaeth agosach a chefnogaeth i grwpiau gwirfoddol sy'n gweithio gydag amddifadedd, cefnogi eu hymdrechion diogelu, a bod yn agored i gydweithio er budd i'r ddwy ochr | CLlLC<br>WSMP<br>Cyswllt DHCCC<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>Llywodraeth Cymru |
| Cyllidwyr (elusennol a statudol) | • Cyllido datblygu ymateb strategol a chynaliadwy i gefnogi llwybrau allan o amddifadedd a allai gynnwys ystyried: cyllido elfennau o'r pecyn cymorth cyfannol a chefnogi datblygu gallu mewn sefydliadau perthnasol | Rhwydwaith Cyllidwyr Cymru |

# ATODIADAU

## ATODIAD 1 – Lletya Ceiswyr Lloches a Wrthodwyd – Seinfwrdd

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| Alica Zalesinska | Tai Pawb |
| Selina Moya | STS |
| Emma Thompson | Shelter |
| Sharon Lee | Housing Justice Cymru |
| David Bacon | Dinas Noddfa a ShareDYDD, Caerdydd |
| Kathryn Williams | Dinas Noddfa |
| Suzy Youngman | Home4U a ShareDYDD, Caerdydd |
| Mark Seymour | The Gap, Casnewydd |
| Anne Hubbard | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Cathrin Manning | Y Groes Goch Brydeinig, Cymru |
| Holly Taylor/Tracy Sherlock | Cyngor Ffoaduriaid Cymru |
| Samsunear Ali | BAWSO |
| Sian Catherine Jones | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Nick Morris | Crisis |
| Marilyn Thomas | Share Tawe |
| Bernadette Rainey/Ruth Brown | Asylum Justice |
| Dave Smith | NACCOM |

DRAFT

**ATODIAD 2 – Rhestr o gyfweliadau a digwyddiadau ymgynghori**

**SeinFwrdd**

| **Enw**<br>**SF = Aelod o'r SeinFwrdd**<br>***Mynychodd SF 1/4/19** | **Sefydliad/swyddogaeth** | **Ymateb/dyddiad cyfweliad/cyfarfod**<br>**Nodiadau ar gael ar gyfer pob cyfarfod** |
|---|---|---|
| John Davies | Llywodraeth Cymru<br>Comisiynydd ymchwil | Cyfarfod sefydlu 18/2/19<br>Cyfarfod adolygu 29/3/19 |
| Alicija Zalesinska (SF)* | Tai Pawb | 19/3/19 |
| Selina Moyo (SF) | CCC | 20/3/19 |
| Emma Thompson | Shelter Cymru | 20/3/19 |
| Sharon Lee (SF)* | Housing Justice Cymru ac aelod o fwrdd CT Wales and West | 29/3/19 |
| David Bacon (SF)* | ShareDYDD, Home4U, Dinas Noddfa Caerdydd | 4/3/19 |
| Suzy (SF)* | ShareDYDD a Home4U, Caerdydd | 21/3/19 |
| Kathryn Williams (SF)* | Dinas Noddfa, Abertawe | 26/3/19 |
| Ruth O'Neill (gweler Suzy) | Space4U/Home4U, Caerdydd | 2/5/19 |
| Mark Taylor (SF)* | The Sanctuary/The Gap, Casnewydd | 21/3/19 |
| Anne Hubbard (SF)* | Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP), CLlLC | 28/3/19 |
| Cathrin Manning (SF)* | Y Groes Goch Brydeinig, Cymru | 18/4/19 |
| Holly (SF)*/Tracey | Cyngor Ffoaduriaid Cymru a Phroject Hawliau Lloches Cymru | 19/3/19 |
| Samsunear Ali (SF) | Prif Weithredydd, BAWSO | Dim ymateb |
| Sian Jones (SF) | GIG Cymru | Dim ymateb |
| Nick Morris (SF)* | Rheolydd Polisi a Chyfathrebu, Crisis | 21/3/19 |
| Ruth Jacob | Uwch Swyddog Polisi, Crisis | 18/3/19 |
| Marilyn Thomas (SF)* | Share Tawe, Ymddiriedolwraig | 5/3/19 |
| Hannah | Share Tawe | |
| **Bernadette Rainey, Cadeirydd**<br>**Ruth Brown, PSG (SF)*** | Asylum Justice | Cyfnewid gwybodaeth trwy ebost |

| | | |
|---|---|---|
| **Dave Smith (SF)*** | NACCOM, datblygiad rhwydweithau (gorllewinol) | 5/3/19 |
| **Swyddogion Blaen ar Ymfudo – Caerdydd (Sian Sanders), Casnewydd (Emmy Chater), Abertawe a Wrecsam ac Emma Maher o WSMP/CLILC** | Bu’n rhaid i Rachel, Wrecsam dynnu nôl am nad oedd ei lein yn dda ond gweler isod | 1/5/19 |
| **Ymgynghoriad Casnewydd gyda phobl sy’n ceisio noddfa** | Trefnwyd gan Mark Taylor, The Gap, The Sanctuary, Casnewydd | 1/5/19 |
| **Rachel Morris a chydweithwyr yn Wrecsam** | Shirley Jones – Cefnogaeth tai a gosod eiddo lleol; Donna Powell – Gweithreg Achosion CFfC, cyflogir gan BAWSO; Rachel Morris – Uwch Swyddog Gwella Perfformiad a Phartneriaethau a swyddog blaen ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid; ymddiheuriadau gan Tracy Jones, opsiynau tai/digartrefedd | Cyfarfod 13 Mai |
| **Ymgynghoriad Wrecsam gyda phobl sy’n cesio noddfa** | Trefnwyd gan Cathrin Manning, BRC | 13 Mai, Wrecsam |
| **Ymgynghoriad Caerdydd gyda phobl sy’n cesio noddfa** | Trefnwyd gan Suzy, Home4U/ShareDYDD | 14 Mai, Caerdydd, Eglwys Fethodistaidd Cathays |
| **Ymgynghoriad DPIA Caerdydd gyda phobl sy’n cesio noddfa** | Trefnwyd gan Sarah Allen | 14 Mai, Caerdydd, Canolfan y Drindod |
| **Swyddogion Blaen, Digartrefedd ac opsiynau tai yn y 4 ardal wasgaru** | Anfonwyd ebost yn gofyn am gyfweliad yn rhoi cefndir y project | Simon Rose Casnewydd, 16 Mai, Wrecsam (gweler uchod)<br>Andrew James, Caerdydd<br>Ebostiwyd Steve Porter a Marie Muldoon |
| **Ymgynghoriad Share Tawe Abertawe gyda phobl sy’n cesio noddfa** | Ymgynghoriad dan arweiniad cydgysylltydd project Share Tawe gydag ymatebion ysgrifenedig gan y cyfranogwyr | |
| **Jim McKirdle** | Swyddog Blaen, Tai, CLILC | Cysylltiad ebost |

DRAFT

**ATODIAD 3 - DARPARU LLETY AR GYFER CEISWYR LLOCHES A WRTHODWYD: MATERION DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI (cywir pan ddaeth yr ymchwil i ben, Gorffennaf 2019)**

D.S. Mewn ymateb i'r amgylchiadau eithriadol a grëwyd gan bandemig y Coronafeirws, dyrannwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau llety i'r rheini sy'n cysgu allan a phobl sy'n byw mewn llety dros-dro annigonol, a gellir defnyddio arian hyn i gefnogi pobl â DHCCC.

| Issue | Deddfwriaeth/polisi | Ffynhonnell/gwefan | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Mynediad i wybodaeth a chyngor ar atal digartrefedd | Lloegr<br>Deddf Lleihau Digartrefedd 2017 – Cod Canllawiau paragraff 3.1 – Rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cyngor a gwybodaeth am ddim am yr help sydd ar gael i bobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd, y gall pawb yn yr ardal ei gyrchu, gan gynnwys pobl nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaethau digartrefedd pellach o ganlyniad i'w statws mewnfudo.<br><br>Cod Canllawiau paragraff 7.2 - Dylai awdurdodau tai atgyfeirio ymgeiswyr at gymorth priodol y gallai fod ganddynt hawl iddo lle bo hynny'n berthnasol.<br><br>Cymru<br>Rhan 2 Deddf Tai (Cymru) 2014 – A.60 – mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaeth yn cael ei ddarparu i gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ar sut i gael help i unrhyw un o fewn ei ardal, neu sydd â chysylltiad lleol â'i ardal, sy'n ymgyflwyno yn ceisio cymorth, yn cynnwys pobl sy'n anghymwys i dderbyn cymorth tai arall o dan Bennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf. | Deddfwriaeth Lloegr<br>http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/13/contents/enacted<br><br>Cod Canllawiau Lloegr<br>https://assets.publishing.service.gov.uk/media/5a969da940f0b67aa5087b93/Homelessness_code_of_guidance.pdf<br><br>Deddfwriaeth Cymru<br>http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/7/part/2/enacted/welsh<br><br>Cod Canllawiau Cymru<br>https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-03/allocation-of-accommodation-and- | DIchon bod rhinwedd mewn cryfhau geiriad y Cod Canllawiau i atgyfnerthu nad yw mynediad at wybodaeth a chyngor wedi'i gyfyngu i'r rheini sydd â statws mewnfudo penodol, a beth a olyga hynny yn ymarferol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | homelessness-guidance-for-local-authorities.pdf | |
| Dyletswydd i atgyfeirio | Lloegr<br>Ar 1 Hydref 2018, daeth yn ofyniad cyfreithiol i wasanaethau cymdeithasol yn Lloegr atgyfeirio'n uniongyrchol at awdurdod tai am gymorth o dan ran 7 o Ddeddf Tai 1996 pan fydd person y maent yn ei gefnogi yn ddigartref neu dan fygythiad o fynd yn ddigartref o fewn 56 diwrnod. Mae'r ddyletswydd newydd i gyfeirio wedi'i nodi yn Neddf Lleihau Digartrefedd 2017.<br><br>Bydd y ddyletswydd i atgyfeirio yn berthnasol pan fydd teulu neu berson â DHCCC wedi cael llety o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989, neu Ddeddf Gofal 2014, ac yn dod yn gymwys i gael cymorth digartrefedd. Gall sefyllfa o'r fath godi pan roddir caniatâd i berson neu riant aros â hawl i gyrchu cronfeydd cyhoeddus (sy'n wir am fwyafrif y teuluoedd a gefnogir), neu pan fydd dinesydd gwlad yn yr AEE yn dechrau gweithio ac yn sefydlu hawl i breswylio o dan gyfraith Ewrop. Bryd hynny, bydd y gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr achos DHCCC fel arfer yn rhoi rhybudd i'r unigolyn bod ei lety dros-dro yn dod i ben a rhaid hefyd ei atgyfeirio'n uniongyrchol at awdurdod tai.<br><br>Cymru<br>Nid oes dyletswydd i atgyfeirio yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 | Rhwydwaith DHCCC<br>http://www.nrpfnetwork.org.uk/News/Pages/duty-to-refer.aspx | Mae adolygiad o flaenoriaeth ar y gweill. Os yw Llywodraeth Cymru am ystyried newid yn y gyfraith, gallai fod yn gyfle i gynnwys diwygiadau i Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys cyflwyno dyletswydd i atgyfeirio |
| Mynediad i lety cymdeithas tai | Cymru a Lloegr<br>Gall unigolyn â DHCCC rentu eiddo gan gymdeithas dai os yw wedi gwneud cais yn uniongyrchol i'r gymdeithas dai yn hytrach na thrwy restr dyraniadau tai eu cyngor lleol. Dim ond os caiff ei sicrhau trwy restr y cyngor neu drwy atgyfeiriad gan awdurdod lleol y bydd dyraniad o eiddo cymdeithas dai yn cael ei ystyried yn gronfa gyhoeddus. | Rhwydwaith DHCCC a canllawiau Cyllid Cyhoeddus Ionawr 2019 (seiliedig ar Reolau Mewnfudo)<br>https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data | Mae angen cyfleu hyn yn glir i gymdeithasau tai mewn perthynas ag unrhyw fodelau llety sy'n cynnwys ceiswyr lloches a wrthodwyd ac sy'n sôn am gysylltiadau strategol ag awdurdodau lleol ond dim trefniadau atgyfeirio ffurfiol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | /file/772305/Public_funds_v14.0ext.pdf | |
| Cymhwyster i gael cymorth digartrefedd | O dan Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017 a Rhan II Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyrir bod darparu modd i atal neu leddfu digartrefedd ac ailgartrefu yn gronfa gyhoeddus (gweler uchod am eithriad parthed llety cymdeithasau tai a sicrheir yn uniongyrchol). | Rheolau Mewnfudo | Dadleuodd Crisis o blaid eithrio atal a lliniaru digartrefedd yn ystod datblygu'r Ddeddf Lleihau Digartrefedd ond ni fuont yn llwyddiannus |
| Cefnogaeth wedi'i chyllido trwy'r Grant Cefnogi Pobl/Tai | Lloegr<br>Ni cheir grant Cefnogi Pobl wedi'i glustnodi bellach yn Lloegr.<br><br>Cymru<br>Mae Cefnogi Pobl bellach yn rhan o'r Grant Cymorth Tai nad yw'n gronfa gyhoeddus ar hyn o bryd | Rheolau Mewnfudo | Bydd cyfle yn ystod datblygiad y canllawiau ar gyfer Grant Cymorth Tai i'w gwneud yn glir na chaiff ei ystyried yn gronfa gyhoeddus |
| Diogelu teuluoedd â phlant | Lloegr<br>Ar gyfer plant a theuluoedd â DHCCC, mae'r llywodraeth a'r llysoedd wedi cydnabod bod cymorth a ddarperir gan Awdurdodau Lleol o dan adran 17 o Ddeddf Plant 1989 yn rhwyd ddiogelwch hanfodol i amddiffyn y bobl fwyaf ddiymgeledd rhag amddifadedd.<br><br>Cymru<br>Nid yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 bellach yn cynnwys Adran 17 o Ddeddf Plant 1989 ac ni cheir canllawiau manwl i sicrhau y gweithredir swyddogaeth yr adran hon, neu ei holynydd | Papur cefndir ar DHCCC gan Emmy Chater | Mae cyfleoedd i ehangu ac egluro canllawiau i awdurdodau lleol ar y cymorth sydd i'w ddarparu gasn awdurdodau lleol i deuluoedd â phlant y gwrthodwyd eu ceisiadau lloches yn unol â'r canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau Lloegr |
| Diogelu oedolion diymgeledd | Lloegr<br>Y Ddeddf Gofal Adran 18 – dyletswydd i ateb angen am ofal a chefnogaeth.<br><br>Cymru | Fel yr uchod, ynghyd â<br><br>http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/23/section/18/enacted | Fel uchod, mae cyfle i ehangu ac egluro canllawiau ar amddiffyn oedolion diymgeledd y gwrthodwyd eu ceisiadau lloches yn unol â'r |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Megis gyda'r Ddeddf Gofal, nid yw cefnogaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gronfa gyhoeddus.<br><br>Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod awdurdod lleol yn cynnal asesiad lle mae'n ymddangos y gallai fod ar rywun angen gofal a chymorth, ond nodir yn adrannau 19(2)(a) a (b) y bydd dyletswydd ar awdurdod lleol i ddiwallu anghenion cymwys unigolyn am ofal a chymorth dim ond os yw'n oedolyn sydd fel arfer yn preswylio yn ardal yr awdurdod, ac unrhyw oedolyn arall sydd o fewn ardal yr awdurdod.<br><br>Yn ôl canllawau DHCCC i oedolion, mae'r Ddeddf Gofal yn manylu ar y categorïau penodol o bobl y dylid eu hystyried yn 'breswylwyr cyffredin', fel cleifion mewn ysbytai, lleoliadau o'r tu allan i'r ardal, lleoliadau ôl-ofal adran 117, pobl yn y ddalfa ac ar fechnïaeth, a gofalwyr. Yn amgen i'r Ddeddf Gofal, nid yw'r Ddeddf GCLl yn egluro gwahanol gategorïau; dylid ceisio cyngor cyfreithiol i wneud dyletswyddau'r ALl i'r categorïau hyn yn glir.<br><br>Mae canllawiau DHCCC yn nodi y dywed Canllawiau Statudol Lloegr na ddylai awdurdodau lleol oedi'r broses o ddiwallu anghenion lle nad yw preswylfod cyffredin yn sicr; ymddengys nad oes cyfeiriad o'r fath yng Nghanllawiau Statudol Cymru. | http://guidance.nrpfnetwork.org.uk/reader/practice-guidance-adults/ | canllawiau a ddarparwyd i awdurdodau Lloegr |
| Tai a rennir | Mae'r rheoliadau ar Dai mewn Aml-feddiannaeth yr un fath yng Nghymru a Lloegr (Deddf Tai 2004)<br><br>Mae adeiladau a reolir gan gymdeithasau tai wedi'u heithrio i ddibenion eu trwyddedu | Erthygl gyfreithiol ar HMO a thrwyddedu yng Nghymru https://law.gov.wales/publicservices/housing/HMO-and-Licensingi-n-Wales/?lang=cy#/publicservices/housing/HMO-and-Licensingi-n-Wales/?tab=trosolwg&lang=cy | |
| | Cymru<br>Mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (heb ei deddfu eto, a'r amserlen yn aneglur er | | Os oes pryder ynglŷn â rhoi contract tenantiaeth i rywun â |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfraith tenantiaethau | nad yw’n debygol o fod cyn 2021) – yn diwygio'r gyfraith tenantiaeth, gan greu cytundeb safonol (ar batrwm y denantiaeth fyrddaliol sicr gyfredol) a chytundeb diogel (ar batrwm tenantiaeth ddiogel awdurdod lleol), gydag amrywiadau ar y rhain ar gyfer llety â chymorth.<br><br>Bydd Rhentu Cartrefi yn mynnu fod pob landlord yn rhoi datganiad ysgrifenedig o’r cytundeb meddiannaeth i’r tenant neu ddeilydd trwydded (‘deiliaid contract’ yn y Ddeddf).<br><br>Mae hefyd yn gofyn i landlordiaid sicrhau bod yr eiddo'n addas i bobl fyw ynddo ar adeg ei feddiannu ac am hyd y contract tenantiaeth. Pennir addasrwydd trwy gyfeirio at reoliadau y bydd yn rhaid eu gwneud o dan y Ddeddf. | | DHCCC - cyhyd â bod y gymdeithas dai wedi dyrannu'r eiddo yn uniongyrchol, ni ddylai hyn fod yn broblem.<br><br>Gallai rheoliadau ar addasrwydd i bobl fyw ynddynt gael effaith ar gynlluniau sy'n ceisio defnyddio llety dros dro. |
| Cronfa Cymorth Dewisol | Prosesau i bobl amddifad (gan gynnwys rhai â DHCCC) gael mynediad atynt<br><br>Taliad cymorth brys – i fod yn gymwys rhaid i bobl fodloni'r meini prawf canlynol:<br><br>- bod wedi profi argyfwng neu drychineb<br>- yn preswylio yng Nghymru<br>- yn 16 oed o leiaf<br>- heb fynediad at arian arall ac wedi rhoi cynnig ar bob ffynhonnell cyllid fforddiadwy eraill<br><br>Mae cymhwysedd ar gyfer taliad cymorth unigol yn cynnwys bod yn derbyn un o nifer o fudd-daliadau | https://llyw.cymru/cronfa-cymorth-dewisol-daf/cronfa-cymorth-dewisol-cymhwysedd<br><br>https://welshrefugeecouncil.org/migration-information/legal-briefings/migrants%E2%80%99-entitlements-to-welfare-benefits-in-wales | Yn wahanol i Loegr, yr Alban a Gog. Iwerddon, yng Nghymru gall ceiswyr lloches amddifad wneud cais i’r gronfa hon |
| Deddfwriaeth arall berthnasol yng Nghymru | Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)<br><br>Pum ffordd o weithio a amlinellir yn y Ddeddf – tymor-hir, atal, integreiddio, cydweithio, cynnwys | http://futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/ | Cynnig fframwaith defnyddiol |

DRAFT

Materion eraill

*Darpariaeth Cefnogi Pobl (Grant Cymorth Tai bellach) ar gyfer ffoaduriaid* (cyllid cefnogi – ar ffurf llety neu gefnogaeth fel y bo'r angen)

Anodd manylu ar ddarpariaeth gyfredol ar gyfer ffoaduriaid a gyllidir gan Grant Cymorth i Bobl/Tai ond ychydig iawn o ddarpariaeth benodol sydd yn y pedair ardal wasgaru; dim ond yn nogfennau Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru y ceir sôn penodol am ffoaduriaid ac nid darpariaeth gyfredol mo hyn. Dichon bod symud i wasanaethau cymorth fel-y-bo'r-angen cyffredinol yn ffactor arwyddocaol yn y diffyg darpariaeth benodol. At hynny, gall ffoaduriaid, ynghyd â grwpiau eraill, elwa ar ddarpariaeth sefydliadau fel Byddin yr Iachawdwriaeth yng Nghaerdydd.

Mae hyn yn mynd law yn llaw â'r diffyg llety penodol ar gyfer ffoaduriaid a nodwyd gan Joy Kent yn ei gwaith ar gyfer Tai Pawb.

*Llety a rennir*

Roedd Cymdeithas Tai Newydd yn rhan o broject Crisis ar rannu llety. Enw project Newydd oedd rooms4u – adroddiad terfynol ar gael yn https://www.newydd.co.uk/news/changing-the-face-of-shared-housing Ysgogwyd llawer o'r gwaith/meddwl ar rannu gan y bygythiad o orfodi cyfraddau Lwfans Tai Lleol ar CTai – wedi i'r bygythiad hwnnw ddiflannu, gwnaed llai yn y maes hwn.

*Llety eithriedig/penodedig*

Pan bennir bod llety wedi'i eithrio, mae'n golygu eithriad rhag Credyd Cynhwysol, y cap ar fudd-daliadau a'r dreth stafell wely – caiff costau tai eu hawlio trwy Fudd-dal Tai (er y gallai rhywun dderbyn gweddill eu hincwm trwy hawlio CC) – felly gall gynnwys gwell rheolaeth ar dai a thaliadau gwasanaeth (mae CC yn llawer mwy caeth parthed taliadau gwasanaeth) – felly mae hyn yn mynd yn bwysicach wrth i CC gael ei weithredu. Sefydlwyd categori o lety penodedig yng nghyd-destun CC, gyda 3 is-gategori, ac un o'r rhain yw llety lle darperir gofal, cefnogaeth neu oruchwyliaeth gan rywun nad yw'n landlord neu ar ei ran. Ni fydd pob llety penodedig yn y categori hwn yn cael ei ddiffinio fel un eithriedig ac os nad yw llety wedi'i eithrio, bydd lwfans tai lleol yn weithredol (rhagwelir y bydd tua 80% o'r llety penodedig yn y categori hwn wedi'i eithrio).

Ar gyfer llety â chymorth a hosteli, mater hawdd yw cael eich dyfarnu'n eithriedig. Ar gyfer mathau eraill o lety, gall fod yn anodd. Mae ALlau yn gweithredu canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) ond yn eu ffyrdd eu hunain. Mae materion fel, e.e. pwy sy'n darparu'r gofal, y gefnogaeth neu'r oruchwyliaeth, yn mynd yn gymhleth lle ceir nifer o wahanol gyfranogwyr neu lle mae'r comisiynu'n gymhleth. Mae terfynau ar reolaeth/dylanwad Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, er ei bod yn ymwybodol o'r problemau a'r dehongliadau amrywiol gan wahanol ALlau. Ymddengys mai craidd y mater yw pryder awdurdodau lleol ynghylch archwiliadau'r AGP o hawliadau cymhorthdal.

*Strategeth digartrefedd*

Mae cynllun gweithredu (https://www.abertawe.gov.uk/article/46708/Lansio-Strategaeth-Digartrefedd-newydd) strategaeth digartrefedd Abertawe yn cynnwys gweithredu fel a ganlyn:

- datblygu cyngor ar dai yn benodol ar gyfer ffoaduriaid
- mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael er mwyn cynorthwyo a chynghori unigolion nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth digartrefedd a thai

Mae strategaeth digartrefedd Caerdydd (https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Tai/Pobl-ddigartref-neu-mewn-perygl/Strategaeth-Ddigartrefedd/Pages/default.aspx) yn cynnwys y canlynol:

DRAFT

- ymrwymiad i 'Adolygu llwybrau arbenigol i mewn i wasanaethau i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol' – mae llwybrau arbenigol yn cynnwys ffoaduriaid

Mae cynllun gweithredu strategol Gwent (yn cynnwys Casnewydd) (https://democracy.newport.gov.uk/documents/s14279/App%202.pdf) yn cynnwys y canlynol :

- darparu amrediad priodol o wasanaethau cefnogi ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches – bydd yn gwneud arolwg

Strategaeth ddigartrefedd ranbarthol gogledd Cymru (yn cynnwys Wrecsam) (https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Housing/Local-Housing-Strategy/assets/documents/North-Wales-Regional-Homelessness-Strategy-2018-2022.pdf)

- dim sôn am ffoaduriaid a cheiswyr lloches o gwbl

*Cartrefi gwag*

Cynhaliodd Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau y Cynulliad ymchwiliad i eiddo gwag http://senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=25057 Archwiliodd:

- i ba raddau y mae eiddo gwag yn effeithio ar y cyflenwad o dai fforddiadwy yng Nghymru;
- effaith eiddo gwag ar gymunedau yng Nghymru a'r heriau y mae awdurdodau yn eu hwynebu wrth geisio ymdrin â'r broblem hon;
- i ba raddau y mae gan awdurdodau lleol y pwerau deddfwriaethol sydd eu hangen arnynt i ddelio ag eiddo gwag;
- esiamplau o arfer gorau wrth droi eiddo gwag yn dai fforddiadwy ac ynni-effeithlon;
- i ba raddau y mae awdurdodau lleol wedi manteisio ar y newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n rhoi disgresiwn iddynt godi premiwm y dreth gyngor ar dai gwag, ac effeithiolrwydd y polisi hwn.

Daeth y cyfnod casglu tystiolaeth i ben ar 31 Mai 2019. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad ym mis Hydref 2019 https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12797/cr-ld12797%20-w.pdf

## ATODIAD 4 – TERMINOLEG

**Adran 18 o'r Ddeddf Gofal (Lloegr yn unig – gweler Atodiad 3 am ddarpariaeth gyfatebol yng Nghymru o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant)** Mae hyn yn cynnwys unigolion ag angen gofal yn Lloegr a allai gynnwys ymfudwyr nad oes ganddynt hawl cyrchu cronfeydd cyhoeddus.

**Amddifadedd** Y diffiniad o dan adran 95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 – Mae person yn amddifad os: 'a. nid oes ganddo lety digonol nac unrhyw fodd o'i sicrhau (p'un a yw ei anghenion byw hanfodol eraill wedi eu diwallu ai peidio); neu b. mae ganddo lety digonol neu'r modd o'i sicrhau, ond ni all ddiwallu ei anghenion byw hanfodol eraill. '

Dywed y diffiniad a ddatblygwyd gan ymchwilwyr ac awduron adroddiad SJR, 'Destitution in the UK', sy'n cynnwys pob grŵp, fod pobl yn amddifad os buon nhw, neu eu plant, heb ddau neu fwy o chwe hanfod (lloches, bwyd, gwres, goleuo, dillad/esgidiau a defnyddiau ymolchi sylfaenol) yn y mis diwethaf, oherwydd na allant eu fforddio: neu, bod eu hincwm mor eithriadol o isel fel na allant brynu'r hanfodion hyn eu hunain.[34]

**Cefnogaeth adran 17 (Lloegr yn unig – gweler Atodiad 3 am ddarpariaeth gyfatebol yng Nghymru o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant)** Mae Deddf Plant 1989 (Adran 17) yn mynnu bod awdurdodau lleol yn Lloegr yn diogelu a hyrwyddo lles plant 'mewn angen', o fewn eu teuluoedd, yn cynnwys plentyn i rieni heb 'ddim hawl cyrchu cronfeydd cyhoeddus' (DHCCC). Mae plentyn 'mewn angen' os yw'n annhebygol o gyrraedd neu gynnal safon resymol o iechyd neu ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol, neu os yw'n anabl. Mae plentyn amddifad yn blentyn mewn angen at ddibenion a.17.

**Cefnogaeth i geiswyr lloches a wrthodwyd (neu gymorth Adran 4)** Cymorth llety a chynhaliaeth cyfyngedig a roddir i geiswyr lloches a wrthodwyd os gallant ddangos bod rhwystr dros dro yn eu hatal rhag gadael y DU. Fel rheol, pobl sengl sy'n ymgeisio am y gefnogaeth hon, ond gall teuluoedd wneud cais os na chawsant, neu os nad ydynt yn parhau i dderbyn, cymorth Adran 95 (oherwydd nad oedd plentyn yn y teulu pan dderbynasant eu dyfarniad terfynol) . Y bwriad gwreiddiol oedd mecanwaith tymor-byr ar gyfer pobl a oedd ar fin gadael y wlad (o dan Adran 4 Deddf Mewnfudo a Lloches 1999, felly 'cymorth Adran 4' fel y cyfeirir ato'n aml). Yn wahanol i gymorth Adran 95, darperir y cymorth ymgynhaliol nid mewn arian parod ond ar ffurf talebau na ellir gwneud cais amdanynt ar wahân os oes llety arall ar gael.

**Ceiswyr lloches a ffoaduriaid** Ceir y diffiniadau cyfreithiol ym Mlwch 1.

**Cymorth lloches (neu gefnogaeth Adran 95)** Cefnogaeth brif-ffrwd i geiswyr lloches a fyddai'n amddifad fel arall, a ddarperir nes bod yr achos yn cael ei ddyfarnu'n llawn gan y Swyddfa Gartref neu'r Llysoedd Apêl. Lleolir y rhan fwyaf o'r llety a ddarperir fel rhan o'r gefnogaeth hon y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr mewn ardaloedd gwasgaru, trwy gontractau llety/cymorth y Swyddfa Gartref a ail-hysbysebwyd y llynedd, gyda chontractau newydd (rhai i ddarparwyr newydd) wrthi'n cael eu sefydlu. Pery'r gefnogaeth hon os oedd plentyn yn y teulu o dan 18 oed pan ddyfarnwyd yn derfynol. Darperir cefnogaeth ariannol mewn taliadau arian parod wedi eu pennu'n is na lefelau nawdd cymdeithasol sylfaenol a gellir ceisio amdanynt ar wahân os oes llety arall ar gael. Gweler hefyd gefnogaeth Adran 4 uchod.

---

[34] https://www.jrf.org.uk/report/destitution-uk-2018

**Dim hawl cyrchu cronfeydd cyhoeddus (DHCCC)** Mae 'cronfeydd cyhoeddus' yn derm cyfreithiol penodol a chyfyngedig mewn cyfraith mewnfudo. Mae 'Dim hawl cyrchu cronfeydd cyhoeddus' (DHCCC) yn derm cyffredin ei ddefnydd, a gamddeëllir yn aml fel rhywbeth sy'n cynnwys gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol er bod ei ystyr yn gyfyngedig mewn gwirionedd. Cyflwynir yr ystyr yn llawnach ym Mlwch 2 ar dudalen 3.

**Gwestya** Trefniadau ffurfiol ac anffurfiol lle caiff ymfudwr amddifad stafell (a chefnogaeth arall, yn ôl pob tebyg) yng nghartref rhywun yn ddi-dâl.

**Hosteli** Llety nad yw'n hunan-gynhwysol sy'n darparu lleoedd gwely ar sail tymor-hwy na llochesau nos. Mae hosteli'n codi ar breswylwyr ond gall rhai gynnig rhywfaint o le ar gyfer rhai sy'n methu hawlio budd-daliadau.

**Masnachu mewn Pobl** Masnachu mewn pobl yw cael gafael ar bobl trwy ddulliau amhriodol fel grym, dichell neu dwyll, er mwyn eu hecsbloetio. Mae hwn yn ddiffiniad byr a rhannol o fasnachu mewn pobl, term yr ehangir arno gan offerynnau'r UE a chytundebau rhyngwladol.

**Syrffio soffa** Aros gyda ffrindiau, aelodau o'r gymuned neu dylwyth ar sail dros-dro/tymor-byr.

**Tai mewn aml-feddiannaeth (HMOs)** Eiddo a rentir gan o leiaf dri o bobl nad ydynt o un 'aelwyd' (e.e. teulu) ac sy'n rhannu cyfleusterau fel stafell ymolchi/cegin.

**Tŷ a rennir** Llety a ddarperir mewn un eiddo sy'n cael ei rannu; mae gan rai darparwyr llety i ymfudwyr amddifad dai ar wahân ac mae gan rai dai sy'n lletya ymfudwyr a phobl eraill sy'n gallu talu rhent, ac ymfudwyr na all wneud.

**Ymfudwyr ac ymfudwyr 'newydd' neu 'ddiweddar'** Ymfudwyr yw rhai sy'n dod i'r DU 'r bwriad o aros am gyfnod penodol neu gyfnod hwy.

DRAFT

## ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35]

| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Action Foundation**<br><br>*Newcastle, Gateshead a Sunderland*<br><br>Yn cefnogi ffoaduriaid, ceiswyr lloches ac ymfudwyr eraill sy'n profi unigedd yn Tyne and Wear gan ddarparu cyfleoedd i'w helpu i beidio â theimlo wedi eu heithrio. Mae'n rhedeg Action Lettings (tai i'w rhentu) ac Action Housing ac Action Hosting ar gyfer pobl amddifad â DHCCC | Cafwyd eiddo gan unigolion cefnogol sy'n berchenogion/ landlordiaid. Prynwyd un eiddo gan ddefnyddio cyllid SI gan Commonweal.<br><br>Incwm budd-dal tai ar gyfer rhyw 60 gofod gwely y fl., yn cynnwys cyfradd uwch yn seiliedig ar statws eithriedig, yn cynnwys cyfraniad at:<br><br>**16 gofod 'am ddim' y flwyddyn** a<br><br>**7 mewn cynllun gwestya** (dim ond yn 2016/17 y | 20 o dai yn Newcastle, Gateshead, Washington a Sunderland | Rheolydd tai profiadol a gweithwyr cymorth preswyl<br><br>Rheolaeth tai â chymorth dwys<br><br>Trwsio, cynnal a chadw, cyfleustodau a gofal 24 awr | Ceiswyr lloches a ffoaduriaid<br><br>Atgyfeiriadau gan grwpiau ffoaduriaid lleol Canolbwyntir y ddarpariaeth ar gyfer cleientiaid amddifad ar y mwyaf bregus | Ie<br><br>Ddim yn cymysgu rhai â DHCCC a phreswylwyr sy'n talu, na'r rhywiau yn yr un tŷ | Na – atgyfeirio at bartneriaid<br><br>Yn bosibl y datblygir OISC lefel 1 neu 2 yn fewnol yn y dyfodol agos | Ie – darperir lefel uchel o dai â chymorth i ateb gofynion bod yn llety eithriedig, yn cynnwys cefnogaeth i symud ymlaen i dai parhaol | Eu hysbysu am wasanaethau dychwelyd yn wirfoddol, ac atgyfeirio os yn briodol |

[35] Hutton C., Lukes S., a Petch H., *Housing Destitute Migrants: Lessons from a Pilot Project 2015 – 2018*, Commonweal Praxis, 2019



DRAFT

**ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35]**

| *Sefydliad, cenhadaeth a ffocws* | *Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad* | *Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas* | *Darpariaeth rheolaeth tai* | *Atgyfeiriadau a phreswylwyr* | *Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ* | *Mynediad i gyngor ar fewnfudo* | *Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen* | *Diwedd y broses fewnfudo* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | sefydlwyd hyn ac mae'n tyfu)<br><br>Cyfraniadau i gostau (gosod eiddo, 45% project amddifadedd, 20%)<br><br>Codwyd cyllid grant ychwanegol ar gyfer rhai o'r costau | | | | | | | |
| **Ymddiriedolaeth Boaz**<br><br>*Manceinion Fwyaf*<br><br>Yn bodoli i gefnogi pobl a aeth yn ddigartref ar ryw bwynt yn y broses ceisio lloches, gyda phwyslais ar helpu ceiswyr lloches allan o amddifadedd. Datblygu project tai ffoaduriaid i gefnogi'r nod yma. | Cyfrennir 14 tŷ gan gyfranwyr unigol cefnogol am rent pitw. Mae rhai eraill a rentir yn cynnwys 3 Green Pastures (Buddsoddwr Cymdeithasol Cristnogol) a 2 gan Gymdeithas Tai (CT) Arawak Walton | 19 o dai ym Manceinion (17) a Salford (2). Un yn Bolton cyn hir, wedi ei rentu oddi wrth Bolton at Home<br><br>Trin rhai tai fel HMOs/ trwyddedig | Rheolydd tai<br><br>CT Arawak Walton yn darparu rheolaeth tai yn cynnwys casglu rhent am dâl o £550 y tŷ y fl. (sy'n talu Arawak | Ceiswyr lloches a ffoaduriaid<br><br>Atgyfeiriadau gan 23 sefydliad. Rhestr aros o 150 | Ie<br><br>Gwahanu ffoaduriaid sy'n talu rhent a cheiswyr lloches amddifad | Ie. Arfer cadw cynghorydd cyfreithiol ar alw (heb ei gyflogi) – un yn galw i mewn nawr 1 diwrnod yr wythnos o Uned Fewnfudo Manceinion Fwyaf | Ie – rheolydd cefnogi llawn-amser (1 CLlA), 2.8 gweithiwr cefnogi CLlA (1.6 CLlA i 40 ceisydd lloches, 1.2 CLlA i 30 ffoadur) = 4.5 achos y dydd, yn cynnwys cefnogaeth symud-ymlaen. | Darparu gwybodaeth am ddychwelyd yn wirfoddol |

DRAFT

## ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35]

| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 20% o incwm Boaz o dai ar gyfer ffoaduriaid a chefnogaeth<br>Cefnogaeth i gleientiaid o grantiau elusennol yn bennaf<br>Incwm o rentu 28 stafell, i 15 ffoadur gwrywaidd a 13 ffoadur benywaidd, yn talu tua:<br>56% o gost llefydd i **43 ceisydd lloches amddifad (24 dyn, 19 menyw)** | | Walton i gyflogi casglwr rhent 0.5% CLIA)<br>Cynnal/cadw, cyfleustodau a gofal 24 awr | | | | I gleientiaid amddifad heb fodd i'w cynnal eu hunain, £10 yr wythnos a chostau teithio i gyfarfodydd/ apwyntiadau penodol fel y bo'r angen | |
| **Project Dass**<br>*Glasgow, Yr Alban* | 22 lle nos i ddynion trwy Loches Nos Glasgow. | Eiddo mewn lleoliadau rhesymol. | Staff DASS | Yn amodol ar dderbyn cyngor ar fewnfudo. Atgyfeiriad trwy bartneriaid yn y | Preswylwyr oll â DHCCC.<br>Profiadau gwael gyda | Rhaid wrth atgyfeiriad cyn derbyn achos. 2 wirfoddolwr o Glinig y | Model o gefnogi cyfannol gyda chyngor ar fewnfudo yn y ganolfan a llety | Asesiad trylwyr o rinweddau'r achos ac atgyfeirio am gyngor ar |

DRAFT

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| Partneriaeth dan arweiniad y Refugee Survival Trust gyda Cyngor Ffoaduriaid yr Alban, Y Groes Goch Brydeinig, Clinig y Gyfraith Prifysgol Strathclyde i helpu ceiswyr lloches a wrthodwyd sy wedi Dihysbyddu Hawliau Apêl (DHA) ac â DHCCC i ddod o hyd i lwybr allan o amddifadedd a datrys eu sefyllfa. | 8-10 o leoedd gwely mewn 4 eiddo: cyfranwyd 1 2-lofft (a'r holl gostau wedi'u talu) gan gyn-weinidogion Eglwys Gymunedol a Dodrefn Castlemilk; cyfranwyd 1 2-lofft gan gefnogwr, arian a godir yn talu costau rhedeg; 1 2-lofft ar rent gan CT Queens Cross ac 1 2-lofft arall i ddod (codir arian at rent a chostau rhedeg). Mae codi arian i dalu rhenti yn her. | Eiddo CT mewn lleoliad da.<br><br>Ymwybodol o risg dibynnu ar gefnogwr unigol y gallai ei amgylchiadau newid.<br><br>Bydd yn rhaid dychwelyd 1 eiddo 4-llofft a brynwyd gan y buddsoddwyr cymdeithasol Cristnogol Green Pastures. | | rhwydwaith amddifadedd, hunan-atgyfeirio neu galw i mewn i Gyngor Ffoaduriaid yr Alban.<br><br>Anelir lleoedd gwely at achosion â chyfle da o lwyddo ond a all fod ag angen llety am flwyddyn neu ddwy | mwy na 2 yn rhannu felly targedu eiddo 2-lofft wrth gynyddu stoc tai | Gyfraith Strathclyde (myfyrwyr y gyfraith) yn darparu cefnogaeth eiriolaeth | a thaliadau arian parod i ddiwallu anghenion sylfaenol a hwyluso mynd i'r afael â'u hachos | ddychwelyd gwirfoddol fel y bo'n briodol |

**ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35]**

| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hope Projects**<br><br>*Birmingham a Gorll. Canolbarth Lloegr*<br><br>Mae Hope yn bod i wrthdroi dyfarniadau gwrthod lloches diffygiol. Tai, ynghyd â chymorth ariannol a chyngor cyfreithiol, yw 3 philer ei ffordd o gyflawni hyn | Y rhan fwyaf o 12 eiddo wedi eu sicrhau gan gymdeithasau tai ac unigolion am lefelau rhent daear/pitw<br><br>Cyllidir gan grantiau yn bennaf<br><br>Cartrefwyd **38 o geiswyr lloches amddifad** o 60 a gefnogwyd ag arian o Hope Projects | 12 tŷ yn Birmingham<br><br>2 ofod y gellir eu defnyddio yn Wolverhampton | 2 Weithiwr Cymorth Tai rhan-amser<br><br>Cyfleustodau, cynnal a chadw, yn cynnwys cryn dipyn o DIY ac ymgysylltu â phreswylwyr | Dim ond ceiswyr lloches amddifad<br><br>Pob atgyfeiriad trwy Grŵp Llywio Hope. Mae'r grŵp atgyfeirio yn dal i ddarparu cefnogaeth.<br><br>Cartrefu'r achosion â'r siawns orau o lwyddo | Ie | Ie, cyflogi 1 cynrychiolydd cyfreithiol Ll-A | Ie – cymysgedd o gefnogaeth Hope a chefnogaeth barhaus y grŵp atgyfeirio<br><br>Annog gwaith grŵp a chymorth cymheiriaid<br><br>Darperir taliadau arian parod o incwm codi-arian | Cyngor ar ddychwelyd yn wirfoddol<br><br>Gwasanaeth, OND dim ond achosion â'r siawns orau o lwyddo a dderbynir |
| **Nottingham Arimathea Trust**<br><br>*Nottingham, Swydd Nottingham a Derby* | Incwm budd-dal tai yn cynnwys y gyfradd uwch ar sail statws eithriedig | Ceisio eiddo yn bennaf yn ardal NG7 Nottingham - yn arbennig o agos at Hyson Green gan mai dyma hoff | Trwsio, cynnal a chadw a chyfleustodau<br><br>5 o staff yn cynnwys: | Atgyfeirir gan Fforwm Ffoaduriaid Nottingham a'r sir (NNRF), y Groes Goch, Canolfan Cyngor | Ie – gweler yn flaenorol yng ngholofn 1 | Wrthi'n gweithio i sicrhau achrediad OISC lefel 1 i ddechrau | Cefnogaeth gyfannol ar sail y model 'Outcomes Star' chynllunio i weithredu. | |

DRAFT

| **ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH** ***(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)***[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| Tai â chymorth i geiswyr lloches amddifad, ffoaduriaid newydd eu cydnabod, ac ymfudwyr sy'n ddioddefwyr masnachu mewn pobl neu gaethwasiaeth fodern. | 8 tŷ a rennir (7 yn Nottingham ac 1 yn Derby), o'r rhain:<br>- 6 a rennir rhwng ffoaduriaid a cheiswyr lloches<br>- 2 i geiswyr lloches amddifad yn unig (cymysgu yn y dyfodol efallai)<br>- 2 gartref teuluol ar gyfer ffoaduriaid<br>9 fflat 1-llofft ar gyfer ffoaduriaid sy'n lletya pobl sengl, parau a theuluoedd bach<br>1 ceisydd lloches amddifad yn byw mewn cymuned | leoliad y mwyafrif o geiswyr lloches a ffoaduriaid yn Nottingham. Eiddo hefyd yn NG2, gan ei fod ar gael, yn ateb yr anghenion ac yn ail ddewis o leoliad gan ffoaduriaid a cheiswyr lloches. | Gweithiwr Cymorth<br>Rheolydd Tai<br>Swyddog Ailsefydlu<br>Dirprwy PSG a PSG<br>Staff i gyd yn rhan o rota ddyletswydd (24 awr) | Ffoaduriaid Derby, a'r Tîm Allgymorth Stryd<br>Deiliadaeth o ryw 98-99% fel arfer ond ar hyn o bryd â chontract anarferol sy'n gostwng deiliadaeth | | | Grŵp ESOL i fenywod<br>1 Gweithiwr Cefnogi ac 1 Ailsefydlu Cefnogaeth Gweithiwr Cymorth i bob ffoadur a phobl sydd wedi goroesi caethwasiaeth fodern/masnach mewn pobl<br>*Y staff i gyd yn brofiadol ac yn cydweithio i ateb anghenion preswylwyr. Dyrennir llwyth achosion* | |

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| | gynaliadwy yn Swydd Nottingham<br><br>Rhentir eiddo am lai na rhent y farchnad gan:<br><br>4 gan CTai<br><br>2 gan yr Esgobaeth Anglicanaidd<br><br>5 rhentu preifat<br><br>9 fflat gan y buddsoddwyr cymdeithasol Cristnogol Green Pastures<br><br>1 byngalo am ddim | | | | | | *penodol i bob aelod staff* | |
| **Open Door North East (ODNE)**<br><br>*Middlesbrough (M'boro) a Stockton* | 35 o dai - 3 yn eiddo i ODNE; 2 yn eiddo preifat di-rent; 1 di-rent gan LCC; a 29 eiddo preifat a | 31 o dai yn M'boro a 4 yn Stockton (ardaloedd gwasgaru) | 2½ o staff yn cynnwys rheolydd tai profiadol o'r sector preifat | Trwy wasanaethau galw-heibio ac asiantaethau lleol | Ie<br><br>Mae gan 3 thŷ a rennir gymysgedd o DHCCC a rhai | Ie, cyfeirio at arbenigwyr ond angen mwy o allu ac yn gweithio | Gwasanaeth galw heibio gydag un i fenywod yn unig | Darparu gwybodaeth ar ddychwelyd yn wirfoddol |

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| Darparu amryw wasanaethau sy'n cynnal lles, bywoliaethau a gallu rhai sy'n ceisio noddfa yn y DU i integreiddio Dechreuwyd rhoi cartref i ffoaduriaid er mwyn croes-noddi llety i Geiswyr Lloches a wrthodwyd â DHCCC | reolir gan ODNE fel asiant 'gosod eiddo cymdeithasol' am ffi reoli o 8.5 i 15% o'r incwm rhent gros.<br><br>Yn lletya 96 o ffoaduriaid, 16 o ceiswyr lloches DHCCC a 2 ymfudwr o'r UE<br><br>Telir costau lletya **16 o geiswyr lloches amddifad** o incwm rhentu i ffoaduriaid/ ymfudwyr<br><br>Yn ddiweddar, darparwyd 2 le dan a.18 o'r Ddeddf Gofal a llety a.17 i 2 deulu o ymfudwyr amddifad, sy'n | Mae ODNE wedi canolbwyntio ar gaffael tai mewn ardaloedd fel canol M'boro (TS1) sy'n well gan ffoaduriaid nag ardaloedd mwy maestrefol | Trwsio, cynnal a chadw a chyfleustodau | | sy'n talu rhent. Mae'r gweddill â naill DHCCC neu ffoaduriaid i gyd.<br><br>Mae rhai tai yn dai ffoaduriaid/ ymfudwyr ar denantiaeth fyrddaliol sicr heb neb ond aelodau'r teulu yn rhannu | tuag at gael 2 o'r staff i ennill OISC lefel 1 | Bwyd bob wythnos ac arian ar wyliau banc<br><br>Arian wythnosol gan ddarparwr arall<br><br>Help ariannol i gadw apwyntiadau<br><br>Cefnogaeth symud-ymlaen (er y gallai peth o'r llety fod yn barhaol) | |

DRAFT

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| | cyfrannu at y llif incwm | | | | | | | |
| **Praxis**<br><br>*Llundain*<br><br>Gwasanaethau cyfannol i ymfudwyr sy'n "*cydnabod y daw pobl â chryfderau ac, er bod angen cyngor cyfreithiol, llety a chefnogaeth arbenigol arnynt, y gall defnyddwyr gwasanaethau hefyd fod yn gyfrwng newid.*" | Buddsoddiad cymdeithasol (SI) i brynu 7 tŷ.<br><br>Commonweal yn arwain partneriaeth o 4 buddsoddwr cymdeithasol elusennol, yn dwyn y risg a noddi rhenti<br><br>Ffioedd Awdurdod Lleol (ALl) ar gyfer cleientiaid A.17 yn helpu i gefnogi:<br><br>**O leiaf 3 lle gwely 'am ddim' ar unrhyw adeg** (14 menyw amddifad dros 3 bl.) | 7 tŷ mewn 2 o fwrdeistrefi allanol Llundain, 18 lle gwely (Croydon a Redbridge)<br><br>Tŷ 3-llofft a rentir am bris is na'r farchnad gan gefnogwr a ddefnyddir ar gyfer pawb ond achosion A.17 | 1 Rheolydd Tai ac 1 Gweithiwr Cymorth<br><br>Trwsio, cyfleustodau a llinell 24-awr | 9 Awdurdod Lleol<br><br>Praxis a'r Groes Goch am leoedd i'r amddifad | Ie<br><br>Menywod sy ddim yn A.17 yn Lebanon Rd yn bennaf ond yn cymysgu | Ie, cynghorydd mewnfudo 0.4 CLlA | Ie, yn cynnwys:<br><br>Taliad arian o £25 yr wythnos (dim i achosion a.17)<br><br>Gwaith grŵp Praxis<br><br>Cefnogaeth i symud wrth adael y project | Darparu gwybodaeth am wasanaethau dychwelyd gwirfoddol |

DRAFT

## ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35]

| *Sefydliad, cenhadaeth a ffocws* | *Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad* | *Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas* | *Darpariaeth rheolaeth tai* | *Atgyfeiriadau a phreswylwyr* | *Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ* | *Mynediad i gyngor ar fewnfudo* | *Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen* | *Diwedd y broses fewnfudo* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfraniad at gostau o 35%<br>Codwyd cyllid grant ychwanegol ar gyfer rhai costau | | | | | | | |
| **King's Arms Project**<br>*Bedford*<br>Mae King's Arms Project Bedford yn darparu gwasanaethau i ymbweru pobl ar eu taith allan o ddigartrefedd, gan ddarparu allgymorth, llety a chyfle i helpu pobl allan o dlodi. Cred nad oes yna'r fath beth ag achos anobeithiol. "Rydyn ni'n gwrthod rhoi'r gorau iddi gyda neb ac yn credu y gall pob person digartref fod â dyfodol disglair." | 18 o leoedd gwely lloches nos a 25 o leoedd gwely Tai Symud-ymlaen i bobl ddigartref sengl, un tŷ (4 lle gwely) i gleientiaid DHCCC a gyllidir yn llawn gan 'Gronfa Rheoli Ymfudo' y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (trwy law'r ALl). Denodd dwyster problem digartrefedd AEE yn yr ardal adnoddau | Prydlesu eiddo gan landlordiaid preifat i letya pobl ddigartref sengl â DHCCC.<br>Heriau o ran costau a lleoliad gan gynnwys rhywfaint o wrthwynebiad lleol<br>Partneriaeth gydag HA a'r gymuned leol ar gyfer ailsefydlu ffoaduriaid a | Grant yn cwrdd â chostau rheolaeth tai yn llawn, yn cynnwys cynnal a chadw | Trwy fenter cysgwyr allan lleol/timau allgymorth | Ie<br>Tai ymfudwyr â DHCCC ar wahân i'r ddarpariaeth ddigartrefedd arall<br>Bydd cynllun newydd gyda chyllid ALl yn cynnwys parau | Na – atgyfeirio i Bedford Refugee and Asylum Support | Ie, â phwyslais ar ymgysylltu ag ESOL a'r gwasanaeth hyfforddiant cyflogaeth<br>Cefnogaeth symud-ymlaen<br>Wrthi'n archwilio fel y bydd anghenion cymorth a chyd-destun yn amrywio rhwng rhai heb hawl i weithio, e.e. ceiswyr lloches | Gwasanaeth ailgysylltu yn wirfoddol i ymfudwyr o'r AEE. Bu llawer yn y DU am amser maith a gwrthodwyd cynigion blaenorol o gymorth ailgysylltu cyn iddynt ddod i King's Arms |

DRAFT

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| | arbennig (25 o gysgwyr allan DHCCC yn Bedford, mwyafrif o'r AEE)<br><br>Bydd cyllid ALl o 8 stafell ychwanegol o 01/10/2018 yn darparu lleoedd gwely i 14 DHCCC â'r hawl i weithio h.y. ymfudwyr o'r AEE (2 stafell ar gael i gyplau)<br><br>Yn ymwneud ag Ailsefydlu Syriaid a Noddi Cymunedol. Archwilio angen lleol a model o ddarpariaeth ar gyfer ceiswyr lloches amddifad â DHCCC ynghyd â rhai'n gadael | chynlluniau noddi cymunedol | | | | | ac ymfudwyr eraill o'r tu allan i'r AEE a rhai o'r AEE wedi Brexit | |

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| | Canolfan Gadw Yarlswood gerllaw | | | | | | | |
| **Metropolitan Thames Valley Housing & Migration Foundation (MTVH)**<br><br>Llundain, De-ddwyrain a Chanolbarth Lloegr<br><br>Grŵp tai mawr, a gyfunodd yn ddiweddar sy'n berchen ar/yn rheoli 57,000 o gartrefi, yn cynnwys adran tai â chymorth. Mae ganddo hefyd gronfa – y Migration Foundation – na all neb ond ymfudwyr elwa arni ac sy'n cyllido camau newydd mewn darparu gwasanaethau i ymfudwyr, â diddordeb penodol mewn ymfudwyr diymgeledd ac amddifad. | Mae'r eiddo'n perthyn i MTVH, a chyllidir y gwasanaeth yn llawn gan Migration Foundation.<br><br>D.S. Mae'r Sefydliad hefyd yn archwilio darpariaeth ar gyfer 20 o deuluoedd mudol amddifad Adran 17 yn Derby i ddangos o fewn y sefydliad bod marchnad ar gyfer eu harbenigedd wrth ddarparu tai a gwasanaethau cymorth i ymfudwyr ac nad oes rhaid ariannu pob | 1 tŷ 10-llofft ar gyfer ymfudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches heb hawl cyrchu cronfeydd cyhoeddus mewn ardal o angen mawr yn Derby. | 3 aelod o staff, yn cynnwys rheolydd projectau | Atgyfeirir gan elusennau lleol | Ie | Mae gan y rhan fwyaf o gleientiaid gynrychiolaeth gyfreithiol (h.y. ceiswyr lloches sy'n cyflawno cais newydd) neu maent yn derbyn cefnogaeth gan y sefydliad atgyfeirio, ond rydym wrthi yn datblygu partneriaeth gyda phroject cyfreithiol i'n | Mae'r project yn cynnig grant caledi bach, yn derbyn rhoddion o fwyd gan fusnesau lleol, yn cefnogi preswylwyr sydd eisiau gwirfoddoli neu gael gwaith, ac yn cynnig chwaraeon a chyfleoedd i gymdeithasu. Cefnogir preswylwyr i symud i denantiaethau | Cyngor ar ddychwelyd yn wirfoddol pan fydd y pob opsiwn wedi ei dihysbyddu o ran hawliad newydd/dim tystiolaeth newydd.<br><br>Gallwn hefyd gefnogi cleientiaid sy'n mynd trwy'r broses hon, oherwydd gall gymryd misoedd i |

DRAFT

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| | darpariaeth yn y maes hwn o ffynonellau elusennol. | | | | | cefnogi gydag achosion mwy cymhleth. | mwy cynaliadwy yn yr ardal, cyn gynted ag y bônt yn barod i wneud hynny. | gasglu'r holl waith papur angenrheidiol i ddychwelyd i'w wlad wreiddiol. |
| **St Mungo's**<br><br>*Llundain, de-ddwyrain, gorllewin a chanolbarth Lloegr*<br><br>Gweledigaeth St Mungo yw i bawb fod â lle i'w alw'n gartref ac gallu cyflawni eu gobeithion a'u huchelgeisiau. Mae'n rhoi cefnogaeth uniongyrchol i gleientiaid i'w hatal rhag mynd yn ddigartref, neu'n ymateb i hynny a helpu i'w hadfer; yn meithrin cysylltiadau â chymunedau a'r cyhoedd yn ehangach, gan anelu at | 23 o leoedd gwely ar gyfer pobl DHCCC o'r tu allan i'r AEE sy'n derbyn cyngor mewnfudo gan Praxis a Refugee Action fel rhan o'r project 'Street Legal'. Lleoedd gwely i bobl heb ddim neu nemor ddim anghenion cymorth, a gyllidir o amryw ffynonellau, yn cynnwys y Loteri Fawr, GLA (contract | Mae St Mungo yn darparu gwasanaethau helaeth i bobl ddigartref. Mae'n berchen ar beth o'i eiddo a gall fanteisio ar amrywiaeth eang o unedau rhentu preifat ar brydles. Mae St Mungo hefyd yn trefnu defnydd dros-dro o unedau eiddo | Darperir mewn hosteli fel arfer a reolir o fewn adnoddau presennol, yn cynnwys cost trwsio, cynnal a chadw a chyfleustodau | Ar gyfer cleientiaid Street Legal. Atgyfeirir i Street Legal gan dimau all-gymorth ledled Llundain a'r gwasanaeth 'Dim Ail Nos Allan' (NSNO). | Darpariaeth hostel, rhennir cyfleusterau | Ie, gan bartneriaid Street Legal, Praxis a/neu Refugee Action | Ie, fel rhan o wasanaethau i fynd i'r afael â chysgu allan | Cyngor ar ddychwelyd yn wirfoddol |

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| gynyddu dealltwriaeth o ddigartrefedd ac empathi tuag at y bobl sy'n ei ddioddef, ac yn eiriol dros newid polisi trwy gyfuno lleisiau ei gleientiaid â'i brofiad o'r hyn sy'n gweithio | am wasanaethau i fynd i'r afael â Chysgu Allan) ac incwm dilyffethair a godir gan St Mungo<br><br>19 lle gwely ar gyfer dinasyddion AEE a rhai o'r tu allan i'r AEE â DHCCC a gyllidir trwy'r GLA yn cynnwys 3 lle gwely sy'n addas ar gyfer pobl ag anghenion cymorth uwch.<br><br>Ar gychwyn peilot 18-mis o ffyrdd eraill o gynnwys lleoedd gwely DHCCC mewn projectau presennol gydag incwm a godwyd gan St | sy'n eiddo i landlordiaid cymdeithasol sy'n disgwyl cael eu hadnewyddu | | | | | | |

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| | Mungo yn talu am 9 lle gwely, a sgyrsiau ar y gweill â chomisiynwyr lleol i gytuno lle y gellir cynnig y lleoedd hyn o fewn ein stoc bresennol.<br><br>Archwilio hefyd sut i gynnwys lleoedd gwely DHCCC pryd bynnag y bydd yn ail-wampio adeiladau o'i eiddo neu a rentir ganddo ar brydles hir. Fel rhan o'r project hwn cyn hir bydd gennym 3 lle gwely DHCCC mewn project yn Southwark y gall y timau allgymorth | | | | | | | |

DRAFT

| ATODIAD 5 - GWYBODAETH AM DDARPARWYR PRESENNOL A'U DARPARIAETH *(Ymchwil a wnaed ym Medi 2018)*[35] | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Sefydliad, cenhadaeth a ffocws*** | ***Model tai a chyllidol yn cefnogi ymfudwyr amddifad*** | ***Mynediad i eiddo boddhaol mewn lleoliad addas*** | ***Darpariaeth rheolaeth tai*** | ***Atgyfeiriadau a phreswylwyr*** | ***Tai a rennir ac os yn lletya DHCCC a phreswylwyr sy'n talu yn yr un tŷ*** | ***Mynediad i gyngor ar fewnfudo*** | ***Cefnogaeth gyfannol yn cynnwys anghenion sylfaenol, ESOL symud-ymlaen*** | ***Diwedd y broses fewnfudo*** |
| | lleol atgyfeirio iddynt. | | | | | | | |

DRAFT